

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Iwan Jones

Prif Weithredwr Dros Dro

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E-bost: parc@eryri.llyw.cymru <<mailto:parc@eryri.llyw.cymru>>

Cyfarfod: Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dyddiad: Dydd Mercher 13 Tachwedd 2024

Amser: 10.00 y.b.

Man Cyfarfod: Swyddfa'r Parc Cenedlaethol,
Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom

Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

*Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes,
June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts,
John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;*

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru

*Brian Angell, Tim Jones,
Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd.*



R H A G L E N

Rhif
Tudalen

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
2. **Diweddariad Corfforaethol**
Derbyn diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr Dros Dro.
3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**
Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ac eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc.
Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (drwy'r post neu e-bost) i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Chorfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod.
4. **Datgan Diddordeb**
Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.
5. **Cofnodion** 3 - 14
Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 11^{eg} o Fedi 2024 ac ar 2^{il} o Hydref 2024 fel rhai cywir. (Copïau yma)
6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**
7. **Taflen Weithredu** 15
Cyflwyno'r Daflen Weithredu, er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma)
8. **Adroddiad Proffil Risg yr Awdurdod** 16 - 30
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (Copi yma)
9. **Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru** 31 - 36
Cyflwyno Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd 3^{ydd} o Fehefin 2024
10. **Y Pwyllgor Safonau** 37 - 38
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr Dros Dro. (Copi yma)
11. **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol** 39 - 64
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

12.	Adborth i'r Diwrnod Agored Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu. (Copi yma)	65 - 144
13.	Adolygiad o ddefnyddio Eryri ac Yr Wyddfa yn unig yng nghyfathrebu'r Awdurdod Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu. (Copi yma)	146 - 158
14.	Addasu Logo'r Awdurdod Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu. (Copi yma)	159 - 161
15.	Adroddiad Blynyddol Prosiectau Enwau Lleoedd Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trefadaeth Ddiwylliannol. (Copi yma)	162 - 164
16.	Diweddariad Cyllideb 2024/25 Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cyllid. (Copi yma)	165 - 174
17.	Cyllideb 2025/26 Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)	175 - 179
18.	Adroddiad Gweithgor Aelodau Cyflwyno adroddiad cyfarfodydd y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar y 4 ^{ydd} o Fedi ac ar y 16 ^{eg} o Hydref 2024. (Copiau yma)	180 - 186
19.	Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Cyflwyno cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar yr 11 ^{eg} o Fedi 2024 er gwybodaeth. (Copi yma)	187 - 188
20.	Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill Derbyn adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.	
21.	Trafodaethau ar Ddyfodol Plas Tan y Bwlch Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Eithrio rhag datgelu dogfennau Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr Dros Dro. (Copi yma)	189
22.	Strwythur y Tîm Rheoli Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Eithrio rhag datgelu dogfennau Cyflwyno adroddiad gan y Darpar Brif Weithredwr. (Copi yma)	190

RHAN 2

23.	Trafodaethau ar Ddyfodol Plas Tan y Bwlch Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr Dros Dro. (Copi yma)	191 - 302
24.	Strwythur y Tîm Rheoli Cyflwyno adroddiad gan y Darpar Brif Weithredwr. (Copi yma)	303 - 307



COFNODION
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 11^{eg} o FEDI 2024
Plas Tan y Bwlch

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Edgar Wyn Owen (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Tim Jones, Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd;

Swyddogion

G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Edward Jones, Adam Daniel, Eifion Jones.

Cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu ar y we, ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Louise Hughes, June Jones, Dilwyn Owain Roberts.

Cydymdeimlodd y Cadeirydd â'r cyn-gadeirydd Wyn Jones ar golli ei fam a gofynnodd am anfon carden cydymdeimlo ato.

Eglurodd bod yr Awdurdod wedi colli dau Aelod yn ddiweddar, sef Sarah Hattle a Dr Lowri Cunnington Wynn. Roedd Sarah Hattle wedi ymddiswyddo am ei bod wedi derbyn swydd newydd. Roedd Lowri Cunnington Wynn wedi tynnu nôl o fod yn Aelod oherwydd ei bod hithau hefyd wedi derbyn swydd yn ddiweddar a bod y ddwy rôl yn gwrthdaro. Diolchodd i Sarah Hattle am ei chyfraniad a gofynnodd i lythyr yn diolch iddi am ei chyfraniad gael ei anfon ati.

Soniodd ei fod wedi bod yn Sioe Amaethyddol Meirionnydd ym mis Awst a'i fod yn sioe dda.

2. Diweddariad Corfforaethol

Derbyniwyd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr dros dro:

- Soniodd fod Julie James AS wedi ymddiswyddo o'r Cabinet a bod y Parc wedi ei symud i bortffolio Huw Irranca-Davies, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Oherwydd bod y Prif

Weinidog newydd gael ei phenodi gallai'r sefyllfa newid eto yn yr wythnosau nesaf.

- O ran prysurdeb dros yr haf, nododd mai yn Llyn Tegid, Ogwen a Nant Gwynant yr amlygwyd hyn yn bennaf. Dywedodd bod y swyddogion perthnasol wedi bod mewn trafodaethau cyson gydol yr haf i geisio datrys y problemau a bod cyfarfodydd pellach wedi eu trefnu. Diolchodd i'r Wardeiniaid ac i'r Swyddogion perthnasol am reoli'r sefyllfaoedd ac am eu gwaith caled a'u hymdrechion dros yr haf.
- Nododd fod yr Awdurdod wedi ennill "Standin y Sioe" yn Sioe Amaethyddol Meirionnydd, a llongyfarchodd a diolchodd i bawb oedd ynghlwm â'r standin.
- Bu'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir yn cwrdd ag Alwen Williams, Prif Weithredwr, Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd, a Chyfarwyddwr Portffolio, Uchelgais Gogledd Cymru i dderbyn diweddariad ar drosglwyddo Uchelgais Gogledd Cymru i Gydbwyllgor Corfforedig y Gogledd. Bydd hwnnw'n digwydd o'r 1^{af} o Dachwedd. Esboniodd fod yr Awdurdod yn dal i hawlio pleidlais ar faterion cynllunio yn unig, ond bod trafodaethau i weld a allai'r Awdurdod gael ei wahodd fel aelod heb bleidlais ar yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth. Byddai hwnnw'n ychwanegu tipyn at sut y gallai'r Awdurdod gyfrannu at y broses.
- Nododd fod yr Awdurdod wedi gwneud cais i Gronfa Rhwydweithiau Natur o dan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Nod y gronfa yw gwella cyflwr a chydnerthedd rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchoddedig. Cyflwynodd yr Awdurdod fynegiad o ddiddordeb am y grant ym Mis Awst a bydd rhaid cyflwyno cais llawn erbyn mis Tachwedd. Gwerth y prosiect yw £967,000 os yn llwyddianus.
- O ran y sefyllfa gyllidol, nododd fod Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad yn holi am bwysau ariannol chwyddiant cyflogau ac, er ei bod yn ddyddiau cynnar i ddarogan unrhyw ganlyniad, y nodyn cyson oedd nad oedd yn bositif chwaith ar draws y DU nac yng Nghymru ac nad oedd yn obeithiol am unrhyw setliad mwy positif na'r patrwm a oedd wedi ei amlygu'i hun dros y blynyddoedd diwethaf.
- Soniodd fod panel recriwtio wedi cyfarfod yr wythnos flaenorol i benodi Prif Weithredwr newydd ac y byddai cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn dilyn y cyfarfod presennol i drafod y ceisiadau a phenderfynu ar y rhestr fer. Yn dilyn hynny byddai cyfarfod arbennig o'r Awdurdod yn cael ei gynnal ar yr Ail o Hydref i gyfwrdd a chadarnhau penodiad.
- Soniodd am Gynhadledd COPA1, sy'n cael ei gynnal ar 24^{ain} o Fedi, lle bydd 55 o ieuencid o wahanol ysgolion uwchradd gogledd Cymru yn mynychu uwch-gynhadledd amgylcheddol cyntaf y byd i gyflwyno eu hymateb i'r "Syniad Mawr" ar sut i ddatrys yr argyfwng llygredd untro sydd ar yr Wyddfa.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Cynghorodd y Cadeirydd fod aelod o'r cyhoedd wedi rhoi hysbysiad eu bod am siarad yn y cyfarfod.

Cyflwynodd Ms Llinos Alun y cwestiwn canlynol:

Cwestiwn:

Pam nad ydy'r Awdurdod yn fodlon trosglwyddo'r Plas yn gyfan gwbl i grŵp cymunedol, neu werthu'r goedlan a'r tiroedd i Goed Cadw a defnyddio'r arian hwnnw i wella'r Plas a'i redeg mewn partneriaeth?

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Alun am ei chwestiwn a gwahoddodd y Prif Weithredwr i ymateb:

Ymateb Swyddogion:

Mae'r Awdurdod yn parhau mewn trafodaethau gydag un cwmni ac yn agored i unrhyw gynnig.

Ers i'r eiddo gael ei roi ar y farchnad mae nifer o ymholiadau wedi'u derbyn ac yr oedd yr Awdurdod am ystyried y prif ddatblygiadau ar ddiwedd y cyfarfod yma. Cadarnhaodd mai un o'r materion fyddai'n cael ei drafod yw a oedd dymuniad ail-edrych ar gyngor Carter Jonas.

Esboniodd pe byddai'r Awdurdod yn gwerthu'r goedlan a'r tiroedd ar wahân, arian unwaith ac am byth fyddai hynny ac ni fyddai'n ddigonol i wella'r Plas a'i redeg mewn partneriaeth.

Atgoffodd fod angen gwariant o 3 miliwn o bunnoedd ar yr adeilad ei hun dros y deg mlynedd nesaf a bod Plas Tan y Bwlch yn costio oddeutu £250,000 y flwyddyn i'w redeg.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb oedd wedi dod i'r cyfarfod a chadarnhaodd fod ganddo, fel Cadeirydd, ddisgresiwn i ganiatáu i'r unigolyn ofyn cwestiwn ychwanegol i'r Prif Weithredwr pe byddai'n dymuno.

Cwestiwn:

Pam na ellid rhoi amser i grwpiau lleol ddarganfod grantiau yn hytrach na'i werthu'n frysiof fel yma? A gan fod yr Awdurdod yn byw ar grantiau pam na chwiliwyd am grantiau ar gyfer cadw'r Plas yn hytrach na'i adael i fynd?

Ymateb Swyddogion:

Esboniodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y gallu i gael grantiau ar gyfer y Plas ar lefel Awdurdod yn gyfyngedig a dyna pam fod yr Awdurdod wedi bod mewn trafodaethau gyda chwmni cymunedol, a bod trafodaeth bellach i ddilyn y cyfarfod.

4. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.

5. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 12^{fed} o Fehefin 2024 a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

Ni chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion.

7. **Taflen Weithredu**

Cyflwynwyd y Daflen Weithredu a nododd y Prif Weithredwr fod y gweithrediadau a nodir o dan yr ail eitem ar y Daflen, sef "Plas Tan y Bwlch" wedi eu cwblhau ac y dylid felly ddileu'r eitem honno o'r Daflen Weithredu.

Argymhellwyd: dileu'r Eitem ar Blas Tan y Bwlch o'r Daflen Weithredu

Penderfynwyd: derbyn yr Argymhelliad.

8. **Adroddiad Blynyddol 2023/24**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Adroddiad Blynyddol 2023/24. Esboniodd mai pwrpas yr Adroddiad Blynyddol oedd adrodd yn ffurfiol ar y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod o ran gwireddu ei Amcanion Llesiant. Nododd y byddai mwyafrif y gwaith a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol yn faes cyfarwydd gan fod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wedi bod yn monitro cynnydd ar hyn ar sail chwarterol. Fodd bynnag, roedd yr Adroddiad hwn yn ceisio rhoi trosolwg o'r sefyllfa ar ddiwedd 2023-24 er mwyn deall yn well y cynnydd a wnaed hyd yma yn ogystal â'r heriau oedd yn parhau. Nododd fod llawer o'r adroddiad yn wyrdd oedd yn arwyddo datrysiad da ar gyfer y flwyddyn.

(Ar y pwynt yma, fe ofynnodd aelod o'r cyhoedd a oedd hawl gadael y cyfarfod ac a oedd yr Aelodau yn mynd i drafod mater y Plas ymhellach yn y cyfarfod.

Esboniodd y Prif Weithredwr fod hawl gadael y cyfarfod, ac y byddai trafodaeth bellach ar y mater ar ddiwedd y cyfarfod, ond bod yna adroddiad i gau allan y wasg a'r cyhoedd o'r drafodaeth honno cyn hynny.

Eglurodd hefyd na fyddai'n arferol cael trafodaeth neu cwestiynau o'r fath ond er mwyn sicrhau tegwch a gwell dealltwriaeth y byddai yn fodlon agor y cyfarfod i gwestiynau a sylwadau pellach ond dim tan ddiwedd yr eitem bresennol.)

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol ac yn cymeradwyo ei gyhoeddi.

Penderfynwyd: derbyn yr Argymhelliad.

Gwahoddodd y Prif Weithredwr i'r aelodau o'r cyhoedd oedd yn bresennol i ofyn unrhyw gwestiwn a oedd ganddynt.

- Atebodd un aelod gan ddweud ei bod ar ddeall y byddai trafodaeth gyhoeddus o fater gwerthu Plas Tan y Bwlch yn ystod y cyfarfod hwn. Esboniodd y Prif Weithredwr y byddai'n anarferol trafod materion cyfrinachol yn ymwneud â thrydydd parti mewn trafodaeth agored.
- Gofynnodd aelod o'r cyhoedd a fyddai'n bosib trefnu cyfarfod cyhoeddus i drafod mater y Plas yn agored. Atebodd y Prif Weithredwr y byddai'n bosib trefnu cyfarfod o'r fath, ond nid cyfarfod o'r Awdurdod byddai.
- Gofynnodd aelod arall o'r cyhoedd a fyddai'r Awdurdod yn ymgysylltu gyda'r Gymuned cyn mynd ymlaen â'r penderfyniad. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai.
- Mynegodd aelod arall o'r cyhoedd ei phryder na fyddai'r cyhoedd yn cael y cyfle i ddweud eu barn. Sicrhaodd y Cadeirydd eto y byddai cyfle.
- Dywedodd aelod arall o'r cyhoedd ei bod, fel un o drigolion chalets y Plas, yn pryderu am ddiffyg cwrteisi cyffredin yn ymwneud ag asedau cyhoeddus. Atebodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod yn nodi ei sylwadau.

9. **Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC)**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn manylu ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod gan roi trosolwg a oedd yn amlinellu'r prif faterion ariannol a fyddai'n effeithio ar yr Awdurdod dros y blynyddoedd nesaf.

- Mewn ymateb i'r adroddiad diolchodd un Aelod i'r Prif Swyddog am ei waith, a hynny mewn sefyllfa anodd. Nododd fod y cyllid ar yr un lefel ag y bu yn 2006. Pwysleisiodd bwysigrwydd yr arian wrth gefn a'r defnydd a ddylid ei wneud o'r

gronfa honno at bwrpasau strategol y Parc. Nododd hefyd y rheidrwydd o edrych at ffyrdd newydd o godi arian ac awgrymodd y dylid ystyried cyd-weithio'n fwy gyda'r sector breifat tra ar yr un pryd yn sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn iawn. Awgrymodd hefyd y dylid gweithio mewn partneriaethau gyda chyrrff cyhoeddus eraill, megis Cyfoeth Naturiol Cymru.

Atebodd y Prif Weithredwr trwy dynnu sylw'r Aelodau at Dabl a roddwyd yn adroddiad y Prif Swyddog Cyllid (ar dudalen 80 yn y Rhaglen) a oedd yn dangos pe na fyddai'r Awdurdod yn gwneud dim y byddai'n sefyllfa argyfyngus arno erbyn 2027/28. Yr oedd gan yr Awdurdod felly ffenestr fach i ymateb i'r her yr oedd yn ei wynebu.

- Nododd Aelod arall fod y Tabl ar dudalen 80 yn dangos fod yr arian wrth gefn yn "prynu amser" yn unig, a bod rhaid defnyddio'r arian yn ddoeth i wynebu'r prif heriau, sef heriau hinsawdd a bioamrywiaeth, a heriau twristiaeth. Ategodd ei fod wedi codi mater o eirio yn yr adroddiad yng nghyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar y 4^{ydd} o Fedi a mynegodd ei ddymuniad fod ei sylwadau yn y cyfarfod hwnnw yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod hwn. Yn benodol, yr oedd wedi tynnu sylw at ddwy eitem yn yr adroddiad ac awgrymodd y dylid geirio'r brawddegau mewn ffordd a oedd yn adlewyrchu'r iaith statudol yn gywirach:
 - Eitem 3.1 (tud. 73) – yn lle, "Protect and enhance the natural beauty, wildlife and cultural heritage of the area" y dylid defnyddio, "Protect and *foster*..."
 - Eitem 5.4 (tud. 81) – yn lle, "Ensure that the Authority achieves its statutory implications." y dylid defnyddio, "Ensure that the Authority achieves its statutory *purposes*."
- Soniodd Aelod am ei siom fod arian a godwyd gan y Meysydd Parcio wedi ei ddefnyddio tuag at gynnal Yr Ysgwrn, a dywedodd bod angen creu Cynllun Busnes i'r Ysgwrn. Dywedodd hefyd fod yn rhaid defnyddio mwy o'r adnoddau naturiol sydd ar gael o gwmpas Llyn Tegid. Rhaid rhedeg yn fwy fel busnes.
- Gofynnodd Aelod arall ddau gwestiwn pellach ar y Tabl ar dudalen 80:
 - Ym mha ffordd yr oedd gwerthiant Plas Tan y Bwlch wedi ei adlewyrchu yn ffigwr 24/25 pan nad oedd yn sicr o gwbl y câi'r Plas ei werthu cyn hynny, ac felly y byddai'n parhau'n gost i'r Awdurdod?
 - Gan fod ffigyrau diwedd 24/25 yn eithaf iach, a ystyriwyd gohirio gwerthiant Plas Tan y Bwlch yng ngoleuni'r trafodaethau ynglŷn â'r Plas yn dod yn ased cymunedol.Atebodd y Prif Swyddog Cyllid gan ddweud eu bod wedi tynnu costau rhedeg y Plas o'r Gyllideb Barhaol a'i ariannu o'r cronfeydd. Pe bai'r costau rhedeg yn parhau y tu hwnt i Fawrth 25, fe fydd yn rhaid ariannu'r costau hynny o'r cronfeydd wrth gefn. Ategodd y Prif Weithredwr y byddai ail gwestiwn yr Aelod yn un o'r pethau a fyddai'n cael ei drafod yn y drafodaeth ar y Plas yn ddiweddarach yn y cyfarfod.
- Cytunodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir fod angen Cynllun Busnes ar Yr Ysgwrn a bod cynlluniau yn bodoli i gael un. Y bwriad oedd cael cynllun 5 mlynedd. Dywedodd y byddai Bwrdd Yr Ysgwrn yn trafod hyn yn eu cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd. Yr oedd yn amheus ganddo a ddeuai'r Ysgwrn i bwynt lle y byddai'n gwneud elw, ond cadw o fewn cyllideb fyddai'r nod. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod arall cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir y byddai'r Cynllun Busnes yn dod o flaen yr Awdurdod llawn i'w gadarnhau.
- Nododd un Aelod fod y Parc yn derbyn arian gan Lywodraeth Cymru ar ôl Nadolig

bob hyn a hyn. Sut oedd hyn wedi ei ystyried yn y Tabl ar dudalen 80? Atebodd y Prif Swyddog Cyllid na ddylid cymryd yn ganiataol y deuai'r arian hwnnw. Atebodd y Prif Weithredwr fod y cyn Prif Weithredwr wedi adrodd fod y modd yr oedd Trysorlys Gwledydd Prydain yn gweithredu wedi newid a bod hyn wedi gwneud hi'n anoddach i Lywodraeth Cymru weithio yn ôl yr un patrwm ag yr oeddent wedi gwneud yn y blynyddoedd a fu. Yr oedd hyn yn meddwl fod yna ansicrwydd mawr ynglŷn â'r arian yma.

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn nodi ac yn ymateb i'r materion oedd wedi eu nodi yn y CATC, a'i fod yn mabwysiadu'r CATC fel Dogfen Weithiol.

Penderfynwyd: derbyn yr Argymhelliad.

10. **Cyfrifon Drafft 2022/23**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad yn cyflwyno set gyflawn o ddatganiadau cyfrifon, yn unol â gofynion statudol. Diolchodd i Sian Owen, Pennaeth Cyllid, a'i thîm am baratoi'r cyfrifon.

Esboniodd mai ffigyrau 22/23 oedd dan sylw am fod oedi wedi bod ynglŷn â derbyn y cyfrifon blaenorol oherwydd prisio asedau, a bod hynny wedi effeithio ar y gallu i baratoi'r ffigyrau presennol.

Nododd fod yr Awdurdod wedi trafod y cyfrifon presennol yng Nghyfarfod Y Pwyllgor Perfformiad ym mis Gorffennaf 2023, bod nifer o benderfyniadau wedi eu gwneud y pryd hwnnw, a bod y penderfyniadau hynny wedi eu bwydo i'r adroddiad presennol.

Dywedodd fod yr Archwiliwr allanol eisoes wedi derbyn yr adroddiadau yma a doedd dim disgwyl i'r archwiliad gymryd gymaint o amser ag y gwnaeth y llynedd.

Diolch y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Cyllid a'i staff am eu holl waith.

Gofynnodd un Aelod am gadarnhad mai'r Parc oedd biau Craig yr Aderyn, fel nodwyd o dan Asedau Treftadaeth yr adroddiad (tud. 127).

Cadarnhaodd y Pennaeth Eiddo fod Craig yr Aderyn yn eiddo i'r Parc ers degawdau.

Argymhellwyd: – nodi cynnwys y Datganiad o Gyfrifon 2022/23

Penderfynwyd: derbyn yr Argymhelliad.

11. **Diweddariad o'r Gyllideb 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn crynhoi'r cyllidebau referniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer 2024/255 gyda newidiadau a oedd yn adlewyrchu'r cyfnod o ddechrau'r flwyddyn ariannol hyd at yr 31^{ain} o Orffennaf 2024.

Atebodd y Prif Weithredwr fod incwm ffioedd Meysydd Parcio yn llai hyd at Fis Gorffennaf eleni na llynedd oherwydd y tywydd gwael a gafwyd drwy'r haf. Yr oedd, fodd bynnag, yn disgwyl y byddai'r targed yn cael ei gyrraedd o hyd.

Diolchodd Aelod i'r Swyddogion am baratoi'r adroddiadau mewn ffurf mor ddarllenadwy.

Argymhellwyd: – derbyn yr adroddiad a nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf 2024/25

Penderfynwyd: derbyn yr Argymhelliad.

12. **Manffesto Ieuencid**

Cyflwynodd y Pennaeth Wardeinio a Mynediad y Manffesto Ieuencid.

Eglurodd mai dyma'r fersiwn derfynol o'r Maniffesto. Cyflwynwyd fersiwn ddrafft i'r Gweithgor Aelodau ar 22^{ain} o Fai 2024; roedd y fersiwn honno wedi cael adborth da iawn, ac roedd yr adborth hwnnw wedi ei gynnwys yn y fersiwn bresennol.

Diolchodd Aelodau i'r Pennaeth Wardeinio a Mynediad am y Maniffesto leuenctid. Nodwyd mai'r ieuenctid oedd dyfodol y Parc. Nodwyd hefyd ei bod yn dda bod y datblygiad hwn wedi dod o Europarc a bod y Parc yn gwneud rhywbeth sy'n arddangos ein bod yn rhan o deulu Parciau Cenedlaethol ar draws Ewrop.

Argymhellwyd – cymeradwyo a mabwysiadu'r maniffesto a'r gwaith sy'n cael ei amlygu ynddo, a chynnig y dylid adolygu'r maniffesto a'r gwaith pob dwy flynedd.

Penderfynwyd: derbyn yr Argymhelliad.

13. **Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn 2023/24**

Yn absenoldeb y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir.

Nododd fod dau brosiect llwyddiannus wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn, sef:

- Geiriau Diflanedig, a
- Prosiect treftadaeth gymunedol Fama

Yn ogystal â'r rhain cynhaliwyd dros 20 o weithgareddau pellach gan ddenu dros 500 o fynychwyr yn ystod y flwyddyn.

Er gwaethaf yr heriau ariannol, llwyddwyd i gwblhau'r flwyddyn o fewn y gyllideb.

Tynnodd un Aelod sylw at y bwriad i sefydlu ymddiriedolaeth ddatblygu ar gyfer yr Ysgwrn a gofyn beth oedd prif amcan y bwriad hwn.

Atebodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir mai'r bwriad oedd medru denu mwy o arian grant nag y byddai'n gallu fel Awdurdod.

Trafodwyd a oedd angen rhagor o hysbysebu'r Ysgwrn, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasau ac yn ysgolion Conwy, a dylai'r Ysgwrn gael ei safle Weplyfr ei hun yn hytrach nag o dan yr Awdurdod yn unig.

Atebodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir fod yna hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol a bod ysgolion Conwy yn mynychu'r Ysgwrn, ond i fod yn nodi'r sylw ac y byddai'n mynd â'r adborth yn ôl.

Argymhellwyd: – derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

Penderfynwyd: derbyn yr Argymhelliad.

14. **Cynhadledd Europarc 2024**

Cyflwynwyd gwybodaeth ar y Gynhadledd Europarc gan y Prif Weithredwr dros dro. Esboniodd ei fod yn E-fforwm y tro yma, a'i fod yn gwrthdaro gyda Seminar Aelodau Cymru 2024.

Gwirfoddolodd Mr Tim Jones fynd i'r E-fforwm gan nad oedd yn medru mynychu'r Seminar ym Mhenfro.

Awgrymodd ymhellach y byddai'n dda petai Swyddog o'r Parc yn mynychu hefyd.

Argymhellwyd: – enwebu Mr Tim Jones i fynychu Cynhadledd Europarc 2024 ar ran y Parc, ac i benodi aelod or Staff i fynd hefyd.

Penderfynwyd: derbyn yr Argymhelliad.

15. **Seminar Aelodau Cymru 2024**

Cyflwynwyd gwybodaeth ar Seminar Aelodau Cymru gan y Prif Weithredwr dros dro ac anogodd pob Aelod i fynychu. Gofynnodd i'r Aelodau a oedd am fynychu'r Seminar i ddangos hynny fel bod y Swyddog Gwasanaethau Democratiadd yn

gwneud nodyn o'r rhif ac y byddai cyfle i roi rhagor o wybodaeth i'r Swyddog yn ddiweddarach.

Nodwyd – presenoldeb yr Aelodau gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

16. **Adroddiadau y Gweithgor Aelodau**

Cyflwynwyd adroddiadau'r Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 22^{ain} o Fai 2024 ac ar 26^{ain} o Fehefin 2024.

Penderfynwyd: nodi'r adroddiadau.

17. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**

Nid oedd yr Aelodau wedi mynychu cyfarfodydd allanol fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

18. **Trafodaethau ar Ddyfodol Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro argymhelliad i ofyn i'r Awdurdod gymeradwyo eithrio'r adroddiad, "Trafodaeth ar Ddyfodol Plas Tan y Bwlch" o dan Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Esboniodd mai'r eithriadau perthnasol i'r adroddiad oedd ei fod yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn:

- Berthnasol i unigolyn penodol
- Debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn
- Ymwneud â materion ariannol neu fusnes rhywun penodol

Nododd hefyd fod yna ffactorau o blaid datgelu, sef bod yn agored a thryloyw.

Cynigiodd un Aelod dderbyn yr argymhelliad ond bod yr Awdurdod yn trefnu cyfarfod cyhoeddus i drafod gwerthiant y Plas a'r tiroedd.

Cynigiodd y Cynghorydd Elfed Powell Roberts y byddai'n barod i bontio gyda'r gymuned leol ac i gadeirio cyfarfod cyhoeddus o'r fath.

Nododd un Aelod fod y wybodaeth a'r trafodaethau am ddyfodol Plas Tan y Bwlch wedi eu cyhoeddi ers misoedd a bod yr awgrym fod y penderfyniad yn un o syndod annisgwyl yn gamarweiniol.

Dywedodd Aelod arall a oedd wedi bod yn Gadeirydd ar Fwrdd Plas Tan y Bwlch y gallai'r Awdurdod wedi gwneud yn well nag y gwnaeth o ran cyfathrebu yn y mater yma.

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn eithrio'r adroddiad, "Trafodaeth ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch", a bod cyfarfod cyhoeddus yn cael ei drefnu i drafod y mater, y Cynghorydd Elfed Powell Roberts i bontio gyda'r gymuned leol a chadeirio cyfarfod o'r fath.

Nodwyd: bod yr Argymhelliad wedi newid.

Penderfynwyd: derbyn yr Argymhelliad.

RHAN 2

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Edgar Wyn Owen (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Tim Jones, Delyth Lloyd;

Swyddogion

G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Edward Jones, Eifion Jones.

19. TRAFODAETHAU AR DDYFODOL PLAS TAN Y BWLCH

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro adroddiad ar Ddiweddariad Trafodaethau am Ddyfodol Eiddo Plas Tan y Bwlch.

Nododd fod y sefyllfa yn newid o ddydd i ddydd os nad o awr i awr.

Adroddodd:

- mai un cynnig pendant oedd wedi ei dderbyn.
- fod ymholiadau pellach wedi eu derbyn am y safle i gyd ond dim cynnig wedi ei wneud.
- fod rhywfaint o ddiddordeb wedi ei ddangos yn y coedlannau a Llyn Mair, ond nid yn yr adeilad. Unwaith eto, dim cynnig pendant wedi ei wneud.
- ei fod wedi gofyn i'r Pennaeth Eiddo edrych at ba mor ymarferol fyddai rannu'r coedlannau o'r Plas, a'r effaith y câi hynny ar y rheiny oedd wedi dangos diddordeb hyd yma.
- ei fod wedi gofyn i Gyngor Gwynedd ynglŷn â gwneud y llwybrau o gwmpas Llyn Mair yn llwybrau cyhoeddus. Cafwyd yr ateb y byddai'r broses yn cymryd o leiaf 6 mis ac, o bosibl, llawer hirach. Opsiwn arall oedd dynodi'r ardal yn Ardal Tir Mynediad Agored (*Open Access*) fel roedd yr Awdurdod wedi ei wneud gydag ardaloedd eraill o'i eiddo.
- ei fod wedi bod mewn cysylltiad a'r cwmni cymunedol a'u bod yn parhau i gomisiynu adroddiad.
- ei fod wedi bod yn derbyn e-byst cyson gan Lywodraeth Cymru'n ddiweddar yn gofyn am ddiweddariad, ac yn pwysleisio bod yn rhaid ystyried dyfodol Plas Tan y Bwlch mewn unrhyw benderfyniad. Dywedodd ei fod wedi ateb gan ddweud dyna'n union y bwriad.
- fod proffil y mater wedi codi'n sylweddol yn ddiweddar er bod y stori wedi bod yn y wasg ers mis Chwefror eleni. Dywedodd ei fod yn syniad da ymgysylltu â'r cyhoedd yn lleol a bod awgrym wedi ei wneud bod yr Awdurdod yn paratoi "Sesiwn Galw-Mewn" drwy'r dydd i adael i'r cyhoedd drafod y mater gyda Swyddogion y Parc yn y gobaith y byddai hwnna'n creu gwell adborth gan y cyhoedd.
- mai un o'r prif faterion oedd y pryder y byddai'r cyhoedd yn colli mynediad i'r coedlannau ac i Llyn Mair (yn fwy felly nag i'r Plas ei hun).
- ei fod wedi derbyn cysylltiad gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.
- ei fod, oherwydd hyn oll, ac am fod nifer o bobl wedi dangos diddordeb yn yr eiddo a bod angen gwyntyllu'r cynigion, yn awgrymu na fedrai'r Awdurdod dderbyn y cynnig heddiw, ac mai gwrthod y cynnig neu ohirio'r penderfyniad oedd yr unig opsiynau.

Gwahoddodd y Prif Weithredwr i'r Pennaeth Eiddo adrodd ar y datblygiadau diweddaraf gyda'r Asiant Werthu, *Carter Jonas*.

Adroddodd y Pennaeth Eiddo:

- ei fod wedi cael nifer o sgysiau gyda'r Asiant, *Carter Jonas*
- ynglŷn â'r un cynnig oedd ar y bwrdd, fod y Cynigydd yn gwthio i gael penderfyniad buan er mwyn gallu gwneud penderfyniadau busnes.
- ei fod wedi codi'r mater o rannu'r eiddo (e.e. gwerthu'r coedlannau a Llyn Mair ar wahân i'r adeilad) gyda'r Asiant ac mai barn yr Asiant oedd na fyddai hwnna o ddiddordeb ac y dylid edrych ar y safle yn ei gyfanrwydd ac edrych ar y farchnad lles, hamddena, natur a.y.y.b. Nid oedd yr Asiant yn gweld problem i ffurfioli'r caniatad a mynediad i'r cyhoedd o amgylch Llyn Mair. Yr oeddynt, fodd bynnag, yn gweld hi'n anodd tynnu terfyn yn uwch na ffordd y fynedfa gan y byddai'r perchennog yn pryderu am gyflwr y coed uwch y ffordd yn disgyn.
- fod llawer iawn o'r ymholiadau a gaed wedi bod yn rhai "breuddwydiol"; bod y pris yn ddeniadol, ond bod holi ynglŷn â'u profiad a'u gwybodaeth o adeiladau rhestredig a'r costau oedd ynghlwm â'r adeilad wedi chwyntu 95% o'r ymholwyr.
- ei fod o'r farn mai tri pharti potensial oedd – ynghyd â'r cwmni cymunedol – a gyda nhw y byddai unrhyw drafodaethau pellach. Dywedodd hefyd fod yr Asiant wedi awgrymu, os mai penderfyniad yr Awdurdod oedd gohirio'r penderfyniad er mwyn cael rhagor o amser i drafod ymhellach gyda'r partiön a'r cwmni cymunedol, y dylid tynnu'r eiddo oddi ar y farchnad agored ar hyn o bryd.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod y pris efallai'n edrych yn isel, ond ei fod yn adlewyrchu'r ffaith fod angen llawer o fuddsoddiad, a bod y diddordeb a gaed a'r ffaith mai dim ond un cynnig y cafwyd hyd yma yn awgrymu fod lefel y pris yn eithaf cywir.

Yn dilyn trafodaeth llawn cafwyd yr argymhelliad canlynol.

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn derbyn y cynnig uchod: bod yr Awdurdod yn gohirio'r penderfyniad ar y cynnig hyd nes cyfarfod yr Awdurdod ym mis Tachwedd er mwyn galluogi trafodaethau i barhau gyda'r partiön eraill oedd wedi datgan diddordeb hyd yma a gyda'r cwmni cymunedol, bod yn rhaid diogelu mynediad i Llyn Mair a'r coedlannau o dan deddfwriaeth *Countryside and Rights of Way Act 2000 (CROW)*, a bod yr eiddo yn aros ar y farchnad hyd hynny.

Penderfynwyd: derbyn yr Argymhelliad.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau am drafod y materion anodd mewn ffordd aeddfed.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.15



COFNODION
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
CYFARFOD ARBENNIG
DYDD MERCHER 2^{il} o HYDREF 2024
Plas Tan y Bwlch

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Edgar Wyn Owen (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Tim Jones, Naomi Luhde-Thompson;

Swyddogion

G. Iwan Jones, Nia Murray, Eifion Jones;

Hefyd yn bresennol

Rhian Jardine, *Cyfoeth Naturiol Cymru*.

Cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol na fyddai'r cyfarfod yn cael ei recordio na'i ddarlledu ar y we oherwydd natur gyfrinachol y cyfarfod.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

- Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Delyth Lloyd.
- Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- Croesawodd yn arbennig Rhian Jardine, *Cyfoeth Naturiol Cymru*, a oedd yno fel arsyllwr di-bleidlais.

2. Datganiad Diddordeb

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau na swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. Penodi Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) APCE – Pecyn Rhestr Fer

Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Eithrio rhag datgelu dogfennau.

Esboniodd y Prif Weithredwr dros dro mai'r eithriadau perthnasol i'r adroddiad oedd ei fod yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn:

- Berthnasol i unigolyn penodol
- Debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn
- Ymwneud â materion ariannol neu fusnes rhywun penodol

Nododd nad oedd ffactorau o blaid datgelu.

Penderfynwyd: – bod yr Awdurdod yn eithrio'r adroddiad, "Penodi Prif Weithredwr APCE – Pecyn Rhestr Fer".

Gadawodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yr ystafell.

RHAN 2

4. Penodi Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) APCE

- Cafodd tri ymgeisydd eu cyfweld.
- Cafwyd trafodaeth rhwng yr Aelodau.

Dychwelodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd i'r ystafell.

- Cafwyd pleidlais gudd ar y tri ymgeisydd.
- Cafwyd bod Jonathan Cawley wedi sicrhau digon o bleidleisiau ar ôl un rownd, a chyhoeddwyd ei fod wedi ei benodi gan yr Aelodau i fod yn Brif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (ar yr amod y byddai'n derbyn y swydd).

Gadawodd y Prif Weithredwr dros dro yr ystafell.

- Cafwyd cadarnhad mewn galwad ffôn fod Jonathan Cawley yn derbyn y swydd.
- Cynigiodd ef ei fod yn dod yn Brif Weithredwr yn swyddogol mewn tua mis (yr union ddyddiad i'w gytuno yn dilyn trafodaethau mewnol); byddai yn y cyfamser yn ystyried strwythur yr Awdurdod ac yn cyflwyno papur i'r Awdurdod yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ar 13eg o Dachwedd yn datgan ei gynlluniau ynglŷn â'r ffordd ymlaen.
- Cynigiodd y Pennaeth Adnoddau Dynol y byddai'n hysbysu'r staff am y penodiad y prynhawn hwnnw, a rhoi datganiad i'r wasg y bore dilynol. Dywedodd y byddai'r Prif Weithredwr newydd yn cael ei gyfweld gan BBC Cymru am 17:45 y noson honno.

Penderfynwyd: – bod yr Awdurdod yn derbyn yr amserlen a gynigiwyd.

Dychwelodd y Prif Weithredwr dros dro i'r ystafell

- Cytunwyd i anfon at yr ymgeiswyr anfuddugol i'w llongyfarch ar safon y cyfweiliadau, cynnig rhai rhesymau pam na fuont yn fuddugol, ac i ddiolch iddynt am eu diddordeb yn yr Awdurdod.
- Diolchwyd i Iwan Jones am ei waith fel Prif Weithredwr dros dro.
- Hwn fyddai'r achlysur olaf i'r Awdurdod gynnal cyfarfod – a chael cinio – ym Mhlas Tan y Bwlch, a diolchwyd i holl staff y gegin am eu gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd.
- Llongyfarchwyd y Cynghorydd Dilwyn Owain Roberts ar ei benodiad i Gabinet Cyngor Bwrdeisdref Sirol Conwy. Dywedodd yntau y byddai hyn yn golygu ei fod yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod o'r diwrnod canlynol. Diolchodd i bawb a dweud ei fod wedi mwynhau ei amser fel Aelod o'r Awdurdod.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.30



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 08.02.2023

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
16. Telerau ac Amodau Gwasanaeth Uwch Dîm Rheoli APCE: Cyfarwyddwyr	- bod gan y Panel, ynghyd â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Adran 151 newydd, y dasg a'r awdurdod i fynd i'r afael â materion posibl yn deillio o drosiant personél yn yr Uwch Dîm Rheoli.	Angen cynnal cyfarfod i roi ystyriaeth i'r materion, dyddiad eto i'w gytuno.	NM	Wedi ei nodi ac yn monitro'r sefyllfa.	NA

EITEM RHIF 8

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	13 Tachwedd 2024
TEITL	PROFFIL RISG YR AWDURDOD
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Rhoi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf parthed Proffil Risg yr Awdurdod ac i baratoi Crynodeb Blynyddol

CEFNDIR

- 1.1 Mae gan yr Awdurdod Broffil Risg ac ynddo mae'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu'n dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel.
- 1.2 Mae'n ofynnol bod y Proffil Risg yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol llawn o leiaf unwaith y flwyddyn i adolygu newidiadau i'r Proffil dros y 12 mis diwethaf ac i geisio cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw risgiau sydd angen eu tynnu oddi ar y Gofrestr yn barhaol.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb blynyddol yn ogystal â diweddariad mewn perthynas â'r Proffil Risg dywededig a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 10fed o Orffennaf 2024.
- 1.4 Caiff y risgiau eu pennu'n bennaf drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Tîm Rheoli. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli yn chwarterol ar y cyd gyda'r swyddogion perthnasol. Mae'r risgiau sydd wedi'u pennu yn y Gofrestr Risg yn cael eu neilltuo i'r swyddogion cyfrifol, a gosodir dyddiadau targed ar gyfer cymryd camau lliniaru.
- 1.5 Ar hyn o bryd, mae 19 risg wedi eu hadnabod ar y Proffil. O'r rhain mae 2 wedi cael eu nodi fel risgiau Uchel, mae 16 wedi cael eu nodi fel risgiau canolig ac 1 wedi cael ei nodi yn risg Isel.

- 1.6 Yn ystod y 12 mis diwethaf, adnabuwyd 3 risg newydd i'w gynnwys ar Gofrestr Risg yr Awdurdod. Y risg gyntaf yw Gwydnwch y Tîm Rheoli (risg 17). Cafodd y risg hon ei chynnwys ar y Gofrestr Risg ym mis Gorffennaf 2024 ar gyfer y cyfnod pontio yn dilyn ymddeoliad y Prif Weithredwr.
- 1.7 Y Cynnig i Gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4: Risg o Adolygiad Barnwrol (risg 18) a'r Cynnig i Gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4: Capasiti annigonol i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn llwyth gwaith (risg 19) yw'r ddwy risg arall sydd newydd eu hychwanegu i'r Gofrestr Risg.
- 1.8 Yn dilyn adolygiad o'r Gofrestr Risg gan Aelodau ym mis Mawrth 2024, cyfunwyd y 2 risg ar wahân blaenorol ar gyfer Plas Tan y Bwlch yn un risg gyfunol (risg 2), i adlewyrchu'r well y sefyllfa bresennol ac i ymdrin â'r holl risgiau a nodwyd o dan un pennawd.
- 1.9 Mae'r risg o ddiffyg cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018 (GDPR) (risg 8) bellach wedi cynyddu yn dilyn rhai mân achosion o ryddhau data gan staff yn ystod y flwyddyn. Er bod y sgôr risg wedi cynyddu, mae'r risg yn parhau i fod o fewn y trothwy 'canolig' ar hyn o bryd.
- 1.10 Ni thynnwyd unrhyw risgiau oddi ar Gofrestr Risg yr Awdurdod yn ystod y 12 mis diwethaf.
- 1.11 Dyma grynodedb o'r risgiau:

Rhif y Risg	Risg Uchel	Newid
1	Diffyg arian cyllido digonol.	Dim
2	Plas Tan y Bwlch – pwysau ariannol tymor byr ar yr Awdurdod a sicrhau ei ddyfodol tymor hir.	Dim

Rhif y Risg	Risg Canolig	Newid
4	Risg i enw da parthed Rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn	Dim
5	Risg (cyhoedduswydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri.	Dim
6	Methu a chyflawni gofynion y ddeddf "Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol".	Dim
7	Risgiau i'r prosiect CTL Partneriaeth Tirwedd ar gyfer y Carneddau trwy fethu a sicrhau cyllid "heb ei gadarnhau" (un ai cyfraniadau cyfalaf neu "heb fod yn arian") yng nghyfnod oes y prosiect.	Dim
8	Methu cydymffurfio gyda Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018.	Cynyddu

9	Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE gan gynnwys diffyg cydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys sy'n arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / punt.	Dim
10	Risg i enw da'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw yn anfoddhaol.	Dim
11	Yr Awdurdod yn rheoli prosiectau yn wael ac aneffeithiol.	Dim
12	Cadernid staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol.	Dim
13	Yr Ysgwrn methu cynhyrchu incwm digonol.	Dim
14	Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Croeso).	Dim
15	Cynhyrchu Incwm (Cynllunio).	Dim
16	Risg o ymosodiad Seibr	Dim
17	Gwydnwch y Tîm Rheoli	Dim
18	Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4: Risg o adolygiad barnwrol.	Newydd
19	Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4: Capasiti annigonol i fynd i'r afael â'r cynnydd yn y llwyth Gwaith	Newydd

Rhif y Risg	Risg Isel	Newid
3	Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio).	Dim

GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

Dim yn codi o'r Adroddiad hwn.

ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

PAPURAU CEFNDIR

Cofrestr Risg: Diweddariad Tachwedd 2024.

COFRESTR RISG AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Tachwedd 2024

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Gweddill Risg			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog	
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg	Canlyniad				
1	Diffyg arian cyllido craidd digonol.	Torri Gwasanaethau.	5	5	<p>25</p> <p>Coch</p> 	<p>Cafodd y Gyllideb ar gyfer 2024/25 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror 2024, ac fe'i sefydlwyd ar sail dim newid i Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25. Roedd hyn yn parhau'r cynnydd sero yn lefel cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Grant y Parc Cenedlaethol, er bod yr Awdurdod yn profi lefelau chwyddiant na welwyd ers y 1980au.</p> <p>Ar adeg pennu'r gyllideb, rhagwelir y bydd cyllideb 2024/25 yn cynnwys cyfraniad net o £1,061,760 o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, sy'n cynnwys £731,330 o gyllid referniw a £330,430 o gyfalaf. Mae hon yn lefel ddigynsail o ddefnydd cronfeydd wrth gefn, ac er bod rhywfaint o hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r defnydd o grant a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw'r defnydd o gronfeydd eraill yn gynaliadwy yn y tymor hir.</p> <p>Mewn blynyddoedd blaenorol, mae APCE wedi gallu cadw hyblygrwydd gyda'i gronfeydd wrth gefn ac mae wedi cadw lefel ddoeth o arian i allu cydbwysu'r gyllideb heb weithredu toriadau brys. Fodd bynnag, ystyriwyd arbedion ar gyfer 2024/25 a bydd yn rhaid i hyn barhau yn y blynyddoedd i ddod, gydag effaith niweidiol ar wasanaethau, oni bai bod y Llywodraeth yn cynyddu'r grant.</p> <p>Yn dilyn adroddiad gan Archwilio Cymru, mae nifer o argymhellion wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i nodi opsiynau ar gyfer codi incwm - ac egluro'r risgiau cysylltiedig - ond mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio nes bod canllawiau wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Bydd Cyllideb Canghellor y Trysorlys ar yr 30ain o Hydref 2024 ac yna Cyllideb Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr yn rhoi arwydd i ni o sefyllfa ariannol 2025/26, cyn gosod y gyllideb yr Awdurdod ym mis Chwefror.</p>	4	4	<p>16</p> <p>Coch</p> 		A	Adolygwyd 10.07.24	Prif Swyddog Cyllid

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Risg Cynhenid	Gweddill Risg			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg.	Canlyniad			
2	Plas Tan y Bwlch - pwysau ariannol tymor byr ar yr Awdurdod a sicrhau ei ddyfodol hirdymor.	Methiant i gadw o fewn cyllideb yr Awdurdod. Niwed sylweddol i enw da'r Awdurdod. Effaith andwyol ar yr economi leol. Colli bywoliaeth i staff a gyflogir ym Mhlas Tan y Bwlch. Methiant i gynnal adeilad rhestredig Gradd II*.	4	5	20 Coch 	<p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 7fed o Chwefror 2024, penderfynodd yr Awdurdod i:</p> <ol style="list-style-type: none"> Barhau gyda'r model busnes presennol, tra bo hyn yn ymarferol ac yn ddiogel, am gyfnod hyd nes y gall yr Awdurdod ystyried yn ffurfiol ei opsiynau ar gyfer rheoli Plas Tan y Bwlch yn y dyfodol. Gwahodd diddordeb gan bartneriaid posibl ar gyfer rheolaeth weithredol/datblygu Plas Tan y Bwlch. Ar yr un pryd, cynnig Plas Tan y Bwlch ar y farchnad agored i ddarpar brynwyr. Hyrwyddo Plas Tan y Bwlch fel busnes gweithredol i unrhyw ddarpar bartner/brynwr. Caniatáu cyfnod o hyd at 6 mis i geisio gwarediad partner neu farchnad agored. <p>Mae'r model busnes presennol yn parhau i weithredu ar adeg ysgrifennu hwn, ond nid yw'r Plas yn gallu agor yn llawn amser ac mae'n gorfod cau ar adegau tawelach er mwyn diogelu lles gweddill y staff. Mae hyn wedi arwain at rai canslo a cholli busnes.</p> <p>Mae Carter Jonas wedi'i benodi'n asiant ac wedi derbyn un cynnig cadarn ar gyfer yr eiddo.</p> <p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi penderfynodd yr Awdurdod ohirio penderfyniad ar y cynnig tan gyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Tachwedd er mwyn galluogi trafodaethau i barhau gyda phartion eraill sydd wedi mynegi diddordeb, er mwyn gwarchod mynediad cyhoeddus i Lyn Mair a'r coetiroedd cyfagos trwy sicrhau dynodiad gan ddefnyddio Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CROW), ac y dylai'r eiddo yn y cyfamser aros ar y farchnad.</p> <p>Mae trafodaethau yn parhau gyda chwmni cymunedol.</p>	4	5	20 Coch 		A Adolygwyd 10.07.24	Cyf. Gwas. Corfforaethol
3	Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio).	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	4	5	20 Coch 	<p>Fel yr adroddwyd i'r Awdurdod diwethaf bu'r incwm yn sylweddol is na'r un cyfnod y llynedd am gyfnod, hyn oherwydd y tywydd ac effaith cyfnod Pasg cynnar, hanner yr incwm arferol yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r bwlch wedi lleihau bellach ac erbyn hyn £30K yn llai na chyfnod Ebrill hyd ddiwedd Medi eleni ydym o'i gymharu gyda llynedd. Bydd y targed incwm yn cael ei wireddu, ond unwaith eto mae angen cynhyrchu gwagedd i dalu am ddiogelwch system rhag archebu Pen y Pass, casglu sbwriel a chostau glanhau toiledau sydd wedi cynyddu yn sylweddol yn dilyn ail dendro'r gwasanaeth.</p>	4	1	4 Gwyrdd 		A Adolygwyd 10.07.24	Pennaeth Eiddo

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
4	Risg i enw da parthed rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn.	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygredd yng ngallu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau.	5	3	15 Coch 	<p>Mae'r Ysgwrn wedi ennill enw da iawn fel amgueddfa achrededig a chanolfan ddiwylliannol gyda rhaglen o weithgareddau treftadaeth ddiwylliannol o ansawdd rhagorol. Mae'r statws achrededig yn dangos bod trefniant llywodraethu cadarn ac effeithiol mewn lle.</p> <p>Mae'r Yr Ysgwrn yn dangos patrwm llwyddiannus o ymgeisio am gyllid allanol i ariannu gweithgareddau a phrosiectau, ac mae swyddogion yn gweithio'n rhagweithiol ar geisiadau hyn, gan chwilio am gyfleoedd nawdd yn rheolaidd.</p> <p>Gosodwyd 'Yr Ysgwrn yn Ysbrydoli' newydd ym mis Medi 2024 ac mae adnoddau addysgol newydd ar gael i gyd-fynd â'r arddangosfa. Mae swyddogion yn cwblhau adnodd addysgol ffilm Hedd Wyn gyda Phrifysgol Bangor a bydd yr adnodd yn cael ei lansio yn 2025, ychydig yn hwyrach na'r disgwyl.</p>	3	3	9 Ambr 		A Adolygwyd 10.07.24	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadaeth Ddiwylliannol
5	Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri.	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygredd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid.	4	3	12 Ambr 	<p>Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa.</p> <p>Mae is-grŵp i Gynllun yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafndiaeth / parcio yn yr ardal. Yn ystod 2023 darparwyd gwasanaeth bws Sherpa gwell, a chyflwynwyd rheolaeth traffig priffyrdd (llinellau melyn dwbl) mewn lleoliadau penodol.</p> <p>Cytunwyd ar Grŵp Trafndiaeth Eryri ac mae'n cyfarfod yn aml. Mae cytundeb y Gwasanaeth Sherpa am y 5 mlynedd nesaf wedi ei gytuno. Gall Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb penodol am drafndiaeth ddarparu cyfleoedd pellach. Ni gyfarfu grŵp Trafndiaeth Eryri yn ystod 2023, ond mae'r grŵp wedi'i ailymgynnull a chyfarfod ym mis Ionawr 2024, ac mae amserlen o gyfarfodydd wedi'i sefydlu.</p>	3	3	9 Ambr 		A Adolygwyd 10.07.24	Prif Weithredwr Drosdro/ Rheolwr Partneriaethau

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
6	Methiant o ran cyflawni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.	Adroddiad archwilio beirniadol / cyhoeddusrwydd negyddol.	3	3	9 Ambr 	<p>Mae'r Awdurdod yn parhau i gydweithio ag Archwilio Cymru i weithredu gofynion y Ddeddf Llesiant.</p> <p>Mae astudiaeth Archwilio Cymru ar gyfer 2022/23 (incwm masnachol ac arallgyfeirio incwm) wedi'i chyhoeddi ac mae adroddiad atodol ar y 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi'i gynhyrchu.</p> <p>Bydd archwiliad perfformiad ar gyfer 2023/24 yn ystyried "Cydraddoldeb ac Amrywiaeth". Cyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig ym mis Hydref 2023 a rhoddwyd diweddariadau pellach fis Gorffennaf diwethaf. Yn dilyn hyn, mae Archwilio Cymru wedi cynnal cyfweiliadau â swyddogion a Grŵp Ffocws gyda rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau. Disgwylir yr adroddiad drafft erbyn diwedd y flwyddyn hon.</p> <p>Darparodd Llywodraeth Cymru hefyd hyfforddiant i aelodau'r Awdurdod yn ystod 2024.</p>	3	3	9 Ambr 		C Adolygwyd 10.07.24	Prif Weithredwr Drosdro

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
7	Risgiau i brosiect Partneriaeth Tirwedd CTL ar y Carneddau trwy fethu a chyflawni'r prosiect. Gall hyn ddigwydd trwy fethu a chadw at y pwrpasau a gymeradwywyd ar gyfer y grant Cronfa Dreftadaeth Lotri Genedlaethol, oediad gyda phenodi staff i'r cynllun ac felly oediad gyda chychwyn y cynllun, oediad gyda thalu hawliadau grant, y bartneriaeth yn chwalu, methu â derbyn yr arian "heb ei sicrhau" a ddisgwyllir trwy geisiadau grant pellach a chyfraniadau "mewn nwyddau" yn ystod oes y prosiect.	Bydd y canlyniadau'n amrywio'n helaeth yn dibynnu ar raddfa'r cyllid na ellir ei sicrhau. Gallai fod rhai elfennau o'r prosiect yn methu, hyd at risgiau sylweddol i'r prosiect cyfan, sy'n amlwg yn dod â chyhoeddusrwydd andwyol a niwed i enw da.	3	4	12 Ambr 	<p>Amserlen: Estyniad digost wedi ei gymeradwyo i'n dyddiad cwblhau ymarferol rhwng 30/09/2024 a 31/12/2025. Estyniad yn cynnwys lwfans ar gyfer gweithgaredd cau prosiect 3 mis (e.e. gweithgaredd etifeddiaeth, cais am daliad terfynol ac adroddiad gwerthuso) gan y Rheolwr Cynllun a'r Swyddog Cymorth Cynllun tan 31/03/2026.</p> <p>Pwrpasau Cymeradwy: Mae ymhell dros hanner gwariant y gyllideb wedi'i gwblhau ac mae'r gyllideb wedi'i diwygio a'i diweddarau, gyda chynllun clir bellach ar waith hyd at gwblhau'r prosiect. Mae'r Cynllun wedi cyflwyno rhaglen lwyddiannus o ddigwyddiadau, gweithgareddau, gwaith ymarferol a grantiau ers ei lansio ym mis Hydref 2020. Sefydlwyd gweithgorau mynediad, cadwraeth a threftadaeth, cyfarfod Grŵp Craidd bob chwarter, ac e-fwletin misol cyhoeddus. Mae'r wefan ar fin cael ei lansio'n allanol. Cynhelir gwerthusiad o'r cynllun drwy gyswllt rheolaidd rhwng y gwerthuswr penodedig, y tîm craidd, partneriaid a chyfranogwyr i nodi'r llwyddiannau/heriau wrth ymateb yn briodol.</p> <p>Mae swyddogion bellach yn cwblhau gwaith ar gynllunio etifeddiaeth a bydd diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Aelodau yn 2025.</p>	3	2	6 Ambr 		A Adolygwyd 10.07.24	Rheolwr Prosiect

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
8	Diffyg cydymffurfio â "Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018" (GDPR).	Diffyg rheoli data a chyhoeddi data na ddylem ei gyhoeddi.	4	3	12 Ambr 	<p><u>Hyfforddiant</u> Mae cyrsiau gorfodol newydd wedi'u hychwanegu at ELMS yn ystod y 6 mis diwethaf. Disgwylir i bawb eistedd y rhain mewn modd amserol neu bydd mynediad i'r rhwydwaith a / neu e-bost yn cael ei ddileu.</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o'r staff bellach yn cwblhau cyrsiau untro a chysiau blynyddol yn gyson heb unrhyw drafferthion, ond mae'r nifer sy'n cael eu cwblhau gan yr Aelodau yn parhau i fod yn isel. Mae'r sefyllfa'n cael ei fonitro'n barhaus.</p> <p><u>Diogelu Data</u> Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cael mwy o fân ddigwyddiadau rhyddhau data nag yn y gorffennol. Felly, mae mwy o debygolrwydd ac effaith risg cyfatebol nag yn y gorffennol, sydd wedi golygu bod y sgôr risg wedi cynyddu. Fodd bynnag, mae'r risg yn parhau i fod ar ambr.</p> <p>Mae angen i staff ac Aelodau newydd sicrhau bod y modiwlau hyfforddi yn cael eu cwblhau fel blaenoriaeth. Awgrymir bod y staff sydd wedi bod yn rhan o'r digwyddiadau bychain yn ailsefyll yr hyfforddiant neu'n cymryd rhan mewn hyfforddiant pellach er mwyn lleihau'r risg.</p>	4	3	12 Ambr 		A Adolygwyd 10.07.24	Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforaethol

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg	Canlyniad			
9	Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt.	Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn.	5	4	20 Coch 	<p>Derbyniwyd a chymeradwywyd ail adroddiad canol tymor i'r CE (a hawliad grant cysylltiedig), gan arwain at dynnu i lawr y 3ydd taliad LIFE gan y CE ym mis Rhagfyr 2022. Mae cais am estyniad prosiect 2 flynedd wedi'i gymeradwyo'n swyddogol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan roi dyddiad gorffen prosiect newydd o 31ain o Orffennaf 2027. Ni fydd hyn yn effeithio ar gost gyffredinol y prosiect.</p> <p>Mae adborth swyddogol gan y Comisiwn, gan gynnwys y Genhadaeth Fonitro diweddar (Tachwedd 2022) a'r 2il Adroddiad Canol Tymor (Hydref 2022), hyd yn hyn yn gadarnhaol, gyda dim ond mân bryderon a diwygiadau sydd angen sylw. Adroddiad Cynnydd Diweddaraf wedi'i gyflwyno ym mis Medi 2023. Dim adroddiadau pellach i'w cyflwyno tan fis Mawrth 2025.</p> <p>Pob taliad cyd-ariannwr arall yn gyfredol, gan gynnwys y cyfraniad o £2m gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian sydd dros ben yn y prosiect hyd yn hyn (tua £301k) oherwydd cyfradd gyfnewid ffafriol, a fydd angen cyfatebiaeth o 40% gan bartneriaid (tua £200k - £300k os bydd cyfanswm y cyllid yn cael ei dynnu i lawr o'r UE).</p> <p>Dim diweddariad pellach o'r cyfnod blaenorol.</p>	4	3	12 Ambr 		A Adolygwyd 10.07.24	Rheolwr Prosiect

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
10	Risg i enw da'r Awdurdod yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd yn anfodddhaol.	Bod yr Awdurdod yn dioddef niwed difrifol i'w enw da ymhlith y sefydliadau hynny sy'n bartneriaid a enwir yn y prosiect, partneriaid prosiect eraill gan gynnwys perchnogion tir preifat, contractwyr a sefydliadau eraill, a'r cyhoedd ehangach.	4	3	12 Ambr 	Mae materion staffio yn parhau i fod yn broblem enfawr i'r prosiect, gyda phrofiadau pellach o golli staff - gadawodd Cai Roberts, (APCE) ym mis Ebrill 2024, gydag Adam Thorogood (WT) i fod i adael ym mis Mehefin 2024. Hefyd, roedd absenoldebau tymor canolog i hirdymor yn ystod yr hanner olaf o 2023 / hanner cyntaf 2024 ymhlith 3 aelod o staff - Swyddog Prosiect David Jones (Hydref 2023 - Mai 2024, nawr yn dychwelyd yn raddol i'r gwaith), Swyddog Ymgysylltu Lucy Evans (absenoldebau amrywiol, y diweddraf o Ebrill 2024 hyd at y presennol) a Swyddog Prosiect Cynorthwyol Gwion ap Dafydd (Ebrill 2024 – Mai 2024). Canlyniad y problemau staffio yw llwyth gwaith cynyddol a straen ar staff presennol a lleihad mewn allbwn. Arweiniodd costau staff uwch (chwyddiant, angen cyflogi staff ychwanegol) at yr angen i symud arian o gwmpas o fewn y prosiect i dalu'r costau. Risg cynyddol o golledion staff pellach wrth i gontractau ddod i ben. Y tarfu a achoswyd gan drosiant staff (colli momentwm, peidio â gweithredu hyd eithaf ei allu am gyfnodau sylweddol), ochr yn ochr ag effeithiau pandemig Covid-19, oedd y prif yrrwr y tu ôl i ofyn am estyniad o 2 flynedd.	4	3	12 Ambr 		C Adolygwyd 10.07.24	Rheolwr Prosiect / Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir
11	Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod.	Risg o beidio â chyflawni prosiectau ac amcanion yr Awdurdod. Risg i enw da'r Awdurdod. Cyfleoedd ariannol yn cael eu colli.	3	3	9 Ambr 	Mae swyddogion yn dilyn canllawiau safonol a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli prosiectau - gan gynnwys creu "Dogfen Ysgogi Prosiect" a chael cymeradwyaeth y tîm rheoli ar gyfer y ddogfen hon. Mae hyn yn creu sail ar gyfer rheoli ac ar gyfer cyfathrebu (mewnol ac allanol) ar brosiectau yn gyson ar draws yr Awdurdod. Rhoddwyd ystyriaeth i baratoi cefnogaeth fwy canolog i brosiectau i sicrhau bod cysondeb a chydymffurfiaeth yn cael eu rheoli. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ymagwedd aml-flwyddyn at brosiectau/rhaglenni. Ym mis Mawrth 2022, ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau y protocolau ar ddatblygu a derbyn cynigion grant. Mae trafodaeth ar ddatblygu rhaglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod 2025 i 2028 yn mynd rhagddi gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru.	2	4	8 Ambr 		A Adolygwyd 10.07.24	Tim Rheoli

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfe-iriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effait h	Tebyg	Canlynia			
12	Gwytnwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i gyllidebau fflat ac effaith chwyddiant.	Effaith ar gadw staff a recriwtio a hefyd perfformiad yr Awdurdod.	3	3	9 Ambr 	<p>Mae cyfres o fesurau i ddelio gyda gwytnwch yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gwerthusiad blynyddol ar gyfer staff unigol, 2. Datblygiad cynllun llesiant staff yn y gweithle, 3. Sefydlu cronfa wrth gefn ar gyfer gwytnwch staff, 4. Cyfraddau cadw staff a salwch. <p>Ers yr adolygiad o delerau ac amodau staff bydd angen i'r Awdurdod fonitro effaith chwyddiant a chostau byw ar wytnwch staff a'u gallu i gadw a recriwtio. Cymeradwywyd adolygiad cyflog yn 2022. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn gweithredu modelau gweithio hybrid ar draws yr Awdurdod ar gyfer staff swyddfa yn bennaf.</p>	3	3	9 Ambr 		A Adolygwyd 10.07.24	Tim Rheoli
13	Yr Ysgwrn yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb.	Yr Ysgwrn yn dibynnu ar fudd- dal uwch gan yr Awdurdod a/neu yn defnyddio arian wrth gefn sydd wedi'i gynilo yn dilyn blynyddoedd blaenorol llewyrchus. Yn y pendraw, bydd hyn yn golygu nad ydi'r Ysgwrn yn gynaliadwy.	4	4	16 Coch 	<p>Mae cynnal Yr Ysgwrn o fewn y gyllideb yn her barhaus yng ngoleuni'r argyfwng costau byw sy'n amharu ar wariant ymwelwyr a chostau rhedeg cynyddol.</p> <p>Mae costau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o gostau, megis gwres, ffôn a thrydan yn sefydlog ac yn angenrheidiol ar gyfer safonau achredu.</p> <p>Mae'r Ysgwrn yn llwyddo yn rheolaidd i sicrhau cyllid ar gyfer costau gweithgaredd a dehongli. Mae swyddogion yn gweithio ar syniadau prosiect cyfalaf ar gyfer 2025/26 i uwchraddio cyfleusterau.</p>	3	3	9 Ambr 		A Adolygwyd 10.07.24	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadaeth Ddiwyllia-nnol
14	Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth).	Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb. Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu â chyrraedd nodau cynhyrchu incwm oherwydd prinder staff sy'n arwain at gau.	4	4	16 Coch 	<p>Wedi'i staffio'n llawn ar gyfer Tymor 2024/25. Fodd bynnag, mae absenoldebau oherwydd materion allanol yn peri problemau yn y tymor byr.</p> <p>Mae Gŵyl Banc cynnar y Pasg, sy'n disgyn yn rhannol yn y flwyddyn ariannol flaenorol, yn ei gwneud hi'n anodd allosod canlyniadau Chwarter 1. Fodd bynnag, cafodd y tair canolfan hanner tymor llwyddiannus, gydag Aberdyfi a Beddgelert yn arbennig gyda chanlyniadau incwm cryf ar gyfer mis Mai.</p> <p>Mae'r canlyniadau Incwm cryf a welwyd yn Ch1 wedi parhau drwy dymor yr haf. Mae incwm a gynhyrchir drwy'r 3 chanolfan i fyny 8% o'i gymharu â 2023 er bod nifer yr ymwelwyr yn gyffredinol wedi gostwng ychydig.</p>	4	2	8 Ambr 		A Adolygwyd 10.07.24	Rheolwr Canolfanau Gwybodaeth

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
15	Cynhyrchu Incwm (Cynllunio).	Y brif risg fyddai incwm annigonol ar gyfer rhedeg y gwasanaeth cynllunio yn effeithiol.	3	3	9 Ambr 	<p>Ar gyfer 2023-24 roedd cyllideb incwm ffioedd cynllunio (ffioedd cynllunio a chyngor cyn cais) yn cyd-fynd yn fras â'r gyllideb a osodwyd. Mae hyn yn codi tua 28% o gostau'r gwasanaeth Rheolaeth Datblygu.</p> <p>Rydym nawr ar ddeall bydd ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn yr Hydref ar geisio symud tuag at adennill costau llawn y gwasanaeth drwy ffioedd cynllunio. Bydd hyn yn gadarnhaol iawn os yw'n cael ei weithredu.</p>	3	3	9 Ambr 		A Adolygwyd 10.07.24	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir
16	Risg o gael ymosodiad Seibr	Colli data a mynediad i'r rhwydwaith	4	3	12 Ambr 	<p>Mae system fonitro rhwydwaith newydd yn cael ei gosod ym mis Hydref / Tachwedd 2024 a fydd yn helpu i adrodd am unrhyw weithgaredd dan amheuaeth. Yn ogystal, bydd y system WiFi yn HQ a'r Ysgwrn yn cael ei hadolygu a bydd gosodiadau mwy diogel yn cael eu cymhwysu.</p> <p>Mae risgiau seiberddiogelwch yn cael eu monitro'n gyson gyda mesurau lliniaru risg cyfatebol yn cael eu gweithredu yn ôl yr angen gan y gwasanaeth TG.</p>	3	2	6 Ambr 		A Adolygwyd 10.07.24	Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforae - thol

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
17	Gwydnwch y Tîm Rheoli	Mae recriwtio Prif Weithredwr newydd wedi adnabod risgiau i wydnwch y Tîm Rheoli. Dim digon o adnoddau i alluogi'r Tîm Rheoli i weithredu'n effeithiol, yn enwedig yn y sefyllfa lle mae newid mewn personél a/neu absenoldeb tymor hir heb ei ragweld.	4	4	16 Coch 	Mae gan y Panel Recriwtio, ynghyd â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Adran 151 newydd, y dasg a'r awdurdod i fynd i'r afael â materion posibl yn deillio o drosiant personél yn yr Uwch Tîm Rheoli. Bydd strwythur hirdymor y Tîm Rheoli yn fater i'w ystyried unwaith y bydd y Prif Weithredwr newydd yn ei swydd.	3	3	9 Ambr 		N Adolygwyd 10.07.24	Y Panel Recriwtio, Pennaeth AD, Swyddog 151
18	Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o gartrefi gwyliau ac 2il gartrefi (a drefnwyd ar gyfer Mehefin 2025): Risg o adolygiad barnwrol.	Gallai Adolygiad Barnwrol wedi'i gadarnhau cael yr effeithiau canlynol: A) Gall effeithio ar allu'r Awdurdod i ddilyn y polisi. B) Gall oedi gweithrediad y polisi. C) Gall fod goblygiadau cost, yn enwedig os yw'r hawlydd yn ceisio dyfarniad costau cyfreithiol os yw'n llwyddo yn yr her.	4	2	8 Ambr 	O ran risg yr Adolygiad Barnwrol, cymerir y camau lliniaru canlynol: 1) Cymerir cyngor cyfreithiol drwy gydol y broses a chyn cyhoeddi unrhyw ddogfen; a 2) Mae cydweithio agos gyda Chyngor Gwynedd sydd yn cymryd camau tebyg.	3	1	3 Ambr 		Newydd	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir
19	Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o gartrefi gwyliau ac 2il gartrefi (a drefnwyd ar gyfer Mehefin 2025): Capasiti annigonol i fynd i'r afael â'r cynnydd yn y llwyth gwaith - sy'n effeithio ar Bolisi Cynllunio, Rheolaeth Datblygu ac yn arbennig llwythi gwaith Cydymffurfio.	Mae'r capasiti annigonol yn achosi'r problemau canlynol: i) Gall targedau perfformiad cynllunio Llywodraeth Cymru gael eu methu; ac ii) Gall materion iechyd a lles staff godi oherwydd llwythi gwaith gormodol.	3	3	9 Ambr 	O ran y risg o fynd y tu hwnt i gapasiti, cymerir y camau canlynol: 1) Bydd yr Awdurdod yn ceisio cymorth ariannol gan Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru - gyda golwg ar sicrhau cefnogaeth swyddogion ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi arwain at unrhyw lwyddiant hyd yma; a 2) Bydd cydweithio gyda Chyngor Gwynedd ar y gwersi a ddysgwyd hefyd yn digwydd – mae swyddogion Gwynedd wedi bod yn barod iawn i roi cyngor hyd yma. Bydd hyfforddiant a chyngor yn cael eu darparu i Swyddogion Cynllunio cyn gweithredu'r cynllun ym mis Mehefin 2025, a fydd yn cynnwys sicrhau bod Canllawiau Cynllunio Atodol cadarn i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.	3	3	9 Ambr 		Newydd	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir

Sgorio'r Risg					
Tebygolrwydd	Isel lawn = 1	Isel = 2	Canolig = 3	Uchel = 4	Uchel lawn = 5
Effaith	Isel lawn = 1	Isel = 2	Canolig = 3	Uchel = 4	Uchel lawn = 5
Sgôr Cyfunol			Risg Cyffredinol		
1 – 4			Isel  Gwyrdd		
6 – 14			Canolig  Ambr		
15 – 25			Uchel  Coch		



Parciau National Cenedlaethol Parks

Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru

Dydd Llun, 03 Mehefin 2024

Ar-lein, 10:00 - 12:00

Yn bresennol:

(DC) Cyng Di Clements

Cadeirydd, Parciau Cenedlaethol
Cymru (PCC) ac APC Arfordir Penfro
(APCAP)

(RHD) Dr Rachel Heath-Davies

Dirprwy Gadeirydd (APCAP)

(TJ) Tegryn Jones

Prif Weithredwr APCAP

(AE) Canon Aled Edwards

Cadeirydd Awdurdod Parc
Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
(APCBB)

(GR) Cyng Gareth Ratcliffe

Dirprwy Gadeirydd APCBB

(CMJ) Catherine Mealing-Jones

Prif Weithredwr APCBB

(AH) Tim Jones

Cadeirydd APC Eryri

(EO) Cyng Edgar Wyn Owen

Dirprwy Gadeirydd APCE

(EW) Emyr Williams

Prif Weithredwr APCE

Hefyd yn bresennol:

(GJ) Georgia Jones

APCAP

1. Gair o groeso ac Ymddiheuriadau am absenoldeb

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, 24 Mai 2023

Ar gynnig DC, a eiliwyd gan RHD, nodwyd bod y cofnodion yn gywir.

3. Cyllideb a Chyllid Parciau Cenedlaethol Cymru

Cyflwynwyd sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd blwyddyn 2023-24 a'r gyllideb ddrafft



Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro
ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia
National Parks, working in partnership



Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg,
a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh,
and will respond to any correspondence in Welsh.
Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales

Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY

Ffôn / Tel: 01646 624800

e-bost / e-mail:

gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk



Parciau National Cenedlaethol Parks

am y flwyddyn 2024-25. Cytunodd pob Parc i gyfraniad o £5k am y flwyddyn.

CYTUNWYD ar Gyllideb PCC am y flwyddyn 2024/25.

4. Busnes PCC

a. Cynllun Busnes Drafft PCC am y cyfnod 2024-2026

Cyflwynwyd Cynllun Busnes drafft PCC am y cyfnod 2024/26. Ar gynnig RHD, a eiliwyd gan DC, **CYTUNWYD** ar Gynllun Busnes Drafft PCC am y cyfnod 2024-2026.

GWEITHREDU: Ail-edrych ar flaenoriaethau'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol mewn 12 mis, i baratoi ar gyfer etholiadau 2026.

b. Busnes y Llywodraeth yn Effeithio ar Barciau Cenedlaethol Cymru

i) Archwilio Dwfnd Bioamrywiaeth

Dywedodd EW bod Cadeirydd newydd wedi'i ethol i arwain y grŵp Tirweddau Dynodedig sy'n canolbwyntio ar fwrw ymlaen ag argymhellion yr Archwilio Dwfnd.

ii) Ardoll Ymwelwyr

Dywedodd EW mai John Cawley oedd cynrychiolydd y PC ar y Grŵp Ardoll Ymwelwyr. Dywedodd EW bod gan APC Eryri drefniant gyda Gwynedd i sefydlu fframwaith i brosesu ardoll arfaethedig.

GWEITHREDU: EW i rannu'r manylion gyda TJ am y trefniant gyda Gwynedd ynglŷn â'r ardoll arfaethedig.

c. Swyddi Strategol a Rennir

Trafodwyd effaith y swyddi ynghyd â'r anhawster a achosir gan eu strwythurau cyflog a'r diffyg strategaeth ymadael. Awgrymwyd cael prosiect peilot fel dull amgen i'r Swyddi Strategol.

GWEITHREDU: Ceisio gwybodaeth gan LIC ynghylch dyfodol y Swyddi



Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro
ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia
National Parks, working in partnership



Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg,
a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh,
and will respond to any correspondence in Welsh.
Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales

Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY

Ffôn / Tel: 01646 624800

e-bost / e-mail:

gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk



Parciau National Cenedlaethol Parks

Strategol a Rennir.

d. Tirweddau Cymru

Dywedodd EW bod y bartneriaeth yn gweithio'n dda ond bod ei dyfodol yn parhau i fod yn ansicr oherwydd prinder cyllid. Awgrymwyd bod Tirweddau Cymru yn cydlynu'r cynigion ariannu i gynhyrchu incwm ychwanegol.

e. Adroddiad Archwilio Cymru

Cafwyd trafodaeth ar yr adroddiad ar Lywodraethu Parciau Cenedlaethol Cymru, a mynegwyd siom a phryder gan bawb ynghylch canfyddiadau'r adroddiad. Amlygwyd nad oedd unrhyw Archwiliad oedd yn ymwneud â pherfformiad wedi'i wneud yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac o ganlyniad, bod APCAP ac APCE mewn trafodaethau gydag Archwilio Cymru ynghylch y ffioedd sy'n ddyledus.

f. Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol a Sefydliad y Parciau Cenedlaethol

Dywedodd CMJ bod Strategaeth newydd y Bartneriaeth yn cael ei drafftio. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â buddion cyfyngedig y Bartneriaeth i Parciau Cenedlaethol Cymru. Mewn ymateb, dywedodd CMJ bod y Bartneriaeth yn ystyried datblygu Model Busnes newydd i wella'r modd y mae cyllid yn cael ei ddsbarthu. Cytunwyd, er gwaethaf hyn, na allai cyllid a ddyfernir drwy'r Bartneriaeth gymryd lle arian craidd.

g. Sioe Frenhinol Cymru 2024

Dywedwyd bod Parciau Cenedlaethol Cymru yn un o noddwyr y Sioe Frenhinol. Awgrymodd TJ y gallai'r Parciau ystyried cynnal digwyddiad yn y sioe y flwyddyn nesaf.

GWEITHREDU: Trafod digwyddiad posibl i'w gynnal yn y Sioe Frenhinol yn y cyfarfod nesaf.

h. Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru

Dywedodd TJ mai APCAP fydd yn cynnal y Seminar nesaf i'r Aelodau ar y 6^{ed} a'r



Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro
ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia
National Parks, working in partnership



Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg,
a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh,
and will respond to any correspondence in Welsh.
Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales

Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY

Ffôn / Tel: 01646 624800

e-bost / e-mail:

gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk



Parciau National Cenedlaethol Parks

7^{fed} o Dachwedd 2024 yng Ngwesty'r Giltar, Dinbych-y-pysgod ar y thema 'Parciau Cenedlaethol i Bawb?'. Cadarnhawyd y byddai'r Gweinidog yn cael ei wahodd i agor y Seminar. Aeth TJ rhagddo i amlinellu'r amserlen.

Nodwyd.

5. O Gwmpas y Parciau

APCAP

- Roedd yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd yn dal i fynd rhagddo.
- Roedd yr Awdurdod wedi llwyddo i brynu'r tir yn Nhraeth Mawr oedd bellach yn rhan o brosiect hygrychedd.
- Roedd adolygiad o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan a'i adnewyddu wedi'i gynnal.
- Roedd yr Awdurdod wedi mynychu'r Uwchgynhadledd Twristiaeth, a gynhaliwyd gan Croeso Sir Benfro.
- Roedd yr Awdurdod wrthi yn Ymgynghori ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer Gwersylla a Charafanio i fynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y safleoedd ers covid.
- Roedd ystafell Bwyllgor yr Awdurdod yn cael ei hailddatblygu, a byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein dros gyfnod y prosiect.
- Roedd yr Aelodau wrthi yn cwblhau Hyfforddiant Llywodraeth Cymru.

APCBB

- Roedd Gweithgor wrthi yn ceisio lleoliad addas ar gyfer swyddfa i'r Awdurdod.
- Roedd gwaith wedi'i wneud i gryfhau'r prosesau archwilio.
- Roedd prinder cyllid ac adnoddau cyfyngedig yn parhau i fod yn her. Roedd yr Awdurdod yn archwilio opsiynau ar Arallgyfeirio Incwm, ond roedd yr opsiynau hynny yn gyfyngedig.
- Roedd yr Aelodau wedi cytuno i dynnu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) presennol yn ôl, ac ar hyn o bryd yn mynd drwy'r broses o ddod i gytundeb cyflawni ar gyfer y CDLI newydd.
- Roedd y Polisi Twristiaeth Gynaliadwy yn cael ei adolygu.
- Roedd rhestr fer o'r tendrau yn cael ei llunio ar ddatblygu gwefan newydd i'r



Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro
ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia
National Parks, working in partnership



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park



SNOWDONIA
NATIONAL PARK



Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg,
a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh,
and will respond to any correspondence in Welsh.
Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales

Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY

Ffôn / Tel: 01646 624800

e-bost / e-mail:

gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk



Parciau National Cenedlaethol Parks

Awdurdod.

- Roedd sawl unigolyn yn cysgodi Aelodau'r Bwrdd.
- Roedd y pynciau Pobl a Lles yn parhau i fod yn ffocws i'r Awdurdod. Fodd bynnag roedd cynnal y cydbwysedd cywir o dryloywder gyda'r staff yn her.

APCE

- Gwelwyd newid cadarnhaol yn agwedd y Wasg leol a'r cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar tuag at y mesurau a gymerwyd gan yr Awdurdod i reoli traffig yn sgîl y gwasanaeth bws Sherpa'r Wyddfa a chyfathrebu effeithiol.
- Roedd yr Awdurdod yn bwrw ymlaen â Chyfarwyddyd Erthygl 4 i gefnogi unigolion lleol o ran opsiynau tai fforddiadwy. Roedd yr adolygiad o'r CDLI wedi'i ohirio am flwyddyn oherwydd cyfyngiadau adnoddau.
- Roedd faniau gwersylla wedi achosi problemau i APCE, ac roedd yr Awdurdod yn ystyried atebion i'r problemau hyn.
- Roedd Cynllun Twristiaeth Strategol wedi'i lansio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Gwynedd.
- Roedd yr Awdurdod wedi penderfynu rhyddhau Plas Tan y Bwlch a gweithio gyda phartneriaid i flaenoriaethu'r lle at ddefnydd y gymuned. Fodd bynnag, pe na bai hynny yn llwyddo, byddai'r adeilad yn cael ei werthu.
- Dywedwyd y byddai'r adroddiad ar Gyflwr y Parc yn cael ei gyhoeddi eleni, ac y byddai adolygiad o Gynllun Rheoli'r PC yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf. Ychwanegwyd y byddai Strategaeth yr Awdurdod ar Leihau Carbon yn cael ei mabwysiadu.
- Roedd yr Awdurdod yn wynebu problemau o ran mastiau telathrebu ac yn aros am ymatebion i'r apeliadau i'r problemau hyn.
- Roedd APCE wedi buddsoddi mewn ystafell gynadledda ym mhencadlys yr Awdurdod.
- Roedd swydd wag ar yr Awdurdod am Aelod a benodir gan Lywodraeth Cymru, ac y byddai strwythur dros-dro yn cael ei fabwysiadu o Uwch Dîm Rheoli tra byddai'r Awdurdod yn recriwtio Prif Weithredwr newydd.

6. Unrhyw Fater Arall



Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia National Parks, working in partnership



Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to any correspondence in Welsh. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales

Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY

Ffôn / Tel: 01646 624800

e-bost / e-mail:

gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk



Parciau National Cenedlaethol Parks

Dywedwyd bod cyfarfod i'w gynnal cyn hir rhwng yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Ysgrifennydd y Cabinet. Awgrymwyd y pynciau canlynol fel pwyntiau i'w trafod yn ystod y cyfarfod:

- Yr Ardoll Ymwelwyr.
- Y costau o gynnig cyfarfodydd hybrid a gwe-ddarlledu.
- Sefyllfa Parciau Cenedlaethol Cymru o ran dynodi PC newydd.

Manteisiodd Cadeirydd APCAP ar y cyfle i longyfarch EW ar ei ymddeoliad, a diolchodd am ei waith caled a'i gyfraniadau dros y blynyddoedd.

7. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

Y 6^{ed} o Dachwedd 2024 yng Ngwesty'r Giltar, Dinbych-y-pysgod.



Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro
ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia
National Parks, working in partnership



Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg,
a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh,
and will respond to any correspondence in Welsh.
Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales

Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY

Ffôn / Tel: 01646 624800

e-bost / e-mail:

gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk

CYFARFOD	AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDDIAD	13 Tachwedd 2024
TEITL	AELODAETH O'R PWYLLGOR SAFONAU
ADRODDIAD GAN	Prif Weithredwr Dros Dro
DIBEN	Penodi aelodau i'r Pwyllgor Safonau a chytuno ar y broses ar gyfer penodi Aelod Annibynnol newydd ar y Pwyllgor

1. CEFNDIR:

- 1.1 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn cynnwys dwy swyddogaeth gyffredinol sef:
- Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymhlith aelodau ac aelodau cyfetholedig o'r Awdurdod
 - Cynorthwyo aelodau ac aelodau cyfetholedig yr Awdurdod i gadw at god ymddygiad yr Awdurdod.
- 1.2 Mae gan y Pwyllgor Safonau hefyd y swyddogaethau penodol canlynol:
- 1.2.1 Cynghori'r Awdurdod ar fabwysiadu codau ymddygiad yr Awdurdod neu eu diwygio
- 1.2.2 Monitro gweithrediad codau ymddygiad yr Awdurdod
- 1.2.3 Cynghori ar hyfforddi aelodau ac aelodau cyfetholedig yr Awdurdod ar faterion yn ymwneud â chodau ymddygiad yr Awdurdod
- 1.2.4 Ystyried a phenderfynu ar faterion a gyfeiriwyd ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru lle bo'n briodol.
- 1.2.5 Ystyried Cwynion yn erbyn Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig
- 1.2.6 Rhoi goddefebau i aelodau neu aelodau cyfetholedig sydd â diddordeb personol mewn unrhyw fusnes yn yr Awdurdod
- 1.2.7 Awdurdodi taliadau gan y Swyddog Monitro Iwfansau sydd a wnelo treuliau i bersonau sydd wedi cynorthwyo mewn ymchwiliad gan y Swyddog Monitro
I sefydlu'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato i'w hystyried.
- 1.3 Yn olaf, mae gan y Pwyllgor Safonau rai swyddogaethau staff hefyd megis apêl fewnol derfynol ar faterion disgyblu ac fel apêl derfynol ar gwynion neu ar amodau gwasanaeth.
- 1.4 Roedd aelodaeth y Pwyllgor Safonau tan yn ddiweddar yn cynnwys dau Aelod Awdurdod Lleol (y Cynghorydd Dilwyn Roberts a'r Cynghorydd Elfed Roberts), un Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru (Mrs Sarah Hattle) a thri Aelod Annibynnol sef Mrs Sharon Warnes (Cadeirydd), Mr Martin James Hughes (Is-gadeirydd) a Mr Mark Jones. Yn unol â'r rheoliadau sy'n llywodraethu Pwyllgorau Safonau penodwyd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o blith yr Aelodau Annibynnol.

2. SWYDD WAG – AELOD ANNIBYNNOL:

- 2.1 O dan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygiad) 2006 gall aelod annibynnol o bwyllgor safonau awdurdod perthnasol gael ei ailbenodi gan yr awdurdod am un tymor olynol pellach na fydd yn fwy na phedair blynedd. Wrth ailbenodi o dan y trefniadau newydd nid oes rheidrwydd i gydymffurfio â'r gofynion y byddai'n rhaid eu dilyn fel arfer sef hysbysebu mewn o leiaf dau bapur newydd a sefydlu panel cyfweld o bump sy'n cynnwys o leiaf un aelod lleyg o'r panel. Rôl y panel fyddai cyfweld a gwneud argymhelliad i'r Awdurdod gyda'r Awdurdod yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch pwy i'w penodi.
- 2.2 Mae tymor ein cadeirydd presennol, Mrs Sharon Warnes, bellach wedi dod i ben. Gan fod Mrs Warnes eisoes wedi gwasanaethu ail dymor fel Aelod Annibynnol dyw hi felly ddim yn gymwys i wasanaethu am dymor arall.
- 2.3 Felly, rhaid i'r Awdurdod benodi o'r newydd drwy hysbysebu'r swydd yn unol â'r rheoliadau a sefydlu panel cyfweld. Ar achlysuron blaenorol mae'r Panel wedi cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod, y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro ac Aelod Lleyg (y mae'r Swyddog Monitro yn cysylltu â nhw fel arfer).

3. SWYDDI GWAG – AELODAU'R AWDURDOD:

- 3.1 Yn ogystal, nid yw'r Cynghorydd Dilwyn Roberts a Mrs Sarah Hattle bellach yn aelodau o'r Awdurdod a gofynnir am enwebiadau yn y cyfarfod heddiw i benodi dau aelod ar y Pwyllgor Safonau, un o gefndir Awdurdod Lleol gyda'r aelod sy'n weddill yn benodiad Llywodraeth Cymru.

4. TELERAU'R SWYDD:

- 4.1 Ni fydd cyfnod swydd aelod o'r Awdurdod yn hwy na'r cyfnod nes i'r aelod hwnnw beidio â bod yn aelod o'r awdurdod.
- 4.2 Ni fydd cyfnod swydd aelod annibynnol o'r pwyllgor safonau yn llai na phedair nac yn fwy na chwe blynedd.

5. GOBLYGIADAU ADNODDAU:

Costau hysbysebu ond gellir talu costau o'r fath o'r cyllidebau presennol.

6. ARGYMHELLION:

- 6.1 **Bod yr Awdurdod yn penodi dau aelod o'r Awdurdod fel aelodau o'r Pwyllgor Safonau i barhau nes bod yr aelod hwnnw'n peidio â bod yn aelod o'r Awdurdod.**
- 6.2 **Mewn perthynas â swydd wag Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau bod yr Awdurdod yn mynd ati i hysbysebu'r swydd am gyfnod o bum mlynedd ac yn sefydlu Panel Cyfweld o bump yn unol â'r Rheoliadau i gynnwys un Aelod Lleyg i'w ddewis gan y Swyddog Monitro.**

PAPURAU CEFNDIROL:

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd)

EITEM RHIF. 11

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	13 Tachwedd 2024
TEITL	Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Trafod yr Adroddiad Blynyddol drafft a'r holiadur cysylltiedig a phenderfynu pa ymateb sydd ei angen

1 CEFNDIR

- 1.1 Yn atodedig i'r adroddiad hwn mae copi o'r adroddiad drafft a dderbyniwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
- 1.2 Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Awdurdod, mae cylch gwaith y Panel yn cynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac felly mae'n rhaid i'r Awdurdod hwn gadw at unrhyw benderfyniad a wneir gan y Panel.
- 1.3 Mae'n siŵr y bydd yr Aelodau'n nodi o'r adroddiad drafft y bwriedir cynyddu tâl presennol aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a rolau cymwys yn unol â chyflogau cyfartalog eu cyfansoddion gan ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol ar Oriau ac Enillion.

2 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG

- 2.1 Mae'r Panel mewn perthynas ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi penderfynu y dylid cynyddu cyflogau.
- 2.2 Felly, mae'r cyflogau diwygiedig arfaethedig fel a ganlyn:
 - 2.2.1 Dylid cynyddu'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin APC o £5,265 i £5,576
 - 2.2.2 Dylai uwch gyflog cadeirydd APC gael ei gynyddu o £14,598 i £15,462
 - 2.2.3 Dylid cynyddu cyflog uwch ddirprwy gadeirydd a chadeiriau pwyllgorau APC o £9,005 i £9,531
 - 2.2.4 Ni ddylai aelodau dderbyn mwy nag un cyflog uwch APC
 - 2.2.5 Mae cyflog uwch APC yn cael ei dalu gan gynnwys cyflog sylfaenol APC

- 2.2.6 Ni all aelodau o brif awdurdodau lleol sy'n derbyn cyflog uwch Band 1 neu Fandiau 2 dderbyn cyflog gan unrhyw APC y maent wedi'u penodi arno.
- 2.3 Nid oes unrhyw newidiadau i'r costau teithio. Mae talu cyfraddau cynhaliaeth yn parhau i fod yn unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru.
- 2.4 Nid yw'r cyfraddau sy'n daladwy i Aelodau Annibynnol Pwyllgor Safonau'r Awdurdod wedi newid ond maent yn parhau â'r opsiwn i dalu fesul awr am waith a wneir ac fel a ganlyn:
- 2.4.1 Cadeirydd y Pwyllgor Safonau - £268 (4 awr a throsodd) neu £134 (hyd at 4 awr) neu £33.50 (cyfradd yr awr)
- 2.4.2 Aelodau cyffredin o'r Pwyllgor Safonau - £210 (4 awr a throsodd) neu £105 (hyd at 4 awr) neu £26.25 (cyfradd yr awr)
- 2.5 Fel sy'n amlwg o'r llythyr sy'n cyd-fynd â'r adroddiad mae'r cyfnod amser ar gyfer ystyried unrhyw sylwadau yn dod i ben ar y 29^{ain} o Dachwedd ac felly mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i'r Awdurdod gyflwyno sylwadau ar yr adroddiad drafft petai'n dymuno gwneud hynny. Gan barhau â'r broses a gynhawliwyd y llynedd mae yna holiadur byr a chroesewir barn yr Awdurdod cyn i'r ymateb gael ei gyflwyno. Wrth gwrs, mae croeso hefyd i aelodau gyflwyno eu hymateb unigol eu hunain i'r holiadur.

GOBLYGIADAU ADNODDAU

Bydd yr adroddiad, os caiff ei gyhoeddi heb newidiadau yn cynnwys mân oblygiadau o ran adnoddau a fydd yn golygu bod angen cynyddu'r cyllidebau presennol.

ARGYMHELLIAD

Trafod yr Adroddiad Blynyddol drafft a phenderfynu ar ymateb yr Awdurdod.

PAPURAU CEFNDIROL

Adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.



Adroddiad Blynyddol Drafft 2025 i 2026

Hydref 2024


Cynnwys

Adran		Tudalen
1	Rhagair	2-3
2	Cyflwyniad	4-6
3	Rôl a chyfrifoldebau'r Panel	7-8
4	Trosglwyddo Swyddogaethau i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru	9
5	Methodoleg	10-11
6	Penderfyniadau ar gyfer 2025 i 2026	12-21
7	Crynodeb o'r Penderfyniadau 2025 i 2026	22-23
8	Manylion Cyswllt	24

1. Rhagair

- 1.1 Croeso i Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("y Panel"), sy'n nodi'r penderfyniadau ar gyflog, treuliau a buddiannau i aelodau etholedig Prif Gynghorau, Cyd-bwyllgorau Corfforedig, Cynghorau Cymuned a Thref, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub i'w gweithredu o fis Ebrill 2025. Dyma'r adroddiad drafft olaf cyn i swyddogaethau'r Panel drosglwyddo i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) o 1 Ebrill 2025.
- 1.2 Gallwch weld rhagor o wybodaeth am aelodau'r Panel ar ein [gwefan](#).
- 1.3 Bu'n flwyddyn brysur i'r Panel, wrth iddo ganolbwyntio ar gydymffurfriad, ymgysylltiad, tegwch ac ymchwil, gan baratoi ar yr un pryd ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau i CDFfC.
- 1.4 Ers sefydlu'r Panel, credaf ei fod wedi cael dylanwadu sylweddol a buddiol ar werth aelodaeth etholedig llywodraeth leol yng Nghymru ar bob lefel a hynny mewn perthynas â'r holl awdurdodau y mae ei gylch gwaith yn berthnasol iddynt. Yn arbennig, mae'r Panel wedi ceisio sicrhau nad yw materion sy'n gysylltiedig â chydabyddiaeth ariannol yn creu rhwystr i gyfranogi mewn perthynas â democratiaeth leol.
- 1.5 Mae'r Mesur Llywodraeth Leol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel ystyried y gost gyffredinol i bwrs y wlad. Rydym wedi parhau i wneud hyn, ac wedi cynnal yr egwyddor bod cydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig ein Prif Gynghorau wedi'i chysylltu'n benodol â chyflogau cyfartalog pobl yng Nghymru. Rwy'n fodlon bod y cydbwysedd rhwng tegwch a chymorth i aelodau etholedig a'r effaith gyffredinol ar gyllid cyhoeddus wedi'i gyflawni ar gyfer 2025 i 2026.
- 1.6 Hoffwn gyfleu fy ngwerthfawrogiad a'm diolch i aelodau'r Panel am eu proffesiynoldeb, eu parodrwydd i ymgysylltu a'u barn yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, mae Penderfyniadau'r Panel yn gadarn ac yn sefydlog ac wedi'u cefnogi i raddau helaeth gan randdeiliaid. Hoffwn ddiolch yn fawr hefyd i aelodau ein Hysgrifenyddiaeth a fu'n cynorthwyo'r Panel.
- 1.7 Caiff yr adroddiad blynyddol drafft hwn bellach ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori arno. Unwaith eto, rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol y byddem yn croesawu eich adborth arnynt. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ychwanegol ar fanylion y Penderfyniadau arfaethedig neu ar feysydd perthnasol eraill y dylai'r Panel eu hystyried yn eich barn chi.

- 1.8 Daw'r Ymgynghoriad i ben ar **29 Tachwedd 2024** (gallwch naill ai ysgrifennu atom (gweler y manylion cyswllt) neu anfon [e-bost](#) atom yn nodi eich sylwadau neu gwblhau'r [ffurflen](#) ar ein gwefan) ac ar ôl trafod eich adborth, ac ystyried unrhyw newid mewn amgylchiadau, bydd y Panel yn cyhoeddi ei Benderfyniadau terfynol a'i adroddiad blynyddol erbyn 28 Chwefror 2025.



Frances Duffy, Cadeirydd

Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

2. Cyflwyniad

- 2.1 Y llynedd, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Strategol cyntaf, gan nodi'r fframwaith ar gyfer ein hystyriaethau a'r cyd-destun ehangach ar gyfer ein penderfyniadau rhwng 2023 a 2025.
- 2.2 Mae'r strategaeth yn amlinellu fframwaith priodol a theg ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol, wedi'i anelu at annog cynhwysiant a chyfranogiad er mwyn cefnogi democratiaeth leol, a rhoi llais i gymunedau.
- 2.3 Mae gan y Panel ran i'w chwarae wrth hybu dealltwriaeth ehangach o waith aelodau o gynghorau lleol a chynghorau cymuned, er mwyn annog cyfranogiad mewn democratiaeth leol a gwella amrywiaeth cynghorwyr er mwyn cynrychioli amrywiaeth cymunedau lleol yn well. Mae'r Panel eisoes wedi cyflwyno ad-daliad am gost gofal (i bob aelod etholedig) a lwfans gweithio gartref a TGCh (cynghorau cymuned a thref) wedi'u hanelu at ddileu rhwystrau posibl mewn perthynas â chyfrifoldebau gofalu a gweithio gartref er mwyn galluogi aelodau etholedig i gymryd rhan mewn democratiaeth leol.
- 2.4 Lle y gall, mae'r Panel yn parhau i fonitro effaith ei benderfyniadau ar wella amrywiaeth o fewn democratiaeth leol, a gyda chymorth Llywodraeth Cymru, gofynnodd am sylwadau ar y cysylltiad rhwng cydnabyddiaeth ariannol ac amrywiaeth ym maes democratiaeth leol. Mae'r Panel wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am gymorth wrth ddarparu llinell sylfaen well o dystiolaeth er mwyn monitro ac olrhain newidiadau o ran demograffeg ein swyddogion etholedig.
- 2.5 Ers cryfhau'r Panel, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar lunio ein cynllun ymchwil a thystiolaeth i gefnogi ein trafodaethau ar ein fframwaith cydnabyddiaeth ariannol. Rydym yn cyhoeddi ein papur Ymchwil a Thystiolaeth bob blwyddyn, ynghyd â'r Adroddiad Terfynol yn unol â'n nod o fod yn agored ac yn dryloyw yn ein holl benderfyniadau.
- 2.6 Mae'r Panel o'r farn bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol teg a rhesymol yn hanfodol o safbwynt democratiaeth leol. Felly, gwnaethom gytuno unwaith eto i barhau i gysoni lefelau cydnabyddiaeth ariannol i aelodau etholedig Prif Gynghorau, Cyd-bwyllgorau Corfforedig, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yng nghyd-destun enillion cyfartalog yng Nghymru. Mae hyn wedi golygu defnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) yng Nghymru a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) fel y prif feincnod wrth bennu cydnabyddiaeth ariannol.
- 2.7 Mae [Mesur Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2011](#) yn nodi bod yn rhaid i'r Panel ystyried beth yn ei farn ef fydd effaith ariannol debygol ei benderfyniadau ar awdurdodau perthnasol. Gwnaethom ystyried dystiolaeth ynglŷn â sefyllfa ariannol y sector cyhoeddus a'r effaith ar gyllidebau Prif Awdurdodau cyn pennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol ar draws y teulu llywodraeth leol.
- 2.8 Er bod cyfanswm cost cydnabyddiaeth ariannol i aelodau etholedig yn gymharol isel yn nhermau'r cyllidebau cyffredinol, mae'r Panel yn ymwybodol o'r pwysau economaidd a chyllidol parhaus ar Brif Gynghorau. Wrth wneud ein

penderfyniad i barhau i gysylltu cydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig ag enillion cyfartalog eu hetholwyr, cred y Panel o hyd y bydd pecyn cydnabyddiaeth ariannol teg a rhesymol yn parhau i gefnogi aelodau etholedig heb greu rhwystr i gyfranogi. Mae hon yn egwyddor bwysig, sy'n sail i'n hystyriaethau o gydnabyddiaeth ariannol briodol.

- 2.9 Yn unol â'n hymrwymiad i symleiddio gofynion adrodd a chydymffurfio, edrychodd y Panel y flwyddyn hon ar y gofynion adrodd ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Gwnaethom ddarparu adroddiad templed newydd i glercod Cynghorau Cymuned a Thref ei ddefnyddio a byddwn yn parhau i fonitro lefel y taliadau a wneir. Mae'r datganiadau blynyddol hyn yn rhan bwysig o'r dystiolaeth y mae'r Panel yn ei hystyried wrth bennu effaith ac effeithiolrwydd ein penderfyniadau.
- 2.10 Gwnaethom ymdrin ag ymholiadau gan Gynghorau Cymuned a Thref ynglŷn â thriniaeth TWE y lwfans gorfodol am weithio gartref (£156 y flwyddyn) a'r opsiwn o dalu cyfradd safonol o £52 y flwyddyn am nwyddau traul. Gwnaethom ddiweddarau ein canllawiau ar y mater hwn, ac mae hyn wedi helpu i leihau nifer yr ymholiadau. Rydym yn ymwybodol o'r help y mae Un Llais Cymru yn ei roi o hyd i glercod a chynghorwyr lleol ar faterion sy'n gysylltiedig â chydabyddiaeth ariannol a byddwn yn cynnal seminar ar-lein unwaith eto eleni i bob cynghorydd cymuned yn ystod y cyfnod ymgynghori.
- 2.11 Rydym hefyd yn ymwybodol bod nifer o gynghorwyr Cynghorau Cymuned a Thref yn penderfynu peidio â hawlio'r symiau y mae ganddynt hawl iddynt, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ond bod y niferoedd hynny'n lleihau. Credwn yn gryf y dylai cynghorwyr gael eu had-dalu am y treuliau y mae'n rhaid iddynt fynd iddynt wrth gyflawni eu dyletswyddau.
- 2.12 Gwnaethom gyflwyno dull adrodd cyfansymiol ar gyfer yr holl daliadau gorfodol i aelodau Cynghorau Cymuned a Thref am weithio gartref, y lwfans cyfradd safonol am nwyddau traul a hawliadau teithio a chynhaliadau. Mae hyn yn unol â'r broses ar gyfer adrodd ar gostau gofal a hawliadau cymorth personol. Mae'r Panel o'r farn y bydd hyn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng atebolrwydd cyhoeddus a phreifatrwydd unigolion, ac rydym yn gobeithio y bydd yn annog pawb i hawlio'r taliadau y mae ganddynt yr hawl iddynt.
- 2.13 Hefyd y llynedd, cyflwynodd y Panel yr opsiwn i aelodau cyfetholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub gael eu talu'n unol â chyfradd yr awr yn hytrach na chyfradd ddyddiol lle yr ystyriwyd bod hynny'n briodol. Byddwn yn ystyried y datganiadau taliadau blynyddol ar gyfer y flwyddyn hon er mwyn monitro faint o aelodau sy'n gwneud hynny.
- 2.14 Rydym wedi adolygu ein [Canllawiau](#) (y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel y Rheoliadau) ac wedi eu diweddarau er mwyn helpu'r awdurdodau perthnasol i allu cydymffurfio'n well â'n penderfyniadau am gydnabyddiaeth ariannol aelodau, gan gynnwys y gofynion o ran taliadau, adrodd a chyhoeddi fel y'u nodir yn yr adroddiad blynyddol drafft hwn.
- 2.15 Un o'r materion allweddol y rhoddodd y Panel ystyriaeth fanwl iddo eleni oedd y broses o ddatblygu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau) newydd. Ar ôl cynnal

gwaith ymchwil i'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud a gofyn am dystiolaeth ac adborth gan CBCau a chydweithwyr polisi Llywodraeth Cymru, cyhoeddodd y Panel Adroddiad Atodol Drafft a oedd yn ymdrin â chydabyddiaeth ariannol aelodau lleyg CBCau ar 27 Mehefin 2024.

- 2.16 Roedd y Panel o'r farn ei bod hi'n bwysig sicrhau bod taliadau a lwfansau i aelodau etholedig ac aelodau penodedig pob awdurdod lleol sy'n rhan o'r teulu llywodraeth leol yn deg ac yn gyson. Penderfynodd y Panel fod y sefyllfa o ran cydnabyddiaeth ariannol aelodau lleyg CBCau yn wahanol i'r sefyllfa o ran cydnabyddiaeth ariannol aelodau cyfetholedig o fewn awdurdodau llywodraeth leol eraill.
- 2.17 O ganlyniad, ymgynghorodd y Panel â rhanddeiliaid ynghylch cysoni'r dull gweithredu mewn perthynas â chydabyddiaeth ariannol aelodau lleyg CBCau a chydabyddiaeth ariannol aelodau cyfetholedig ar draws yr awdurdodau perthnasol sy'n rhan o'r teulu llywodraeth leol, gan ofyn a ddylid talu aelodau lleyg CBC yn yr un ffordd ag aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol eraill.
- 2.18 Hoffai'r Panel gyfleu ei werthfawrogiad i'r rhai hynny a roddodd o'u hamser i anfon eu safbwyntiau a'u sylwadau. Roedd pob un o'r ymatebion, fwy neu lai, o blaid y dull gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad.
- 2.19 Cyhoeddodd y Panel [Adroddiad Atodol Terfynol](#) ar 31 Gorffennaf 2024.
- 2.20 Mae'r Panel yn ystyried gweithredu ar un maes arall eleni, sef cynnal adolygiad o'r Fframwaith a'r Fethodoleg ar gyfer Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Rolau mewn Prif Gynghorau, Cynghorau Cymuned a Thref, a CBCau. Mae'n ddarn sylweddol o waith a fydd yn gofyn am archwiliad llawn a gwaith ymchwil dilynol, ac felly mae'r Panel yn bwriadu datblygu cwmpas manylach o natur y gwaith ymchwil a'r fethodoleg sydd eu hangen yn ystod y misoedd sydd i ddod er mwyn i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau newydd Cymru (CDFC) ddechrau'r gwaith hwn.
- 2.21 Yn ogystal, mae'r Panel wedi dod yn ymwybodol o rai pryderon o ran y llwyth gwaith a'r gofynion sy'n gysylltiedig ag uwch-rolau yn yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Tân ac Achub. Felly mae'r Panel yn cynnig cynnwys cwestiynau ymchwil a fyddai'n cefnogi adolygiad i'r meysydd hyn hefyd o fewn cwmpas y fframwaith ymchwil a ddisgrifir uchod.
- 2.22 Wrth i ni ddod at ddiwedd y flwyddyn, ac wrth i'r Panel ddirwyn i ben a throsglwyddo ei swyddogaethau i CDFC, bydd y Panel yn paratoi Adroddiad Etifeddiaeth y bwriadwn iddo weithredu fel crynodeb o'r prif faterion rydym wedi ymchwilio iddynt ac wedi gwneud penderfyniadau yn eu cylch yn ystod y cyfnod o ryw 10 mlynedd diwethaf a darparu sail dystiolaeth i CDFC ei defnyddio wrth symud ymlaen.

3. Rôl a Chyfrifoldebau'r Panel

Ein Rôl:

3.1 Mae'r Panel yn gyfrifol am bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig y sefydliadau canlynol a'r trefniadau ar eu cyfer:

- Prif Gyngorau – Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol
- Cyngorau Cymuned a Thref
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Cyd-bwyllgorau Corfforedig

3.2 Mae'r Panel yn sefydliad annibynnol ac mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod roi'r penderfyniadau a wneir ganddo ar waith.

3.3 Rydym yn penderfynu ar y canlynol:

- Y strwythur cyflog ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau
- Y math o lwfansau a delir i aelodau a'u natur
- A yw taliadau yn orfodol neu a oes rhywfaint o hyblygrwydd lleol
- Trefniadau mewn perthynas ag absenoldeb teuluol
- Trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Ein Nod Cyffredinol:

- Cefnogi democratiaeth leol a rhoi llais i gymunedau, drwy sefydlu fframwaith cydnabyddiaeth ariannol priodol a theg, sy'n annog cynhwysiant a chyfranogiad.

Ein Nodau:

- Dylai ein Penderfyniadau sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol yn deg, yn rhesymol ac yn werth am arian i drethdalwyr, ac y cânt eu pennu yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.
- Dylai ein Penderfyniadau gefnogi aelodau etholedig o amrywiaeth eang o gefndiroedd, ac ni ddylai lefelau cydnabyddiaeth ariannol fod yn rhwystr i gyfranogi.

Ein Hamcanion Strategol:

- Gwneud Penderfyniadau ar sail tystiolaeth
- Cyfathrebu mewn ffordd glir a hygyrch
- Mynd ati i ymgysylltu ac ymgynghori'n rhagweithiol
30.09.2024	<p>Cyfrifon Plas Tan y Bwlch</p> <p><i>“Copi o Gyfrifon Plas Tan y Bwlch”</i></p> <p>Gallaf gadarnhau nad yw'r Awdurdod yn gorfod cyhoeddi cyfrifon ar wahân i Blas Tan y Bwlch. Yn hytrach, mae trafodion ariannol Plas Tan y Bwlch yn cael eu hadrodd o fewn cyfrifon cyffredinol yr Awdurdod yn unol â'r disgwyliadau rheoliadau Chyfrifon Llywodraeth Leol a Rheoliadau Archwilio. Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar y wefan: Cyhoeddiadau - Parc Cenedlaethol Eryri</p> <p>Pryn bynnag, gan nad yw'r cyfrifon yn paratoi llawer o fanylder rwyf wedi atodi Adroddiadau Aldro Refeniw a Chyfalaf am y pum mlynedd ariannol olaf sydd hefo fwy o wybodaeth. Eto, mae'r rhain i gyd yn cael eu hadrodd a'u cyhoeddi trwy raglenni Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar ein gwefan. Yn ychwanegol, mae adroddiadau</p>

	<p>diweddariadau cyllideb yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ystod y flwyddyn ac mae'r rhain ar gael i chi trwy'r rhaglenni Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau hefyd.</p> <p>Adroddiadau-Alldro-Refeniw-a-Chyfalaf.pdf</p>																												
30.09.24	<p>Costau Rhedeg Blynyddol a Ffrydiau Incwm</p> <p><i>“A allech chi roi manylion faint o'r £250,000 y mae'n ei gostio i redeg PTYB yn flynyddol, sy'n cael ei wario ar y coedlannau a Llyn Mair.”</i></p> <p>Gallaf gadarnhau nad oes dim o'r gost flynyddol o £250,000 o redeg Plas Tan y Bwlch yn cael ei wario ar gynnal a chadw'r coedlannau a Llyn Mair. Mae gwariant sylweddol dros y degawd diwethaf ar glirio rhododendron, bambŵ ac asalia melyn, gwaith clirio coed peryglus a gwella cynefinoedd i gyd wedi'i ariannu drwy arian grant. Ariannwyd adnoddau staff ar y gwaith hwn o gyllid craidd y gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth.</p> <p><i>“Yr adroddiad ariannol manwl gywir a gyflwynodd y Pennaeth Cyllid i'r Bwrdd - cyfeirir ato yng nghofnodion Gorffennaf 2022.”</i></p> <p>Diweddariad Ariannol Plas Tan Y Bwlch 2021-22</p>																												
14.10.24	<p><i>“Dadansoddiad o £75,000 o Gostau Cysgu'r Plas”</i></p> <p>Ers adrodd ar y ffigwr o £75K, mae costau wedi cynyddu ac amcangyfrifir bellach y byddai'r costau cysgu'r Plas tua £130K y flwyddyn. Isod mae dadansoddiad o elfennau unigol:</p> <table> <tr> <td>Cost ynni Nwy (blynyddol)</td> <td>£48,000</td> </tr> <tr> <td>Cost ynni Trydan (blynyddol)</td> <td>£8,000</td> </tr> <tr> <td>Treth Busnes</td> <td>£37,490</td> </tr> <tr> <td>Cynnal larwm diogelwch a tân</td> <td>£5,500</td> </tr> <tr> <td>Cynnal a Profi bwyleri</td> <td>£3,500</td> </tr> <tr> <td>Cynnal a glanhau gwterydd</td> <td>£4,000</td> </tr> <tr> <td>Cynnal a chadw adeilad</td> <td>£5,000</td> </tr> <tr> <td>Torri gwair y gerddi a mynedfeydd</td> <td>£8,000</td> </tr> <tr> <td>Cynnal a chadw Twrbin Hydro</td> <td>£3,000</td> </tr> <tr> <td>Cwmni Diogelwch</td> <td>£32,000</td> </tr> <tr> <td>Cyfanswm</td> <td>£154,490</td> </tr> <tr> <td>Llai incwm 'Feed in Tariff' Hydro</td> <td>£21,000</td> </tr> <tr> <td>Llai incwm Mast</td> <td>£3,500</td> </tr> <tr> <td>Amcan Cost Net Blynyddol</td> <td>£129,990</td> </tr> </table>	Cost ynni Nwy (blynyddol)	£48,000	Cost ynni Trydan (blynyddol)	£8,000	Treth Busnes	£37,490	Cynnal larwm diogelwch a tân	£5,500	Cynnal a Profi bwyleri	£3,500	Cynnal a glanhau gwterydd	£4,000	Cynnal a chadw adeilad	£5,000	Torri gwair y gerddi a mynedfeydd	£8,000	Cynnal a chadw Twrbin Hydro	£3,000	Cwmni Diogelwch	£32,000	Cyfanswm	£154,490	Llai incwm 'Feed in Tariff' Hydro	£21,000	Llai incwm Mast	£3,500	Amcan Cost Net Blynyddol	£129,990
Cost ynni Nwy (blynyddol)	£48,000																												
Cost ynni Trydan (blynyddol)	£8,000																												
Treth Busnes	£37,490																												
Cynnal larwm diogelwch a tân	£5,500																												
Cynnal a Profi bwyleri	£3,500																												
Cynnal a glanhau gwterydd	£4,000																												
Cynnal a chadw adeilad	£5,000																												
Torri gwair y gerddi a mynedfeydd	£8,000																												
Cynnal a chadw Twrbin Hydro	£3,000																												
Cwmni Diogelwch	£32,000																												
Cyfanswm	£154,490																												
Llai incwm 'Feed in Tariff' Hydro	£21,000																												
Llai incwm Mast	£3,500																												
Amcan Cost Net Blynyddol	£129,990																												

14.10.24	<p><i>“Manylion yr holl ffrydiau incwm”</i></p> <table border="0"> <tr> <td>Rhent Blynyddol y Mast Teliffon</td> <td>£3,500</td> </tr> <tr> <td>Rhent tir blynyddol y Chalet</td> <td>£25 am bob Chalet</td> </tr> <tr> <td>Incwm blynyddol cyfartalog o Drydan Dŵr *</td> <td>£19,500</td> </tr> </table> <p>* mae incwm o'r tariff cyflenwi trydan dŵr yn dibynnu ar y tywydd (glawiad) ac mae'n amrywio'n flynyddol. Yr incwm cyfartalog dros y pum mlynedd diwethaf yw £21,000 y flwyddyn llai cost cynnal a chadw blynyddol o £2,500.</p>	Rhent Blynyddol y Mast Teliffon	£3,500	Rhent tir blynyddol y Chalet	£25 am bob Chalet	Incwm blynyddol cyfartalog o Drydan Dŵr *	£19,500
Rhent Blynyddol y Mast Teliffon	£3,500						
Rhent tir blynyddol y Chalet	£25 am bob Chalet						
Incwm blynyddol cyfartalog o Drydan Dŵr *	£19,500						
14.10.24	<p>Costau Atgyweirio a Chynnal a Chadw</p> <p><i>“Mae angen dadansoddiad o £3 miliwn o gostau atgyweirio a chynnal a chadw dros y 10 mlynedd nesaf”</i></p> <p>Mae'r 3 Taenlen ganlynol yn rhoi manylion llawn:</p> <p><u>212167 Planned Maintenance 020222 NMW</u> * <u>212167 Plas Tan y Bwlch - updated ME Costs</u> * <u>212167 PTYB Ind. Maintenance Budget</u> *</p> <p>*copiau Saesneg yn unig</p>						
30.09.24	<p>Partneriaethau</p> <p><i>“Polisi Partneriaeth yr Awdurdod ac unrhyw fanylion am y drefniadaeth a fwriedir e.e. unrhyw ddogfennau.”</i></p> <p>Mae'n ddrwg gennyf, ni allwn roi'r wybodaeth yma i chi. Yn gyntaf, gallaf gadarnhau nad oes gan yr Awdurdod bolisi ffurfiol ar Bartneriaethau. Yn ail, ni allwn ddatgelu unrhyw wybodaeth sydd yn ymwneud â thrafodaethau presennol gyda phartner potensial ar hyn o bryd. Mae'r wybodaeth wedi'i dosbarthu'n fasnachol sensitif ar y pwynt yma, ac felly'n wybodaeth eithriedig o dan Adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Pryn bynnag, mi fydd cofnodion cyfarfod diweddaraf Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn cael eu cyhoeddi yn rhaglen Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 27ain o Dachwedd, lle bydd mwy o fanylion ar gael.</p> <p><i>“Manylion y broses a ddilynwyd wrth hysbysebu neu geisio ffurfio Partneriaeth yn ddiweddar.”</i></p> <p>Amgaeaf ynghlwm adroddiad y cyn Prif Weithredwr i'r Awdurdod ar y 7fed o Chwefror 2024: <u>Adroddiad Plas Tan y Bwlch</u> Yn y cyfarfod yma penderfynodd yr Awdurdod gwahodd diddordeb gan bartneriaid posibl eraill ar gyfer rheolaeth weithredol / datblygiad Plas Tan y Bwlch, ac ar yr un pryd cynnig Plas Tan y Bwlch ar y farchnad</p>						

	<p>agored i ddarpar brynwyr, gan ganiatáu cyfnod o hyd at 6 mis ar gyfer hyn.</p> <p>Yn dilyn y cyfarfod, fe aeth swyddogion ati yn syth i gynnal trafodaethau pellach gyda chwmnïau preifat, cyrff trydydd sector a grŵp cymunedol a oedd yn gweithredu yn y maes awyr agored neu amgylcheddol yn bennaf ar y posibilrwydd o ffurfio Partneriaeth i redeg Plas Tan y Bwlch. Cyn dewis asiant a chynnig yr eiddo ar y farchnad agored, bu rhaid cwblhau anghenion asesiad effeithlonrwydd ynni, tynnu lluniau a pharatoi manylion a gymerodd sawl wythnos i gwblhau. Oherwydd hyn, roedd hi'n ddiwedd Gorffennaf 2024 pan gafodd yr eiddo ei lansio ar y farchnad agored, gyda'r manylion hefyd yn nodi bod opsiwn o drafod Partneriaeth posib yn parhau.</p>
30.09.24	<p>Gwerthu Ased Cyhoeddus</p> <p><i>“Unrhyw ganllawiau a ddilynir wrth werthu eiddo cyhoeddus.”</i></p> <p><u>Polisi Gwaredu Eiddo</u></p> <p><i>“Manylion unrhyw waith prisio a wnaed gyda chwmnïau eraill heblaw am Carter Jonas.”</i></p> <p>Gallaf gadarnhau cysylltwyd gyda chwmnïau sy'n arbenigo mewn eiddo masnachol a stadau oherwydd yr angen am gyngor parthed effaith y lesau a'r chalets cyfagos sydd â hawliau hirdymor. Cadarnhaodd un cwmni nad oedd yn gallu ymgymryd â'r prosiect ac ni wnaeth cwmni arall ymateb i'r cais. Daeth dau gwmni i gynghori, Carter Jonas a Fine & Country. Ar ôl pwyso a mesur y gwasanaeth a'r gefnogaeth a gynigiwyd, dewiswyd Carter Jonas fel yr asiant gan iddynt ddangos profiad blaenorol a llwyddiant wrth ymdrin â phrydlesi hirdymor a gwerthu eiddo tebyg.</p>
14.10.24	<p><i>“Manylion yr ail bris a gafwyd am y Plas y cyfeiri ato yng nghofnodion 09/23.”</i></p> <p>Mae'r wybodaeth yma yn cael ei adnabod fel gwybodaeth eithriedig o dan Adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 gan ei bod yn wybodaeth a allai niweidio buddiant masnachol ac ariannol yr Awdurdod, gan y gallai ddylanwadu'n ormodol ar y farchnad bosibl er anfantais i'r Awdurdod. Mi fydd yr wybodaeth yma yn parhau i fod wedi'i heithrio hyd nes y bydd gwerthiant yr eiddo wedi'i gwblhau neu fod yr Awdurdod yn penderfynu tynnu'r eiddo yn ôl o'r farchnad agored yn barhaol ar ôl nodi'n glir nad yw gwaredu'r ased bellach yn opsiwn. Yn unol â hynny, gwrthodir eich cais am yr wybodaeth yma am y tro.</p>

14.10.24

“Beth yw'r broses statudol ar gyfer gwaredu eiddo a thiroedd hanesyddol cyhoeddus?”

Mae'r broses yn gwbl ddibynol ar statws yr adeilad a/neu'r tir dan sylw.

Yn yr achos hwn, mae'r Awdurdod yn dal rhydd-ddaliad Plas Tan y Bwlch. Mae'r teitl hwn wedi'i gofrestru gyda Chofrestrfa Tir EM ac nid oes unrhyw faterion yn ymddangos ar y teitl hwn a fyddai'n ymddangos fel pe baent yn effeithio ar yr Awdurdod yn gwaredu ei holl ddaliad neu ran ohono.

Mynegwyd pryderon yn y sesiwn Galw Heibio bod yr Awdurdod wedi methu â chydymffurfio â gofynion penodol yn unol ag Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn enwedig o ran gwaredu man agored. Diffinnir Man Agored fel unrhyw dir sydd wedi'i osod fel gardd gyhoeddus, neu'n cael ei ddefnyddio at ddibenion hamdden gyhoeddus, neu dir sy'n dir claddu segur.

Mae cyfreithiwr yr Awdurdod wedi nodi, ar ôl pwysu a mesur gan fod Plas Tan y Bwlch wedi'i brynu gyda'r bwriad o sefydlu Canolfan Astudio a'i fod wedi'i ddefnyddio fel y cyfryw ers blynyddoedd lawer, bod mynediad cyhoeddus iddo wedi'i fwynhau hyd yma trwy rwydwaith o lwybrau caniatool yn unig, mae'n annhebygol y gellid ystyried y tir yn ardd gyhoeddus ac felly ni fyddai'r gofynion a nodir yn Adran 123 yn berthnasol i unrhyw werthiant o Blas Tan y Bwlch.

Cadarnhawyd hefyd nad yw'r ased yn cael ei ddsbarthu fel un sydd yng Ngwarchodaeth yr Awdurdod Lleol. Ni chaiff awdurdod lleol derfynu Gwarcheidwaeth nes yr ymgynghorwyd â Gweinidogion Cymru a bod y Gwarcheidwad wedi'i fodloni bod trefniadau boddhaol wedi'u gwneud ar gyfer sicrhau bod yr heneb yn cael ei chadw neu nad yw bellach yn ymarferol cadw'r heneb. Mae eglurhad dilynol ar yr hanes a'r bwriad y tu ôl i'r pryniant wedi arwain at gadarnhad, ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, na fyddai'r adeilad yn ymddangos i fod yng Ngwarcheidwaeth yr Awdurdod Lleol ac felly nad oes angen ei derfynu ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

Yr unig ddyletswydd sydd gan yr Awdurdod yw sicrhau nad yw'r ased yn cael ei 'danbriso' pan gaiff ei waredu.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cydnabod y byddai hefyd yn ddisgwyliedig ac yn ddarbodus fel rhan o unrhyw warediad i gynnal asesiad o allu unrhyw ddarpar brynwr i ariannu atgyweiriadau a gwelliannau angenrheidiol i Blas Tan y Bwlch a pha gynlluniau sydd ganddynt ar gyfer yr eiddo yn y dyfodol.

<p>14.10.24</p>	<p><i>“A oes unrhyw rwymedigaethau ar grantiau i’w dychwelyd i Lywodraeth Cymru os caiff yr ased ei werthu? Beth ydyn nhw”</i></p> <p>Nid oes unrhyw rwymedigaethau na grantiau i’w had-dalu i Lywodraeth Cymru ar waredu’r ased.</p> <p><i>“O gofio bod LIC yn cyfrif am ganran fawr o gyllid y Parc Cenedlaethol drwy grantiau a ffrydiau ariannu eraill, a oes gofyniad cyfreithiol neu arfer da cwrteisi cyffredinol y dylid ymgynghori â Gweinidog cyn gwaredu ased treftadaeth bwysig o’r fath fel PTYB. Os felly, ydy hyn wedi ei wneud a phryd”</i></p> <p>Mae trafodaethau’n parhau gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru ar y posibilrwydd o waredu’r ased. Nid oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol wedi’i wneud â Gweinidogion (gan y byddai hyn yn anarferol iawn), ond cânt eu briffio ar y datblygiadau diweddaraf ynglŷn â hyn trwy Swyddogion LIC.</p> <p>Credwn trwy Swyddogion LIC, y bod Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies (sydd â chyfrifoldeb am y Parciau Cenedlaethol) yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau, ac yn ogystal, cafodd Eluned Morgan, Prif Weinidog Cymru, ei briffio ar y 27ain o Awst 2024.</p>
<p>11.10.24</p>	<p>Staff Plas Tan y Bwlch</p> <p><i>“Adroddiad 2023 gan gwmni Datrys ar faterion staffio ayyb yn y Plas”</i></p> <p>Mae’n ddrwg gennyf orfod eich hysbysu bod eich cais am y wybodaeth hon yn cael ei wrthod, gan fod y wybodaeth hon wedi’i heithrio rhag cael ei rhyddhau’n gyhoeddus o dan Adran 40(2) ac Adran 41(1) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.</p> <p>Mae adran 40(2) yn cyfeirio at ddata personol. Mae’r eithriad hwn yn cael ei ddefnyddio gan fod yr adroddiad yn cynnwys data personol sensitif am aelodau staff Plas Tan y Bwlch, a fyddai, os caiff ei ryddhau, yn debygol o achosi gofid mawr, poen ac embaras i’r unigolion dan sylw, ac felly nid oes unrhyw gyfiawnhad digonol mewn rhyddhau’r adroddiad i’r parth cyhoeddus ehangach. Byddai gwneud hynny yn ymyrraeth ddiangen i fywydau’r unigolion dan sylw.</p> <p>Mae Adran 41(1) yn cyfeirio at Wybodaeth a ddarperir yn Gyfrinachol. Mae’r eithriad hwn yn cael ei ddefnyddio gan fod yr aelodau staff sydd wedi darparu gwybodaeth am faterion staffio a materion eraill ym Mhlas Tan y Bwlch, wedi cael sicrwydd y byddai’r broses yn gyfrinachol. Byddai rhyddhau’r wybodaeth hon yn gyfystyr ag achos o dorri cyfrinachedd, a gallai’r rhai dan sylw gymryd camau cyfreithiol</p>

	<p>yn erbyn yr Awdurdod pe bawn ni'n rhyddhau'r wybodaeth yn y parth cyhoeddus.</p>
22.10.24	<p>Cynlluniau Busnes ac Astudiaethau Dichonoldeb</p> <p><i>“Astudiaeth dichonoldeb / cynlluniau busnes un yn dyddio nôl i 2013 ac un wedi hynny”</i></p> <p>Mae'r dogfennau canlynol yn berthnasol i'ch cais:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) Cynllun Busnes 2012 - 15 ii) Cynllun Busnes 2016-19 iii) Cynllun Busnes 2015 - 19 drafft iv) Adroddiad Datblygiadau yn y Dyfodol v) Cynnig Datblygu Plas Tan y Bwlch vi) Adroddiad Opsiynau Plas Tan y Bwlch vii) Diweddariad ar Blas Tan y Bwlch 23.09.20 viii) Achos Busnes ar gyfer parhau a Llety o fath Gwely a Brecwast yn y Plas ix) Adroddiad gan y Rheolwr Ty x) Diweddariad Plas Tan y Bwlch 09.02.22 <p>Fe welir o'r adroddiadau uwchlaw bod bwriad i fuddsoddi'n sylweddol ar uwchraddio'r rhai elfennau o Blas Tan y Bwlch yn 2019 er mwyn datblygu Cynllun Busnes Newydd i'r dyfodol; ond pan aeth y DU i mewn i'r llwyr glo ym mis Mawrth 2020 roedd rhaid cau lawr y busnes. Ers hynny, mae wedi bod yn anodd i Blas Tan y Bwlch gynnal unrhyw fath o fusnes hyfyw oherwydd cyfuniad effaith Covid-19 a'r sawl llwyr glo cysylltiol, y broblem genedlaethol i recriwtio staff ers 2021 (yn enwedig yn y maes lletygarwch), y cwmp drammatig yn y galw am gyrsiau cyhoeddus ac arosiadau preswyl gan ysgolion, a chyflwr y tŷ a'r gwariant angenrheidiol ar gynnal a chadw.</p>
22.10.24	<p>Arolwg Adeilad Plas Tan y Bwlch</p> <p><i>“Adroddiad yr adran Eiddo ar yr adeilad yn 2022”</i></p> <p>Building Survey - Main House *</p> <p>Floor-and-Window-Plans Redacted.pdf *</p> <p>Ancilliary-Buildings-Building-Survey Redacted.pdf *</p> <p>Building Survey - Graigwen Chalet *</p> <p>*copiau Saesneg yn unig</p>

	<p>Sialeau wedi'u lleoli ar yr Ystâd</p> <p><i>“Pwy sy'n berchen ar rydd-ddaliad y sialeau a beth yw'r hawliau mynediad.”</i></p> <p>Yr Awdurdod sy'n berchen ar deitl rhydd-ddaliad yr holl Sialeau sydd wedi'u lleoli ar y tir. Mae'r Awdurdod yn berchen ar deitl rhydd-ddaliadol a phrydlesol yr un Siale sydd o dan berchnogaeth yr Awdurdod ac sydd wedi'i gynnwys yn y gwerthiant. Mae pob teitl pryddlesol Sialeau arall yn eiddo i berchnogion preifat.</p> <p>Mae hawliau mynediad yn debyg ar gyfer pob Sialeau. Mae'r bryddles ar gyfer Sialeau 2 wedi'i hatodi fel enghraifft ac mae Rhan 1 o'r Atodlen yn nodi'r hawliau mynediad. Gellir cael copïau o'r pryddlesi ar gyfer Sialeau eraill trwy'r Gofrestrfa Tir am ffi.</p> <p><u>Official Copy (CYM273163-LEASE-03 Dec 1964)</u> * *copi Saesneg yn unig</p>
14.10.24	<p>Asesiadau Effaith</p> <p><i>“A oes asesiad effaith wedi'i gynnal o ran y posibilrwydd o gollir ased i'r gymuned leol?”</i></p> <p>Yn unol â gofynion statudol, mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal ac Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.</p> <p><u>Asesiad Effaith Cydraddoldeb</u> <u>Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg</u></p>
	<p>Cyfamodau Cyfreithiol</p> <p><i>“Cyfamodau cyfreithiol ar y tir a Hawliau Tramwy?”</i></p> <p>Gweler yr ymatebion uchod sydd wedi ymdrin â hyn. Mae copïau o'r gweithredoedd llawn ar gael i'r cyhoedd gan y Gofrestrfa Tir am ffi.</p>
	<p>Ymgynghoriad Cyhoeddus</p> <p><i>“Pryd fydd yr ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cael ei gynnal?”</i></p> <p>Roedd y Diwrnod Agored a gynhaliwyd ar y 14eg o Hydref 2024 yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus. Yn dilyn hyn, mae pawb sydd â diddordeb wedi cael eu gwahodd i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Awdurdod eu hystyried.</p> <p>Mae hon yn broses barhaus, a bydd unrhyw benderfyniadau wrth symud ymlaen yn cael eu cyfleu'n glir i'r cyhoedd.</p>

CYFARFOD	Cyfarfod Awdurdod
DYDDIAD	13eg o Dachwedd
TEITL	Adolygiad Eryri a'r Wyddfa
ADRODDIAD GAN	Ioan Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu
PWRPAS	Adolygu 2 flynedd o ddefnydd yr Awdurdod i ddefnyddio enwau Eryri a'r Wyddfa

1. CEFNDIR

Ym mis Tachwedd 2022, penderfynodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol i ddefnyddio'r enwau Cymraeg "Yr Wyddfa" ar gyfer Snowdon ac "Eryri" ar gyfer Snowdonia yn unig yn ein cyfathrebu Saesneg.

Nod y newid hwn oedd parchu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal, hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a chryfhau brandio'r Parc Cenedlaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno adolygiad dwy flynedd o effaith y polisi, gan gynnwys canlyniadau cadarnhaol a'r heriau a wynebwyd

2. CANLYNIADAU CADARNHAOL

2.1 *Gwella Enw Da a Chefnogaeth y Gymuned*

Mae defnyddio "Yr Wyddfa" ac "Eryri" yn unig wedi cael effaith gadarnhaol ar sefyllfa'r Awdurdod o fewn y cymunedau lleol, ledled Cymru, a hyd yn oed yn rhyngwladol. Mae'r cam yma yn dylanwadu ar safbwyntiau yn raddol, wrth i fwy o bobl ddechrau gweld gwerth defnyddio'r enwau Cymraeg a deall yr arwyddocâd diwylliannol sydd y tu ôl iddynt.

2.2 *Hyrwyddo'r iaith Gymraeg*

Mae'r amcanion yma yn unol ag ymrwymiad yr Awdurdod i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae'n atgyfnerthu gwerthoedd diwylliannol Eryri ac wedi dod yn enghraifft nodedig o gadwraeth treftadaeth.

2.3 Mabwysiadu Ehangach gan Fusnesau a'r Cyfryngau

Mae llawer o fusnesau lleol a chyfryngau wedi mabwysiadu'r enwau Cymraeg yn dilyn arweiniad yr Awdurdod, gan gynyddu cysondeb ac amlygrwydd yr hunaniaeth Gymraeg sy'n gysylltiedig â'r Parc. Dros amser rydym wedi teimladau'r wasg yn newid mewn ffordd bositif.

2.4 Cyfathrebu Effeithiol a Thyloywder

Mae'r Awdurdod wedi cyfathrebu'r newid hwn yn glir drwy ddogfennau cyhoeddus, papurau cyfarfod awdurdod, a sianeli ar-lein, sydd wedi hybu tryloywder ac wedi helpu i reoli disgwyliadau'r cyhoedd.

2.5 Gwerth Addysgiadol a Chodi Ymwybyddiaeth o Dreftadaeth Leol

Mae'r arweiniad yma yn cynnig cyfleoedd i addysgu ymwelwyr a thrigolion am hanes lleol a'r pwysigrwydd o enwau lleoedd Cymraeg. Mae'n annog pobl i ymgysylltu â'r Gymraeg a dysgu sgiliau sylfaenol wrth ymweld ag Eryri.

2.6 Cyd-fynd â Thueddiadau Cenedlaethol a Byd-eang

Mae'r cam yma yn unol â'r ymdrechion ehangach i warchod a dathlu enwau lleoedd brodorol ar draws y byd, gan osod Eryri fel rhan o symudiad blaengar ym maes gwarchod enwau lleoedd.

2.7 Pwynt Gwerthu Unigryw (USP)

Mae ymrwymiad Eryri i ddefnyddio'r enwau Cymraeg yn ei gosod ar wahân i barciau cenedlaethol eraill y DU, gan hyrwyddo ein hunaniaeth ddiwylliannol. Mae hyn yn ei dro yn apelio i rai demograffeg o ymwelwyr.

3. HERIAU AC ARDALOEDD I'W GWELLA

3.1 Dealltwriaeth Cyhoeddus

Mae diffyg dealltwriaeth yn parhau bod "Eryri" yn gyfystyr â "Snowdonia." Nid yw llawer o ymwelwyr a rhanddeiliaid yn ymwybodol bod enwau Cymraeg wedi bodoli ac efallai eu bod yn credu eu bod yn newydd, sydd wedi achosi rhywfaint o wrthwynebiad a dryswch.

3.2 Effaith ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r symudiad i enwau Cymraeg wedi cael effaith ar ein presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol, gan fod llawer o ddefnyddwyr yn parhau i chwilio am "Snowdon" a "Snowdonia." Gall hyn eu harwain at gynnwys anghywir neu anghysylltiedig, gan effeithio ar yr arweiniad a chyngor yr ydym yn dosbarthu ar-lein.

3.3 Cysondeb Logo

Mae logo'r Awdurdod yn dal i gynnwys y term "Snowdonia," sy'n creu anghysondeb. Gallai diweddarau'r logo i ddefnyddio 'Eryri' yn unig leihau'r dryswch hwn.

3.4 Dryswch ynghylch Enw'r Mynydd vs. y Parc Cenedlaethol

Efallai nad yw ymwelwyr yn siŵr a yw "Yr Wyddfa" yn cyfeirio at y mynydd ei hun neu at y Parc Cenedlaethol. Gall negesu cyson a deunydd dehongli helpu i egluro'r gwahaniaeth hwn.

3.5 *Heriau ynghylch ynganu Enwau Cymraeg*

Mae pobl nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg yn aml yn cael trafferth ynganu'r enwau "Yr Wyddfa" ac "Eryri". Gall darparu canllawiau ynganu a chyfleoedd dysgu wneud i ymwelwyr deimlo'n fwy cyfforddus wrth ddefnyddio'r termau hyn.

3.6 *Negeseuon Negyddol ar y Cyfryngau Cymdeithasol*

Weithiau mae teimladau gwrth-Gymraeg yn ymddangos ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig ar TikTok a Facebook. Gall hyn greu tensiwn a thynnu oddi ar neges yr Awdurdod.

3.7 *Dogfennaeth Statudol a Cyfreithiol*

Mae'n rhaid defnyddio "Snowdonia National Park Authority" mewn rhai dogfennau cyfreithiol a statudol. Gall y gofyniad hwn greu dryswch ymysg staff, rhanddeiliaid, partneriaid, a'r cyhoedd, sydd efallai'n disgwyl terminoleg

3.8 *Dewisiadau Busnesau Lleol*

Mae llawer o fusnesau lleol yn parhau i ddefnyddio "Snowdon" a "Snowdonia" at ddibenion marchnata, gan fod yr enwau hyn yn fwy adnabyddus i'w cwsmeriaid. Gallai hyn arafu'r broses o fabwysiadu'r enwau Cymraeg yn ehangach yn yr ardal.

4. CASGLIAD

Mae mabwysiadu defnyddio "Yr Wyddfa" ac "Eryri" yn unig wedi atgyfnerthu ymrwymiad yr Awdurdod i warchod treftadaeth ddiwylliannol Eryri, hyrwyddo ein hunaniaeth, a chryfhau brand unigryw y Parc Cenedlaethol.

Er bod heriau'n parhau, yn enwedig o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd a chyrhaeddiad ar gyfryngau cymdeithasol, bu'r effaith gyffredinol yn gadarnhaol, gan gryfhau enw da'r Awdurdod a balchder yn ein diwylliant lleol.

5. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

- Dim goblygiadau ariannol
- Amser staff y tim Cyfathrebu a'r Awdurdod yn ehangach i barhau a'r newidiadau

6. ARGYMHELLIAD

- Defnyddio Eryri a'r Wyddfa yn ein gyfathrebu Yr Awdurdod nad sydd yn cael eu cyfri'n statudol neu cyfreithiol.

7. PAPURAU CEFNDIROL

- Adroddiad Arolwg Mewnol APCE
- Crynodeb interim o'r polisi enwau Cymraeg

Arolwg Mewnol APCE ar Yr Wyddfa (Haf 2024)

Cefndir

Mae'r adroddiad yma yn cyflwyno canfyddiadau'r cyhoedd ynghylch defnydd unigryw Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri o'r enwau Cymraeg, "Yr Wyddfa" ar gyfer Snowdon a "Eryri" ar gyfer Snowdonia, mewn cyfathrebu swyddogol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Casglwyd y sylwadau yma gan ddefnyddwyr prif chwe llwybr Yr Wyddfa—PYG, Mwynwyr, Llanberis, Cwellyn, Rhyd Ddu, a Watkin.

Swyddogion

Ioan Gwilym – Pennaeth Cyfathrebu

Catrin Glyn – Rheolwr Prosiectau Partneriaethau

Sara Williams – Swyddog Cynnwys Digidol

Llwybr – PYG a Mwynwyr

“Love it! Matter of pride and respect!”

“Not bothered by this”

“Fine”

“As it should be, fine”

“Disagree”

“Not a problem”

“We're in Wales only right to have it in Welsh. It will take time for people to get used to it though, I've only really known it as Snowdonia”

“If it makes you happy”

“Should be both because people from all over the world come here because it's a famous mountain”

“Great thing that it's in Welsh, heritage is so important, keep it man”

“Gwych!”

"I don't mind either, if locals want it to be called that then fair enough, we're only here for the walk"

"I think its a good thing, might take a while to get used to though"

Llwybr – Llanberis

"I like the Welsh names but would be nice to have a pronunciation guide"

"Fantastic, keep our Welsh names"

"We have to get used to it, it would be nice to have the English in brackets, people might get lost"

"History is important, can be confusing, need to get used to it"

"No problem with it at all."

"Good"

"As it should be, Cymru am byth"

"haven't really noticed - trying to pronounce them is really hard 'If every name was Welsh nobody will know where to go' - a bit confusing"

"I love it; national heritage is important"

"Nothing. hasn't noticed anything"

"No comment, think it's nice"

"Neutral not bothered"

"Good idea, would like learn more about the Welsh language, more information would be nice"

"Fantastic, embrace the heritage"

"It will take a bit of time to get used to - all the signs are both languages - not going to pronounce half of them but don't need to - not really gone beyond the main tourist area."

"No all good"

"Love it - really cool ! love seeing both language"

"I think it's great to reclaim the Welsh names and i endeavour to support their use in the future."

"No issue, it's in Wales so expect it to be called in a Welsh name."

"Coming to your part of the country - they welcome it!"

"No issues at all"

"Yip cool"

"Its great - why not! you should do! Positive!"

"Quite happy, can get confused, would like it to be dual. But similarly we don't expect to go to France and everything to be in English"

"Would be nice to use both. Personally would put me off. Nice to hear Welsh language been spoken though."

"No comments - adapting to the different sign, bit confusing, trying to figure it out as not all signs are Welsh which is a problem."

"As it should be"

"Snowdonia"

"No"

Llwybr – Cwellyn a Rhyd Ddu

"Quite like it, unique"

"Easier to use English as tourists but nice to learn Welsh names"

"Supportive. Happy to give them a go"

"Were in Wales so its good, need to know the pronunciations"

"Good thing"

"Supportive. Would like help to pronounce"

"Long overdue"

Llwybr – Watkin

"I think it's good to stick with the Welsh names"

"No comment"

"Doesn't make that much difference, perhaps keep the brackets as people won't know the spelling"

"A bit confusing, positive though, need to get use to the pronunciations"

"Fair enough, It's like going to Spain and giving mountains an English name"

"In Wales, Welsh names should be used, pronunciation can be difficult"

"Phonetical spelling with pronunciation would help"

"Always known it as Snowdon, keep in brackets for inclusivity But all for Welsh being the primary."

"We're in Wales, use Welsh names"

"no comment as long as I know which is which, it will be used in no time"

"Absolutely no problem, people will get used to it"

"Don't have a problem with it"

"nice but Welsh can be difficult to speak, need more phonetic advice"

"As long as there is 'previously known as' so we know which is which/ But good to see more emphasis on keeping Welsh alive"

"I still call it by the English names because I have difficulties with Welsh pronunciations"

"It's in Wales, every right. Have to be mindful of overseas tourists, young people will catch on, middle aged might not."

Casgliad

Yn gyffredinol, mae ymatebion y cyhoedd yn dangos teimlad cadarnhaol tuag at ddefnydd yr Awdurdod o enwau Cymraeg, yn enwedig o ran parchu treftadaeth a'r iaith Gymraeg.

Er bod llawer o'r ymwelwyr wedi croesawu'r newid, awgrymodd nifer y byddai canllawiau ynganu'n ddefnyddiol i helpu ymwelwyr di-Gymraeg i ymgysylltu'n well â'r enwau. Nododd rhywfaint o'r adborth ddiffyg ymwybyddiaeth o'r termau Cymraeg "Yr Wyddfa" ac "Eryri," gan awgrymu y gallai arwyddion yn y sswy iaith neu gyfeiriadau Saesneg ar y cychwyn gynorthwyo ymwelwyr, yn enwedig ymwelwyr rhyngwladol, i adnabod yr ardal. Yn ogystal, teimlai rhai defnyddwry y gallai defnydd unigryw o enwau Cymraeg achosi dryswch, yn enwedig pan fo diffyg cyfieithiadau eglur i'r Saesneg ar fapiau, arwyddion, a chyfryngau digidol, sy'n defnyddio'r enwau Cymraeg a Saesneg yn anghyson ar hyn o bryd.

I grynhoi, mae canfyddiadau'r yma yn dangos cefnogaeth i bolisi'r Awdurdod, ynghyd ag awgrymiadau adeiladol ar sut i wella'r profiad i ymwelwyr. Gallai darparu adnoddau ychwanegol, megis canllawiau ynganu gefnogi hyn ymhellach a datblygu mwy o ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o dreftadaeth Eryri ymhlith pob ymwelydd.

Yn gyffredinol, Mae'r canfyddiadau hyn yn tanlinellu gwerth a heriau defnyddio'r enwau Cymraeg mewn perthynas a phrofiad yr ymwelydd ar Yr Wyddfa ac yn Eryri.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Partneriaeth Yr Wyddfa

Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2024

Crynodeb interim o'r polisi enwau Cymraeg



Strategic Research and Insight
4 Park Court Mews
Park Place
Caerdydd, Cymru
CF10 3DQ

www.strategic-research.co.uk



Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Ffynonellau delwedd: Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Crynodeb Interim

Crynodeb byr o farn ymwelwyr

Pam mae'r ymchwiliad hwn wedi'i gynnal?

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi dadansoddiad cynnar o ganfyddiadau allweddol o Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2024, gan ganolbwyntio'n benodol ar wybodaeth, dealltwriaeth, a barn ymatebwyr ynghylch y defnydd o'r enwau Cymraeg Yr Wyddfa ac Eryri. Mae'r dadansoddiad yn tynnu o ymatebion i gwestiynau C1a a C1b, sy'n asesu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r enwau Cymraeg ac yn archwilio a oes unrhyw ddryswch yn bodoli rhwng yr enwau Cymraeg a Saesneg.

Paratowyd y crynodeb hwn cyn cyfarfod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ym mis Tachwedd, lle disgwylir i'r Pennaeth Cyfathrebu adrodd ar weithrediad y polisi enwau Cymraeg. Bydd y canfyddiadau'n helpu i lywio'r drafodaeth honno drwy ddarparu mewnwelediad cynnar i ba mor dda y mae'r cyhoedd yn deall ac yn ymgysylltu â'r defnydd o enwau Cymraeg yng nghyd-destun y Parc Cenedlaethol.

Canfyddiadau allweddol

Yn C1a, gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn ymwybodol mai'r Wyddfa yw'r enw Cymraeg ar Snowdon, ac Eryri yw'r enw Cymraeg ar Snowdonia. Roedd lefelau ymwybyddiaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng y ddau ddull casglu data:

- **Arolwg maes:** Roedd 61% o'r cyfranogwyr (680 allan o 1,114) yn ymwybodol o'r enwau Cymraeg, doedd 39% (434) ddim yn ymwybodol, sy'n dangos bod cyfran sylweddol o'r cyfranogwyr yn anghyfarwydd â'r Wyddfa ac Eryri.
- **Arolwg ar-lein:** Roedd ymwybyddiaeth yn llawer uwch, gyda 91% (223 allan o 246) o gyfranogwyr yn ymwybodol o'r enwau Cymraeg, a dim ond 9% (23) ddim yn gyfarwydd. Gallai'r gwahaniaeth mawr mewn ymwybyddiaeth rhwng y ddau ddull arolwg adlewyrchu gwahaniaethau demograffig neu ymgysylltu, gyda chyfranogwyr ar-lein o bosibl yn fwy gwybodous neu'n ymgysylltu mwy â materion diwylliannol ac ieithyddol Cymru.

Yn C1b, gofynnwyd i gyfranogwyr a oeddent yn teimlo bod dryswch rhwng yr enwau Cymraeg Yr Wyddfa ac Eryri. Datgelodd yr ymatebion fod 31% o gyfranogwyr yn credu bod dryswch rhwng y ddau enw, tra nad yw'r mwyafrif (69%) yn meddwl hynny. Mae tri chwarter (77%) o'r rhai sy'n adrodd am ddryswch yn byw yn Lloegr, o gymharu â dim ond 19% sy'n byw yng Nghymru. Mae hyn yn awgrymu bod dryswch yn fwy cyffredin ymhlith ymwelwyr o'r tu allan i Gymru, mae'n debyg oherwydd eu bod yn llai cyfarwydd â'r iaith Gymraeg ac enwau lleoedd.

Isod mae crynodeb o'r ymatebion i C1b, sy'n gofyn i gyfranogwyr egluro a oeddent yn teimlo bod dryswch rhwng yr enwau, a'u rhesymau dros deimlo fel hyn.

Rhwyrstr iaith

Ymddengys mai'r prif reswm dros ddryswch rhwng Eryri a Yr Wyddfa yw'r rhwyrstr iaith. Nododd llawer o gyfranogwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg neu eu bod yn anghyfarwydd â'r iaith, sy'n gwneud i'r enwau ymddangos yn anadnabyddadwy, yn anodd eu cofio, ac yn anodd gwahaniaethu rhyngddynt. Mae'r anghyfarwyddedd hwn yn aml yn arwain cyfranogwyr at yr enwau Saesneg mwy cyfarwydd a "haws".

"I don't speak Welsh so I wouldn't know which was which."

(Cymru, Sir y Fflint, 16-24 oed)

"The Welsh language is confusing if you don't know it."

(De-orllewin Lloegr, 25-34 oed)

"Wouldn't recognise Yr Wyddfa and Eryri."

(Gogledd-orllewin Lloegr, 65-74 oed)

"Easier in English."

(Gogledd-ddwyrain Lloegr, 55-64 oed)

"Scared to pronounce them."

(De-orllewin Lloegr, 35-44 oed)

Yn gyffredinol, ymddengys fod y dryswch yn deillio o fod y Gymraeg yn anghyfarwydd, ynghyd â'r defnydd eang o'r enwau Saesneg ymhlith y di-Gymraeg.

Fodd bynnag, nododd rhai cyfranogwyr fod pobl bob amser wedi cymysgu'r Wyddfa ac Eryri, gan awgrymu nad yw'r mater hwn yn newydd. Mewn gwirionedd, cred rhai y gallai defnyddio'r enwau Cymraeg helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng y mynydd a'r parc cenedlaethol, gan fod yr enwau Cymraeg yn cael eu hystyried yn fwy gwahanol na'u cymheiriaid Saesneg.

"Dim ond gyda'r enwau Saesneg ar gyfer y Saeson gan eu bod mor debyg. Angen defnyddio'r enwau Cymraeg."

(Cymru, Bro Morgannwg, 35-44 oed)

"People from away have always got Snowdon/Snowdonia mixed up, the fact they are in Welsh doesn't stop that."

(Cymru, Conwy, 55-64 oed)

"A lot of people think by saying Snowdonia it's actually Snowdon, but by using the Welsh name it becomes clearer."

(Cymru, Gwynedd, 55-64 oed)

"The English names are very similar to each other. This isn't a problem with the Welsh names."

(Gorllewin Canolbarth Lloegr, 65-74 oed)

**Defnydd cyfyngedig
a chyfieithiad o'r
enwau Cymraeg**

Mae rhai cyfranogwyr yn credu bod dryswch yn deillio o'r deunyddiau cyfieithu cyfyngedig a defnydd annigonol o'r enwau Cymraeg. Tynnodd llawer sylw at y ffaith nad yw'r enwau Cymraeg yn cael eu defnyddio'n eang ar fapiau nac yn cael digon o gyhoeddusrwydd y tu allan i Gymru.

Yn ogystal, teimlai rhai fod diffyg arwyddion dwy iaith yn cyfrannu at y dryswch, gan awgrymu y gallai arddangos yr enwau Cymraeg a Saesneg yn fwy amlwg helpu i ddatrys y mater.

"Not much publicity about the new names in England."

(Swydd Efrog a'r Humber, 25-34 oed)

"Don't understand Welsh, no translation notices anywhere."

(Gogledd-orllewin Lloegr, 25-34 oed)

"Don't speak Welsh and Google Maps only uses one name."

(De-orllewin Lloegr, 25-34 oed)

"There should be one sign in English and one sign in Welsh."

(De-ddwyrain Lloegr, 75+ oed)

**Mae angen mwy o
amser ar bobl i
addasu**

Mae rhai cyfranogwyr yn credu bod y dryswch yn deillio o weithrediad eang cymharol ddiweddar yr enwau Cymraeg, nad yw llawer wedi cyfarwyddo â nhw eto.

"I feel the public generally will become more familiar with it but that may take some time."

(Cymru, Gwynedd, 75+ oed)

"It is in Wales though so totally acceptable to be given Welsh names. It's more that it feels new to a lot of people still."

(Swydd Efrog a'r Humber, 55-64 oed)

"The Welsh terms have only started to be used extensively in the last couple of years and people aren't used to them."

(Cymru, Sir y Fflint, 65-74 oed)

Casgliadau Interim

Mewnwelediadau cynnar

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos tra bod ymwybyddiaeth gynyddol o'r enwau Cymraeg Yr Wyddfa ac Eryri, mae dryswch sylweddol yn parhau, yn enwedig ymhlith y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gallai fod angen i bolisi enwau Cymraeg y Parc Cenedlaethol ystyried y bylchau gwybodaeth hyn. Yn benodol, dylid cyplysu gweithrediad yr enwau Cymraeg ag ymdrechion i addysgu'r cyhoedd am eu hystyr a'u harwyddocâd, yn enwedig i ymwelwyr o'r tu allan i Gymru.

Cyfathrebu wedi'i dargedu

Datblygu negeseuon wedi'u teilwra ar gyfer ymwelwyr di-Gymraeg i egluro'r gwahaniaeth rhwng yr Wyddfa ac Eryri a hyrwyddo'r defnydd o'r enwau Cymraeg.

Mae'r argymhelliad hwn yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r arolwg, lle nododd nifer o gyfranogwyr ddryswch oherwydd nad ydynt yn gyfarwydd â'r Gymraeg.

Mae sylwadau fel "*I don't speak Welsh so I wouldn't know which was which*" a "*The Welsh language is confusing if you don't know it*" yn amlygu'r angen am gyfathrebu cliriach. Gallai gosod arwyddion gwybodaeth ar safleoedd allweddol, pamffledi, a chynnwys digidol sy'n egluro arwyddocâd yr enwau Cymraeg helpu i'w dehongli i ymwelwyr.

Mentrau addysgol

Lansio ymgyrchoedd sy'n dathlu'r diwylliant a'r iaith, gan gynnwys gweithdai, teithiau tywys, neu adnoddau ar-lein gyda'r nod o feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r enwau Cymraeg ymhlith ymwelwyr.

Ategir hyn gan adborth sy'n nodi "dim ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf y dechreuwyd defnyddio'r termau Cymraeg yn helaeth ac nid yw pobl wedi arfer â nhw".

Gall ymgysylltu â chymunedau lleol i rannu gwybodaeth am gyd-destunau hanesyddol a diwylliannol yr enwau wella profiadau ymwelwyr a helpu i bontio'r bwlch cyfarwydd-deb, yn enwedig i'r rhai a fynegodd angen amser i addasu i'r enwau newydd.

Camau nesaf

Mae'r dadansoddiad cychwynnol hwn yn gosod y sylfaen ar gyfer plymio'n ddyfnach i'r modd y mae ymwelwyr yn ymgysylltu â Pharc Cenedlaethol Eryri a'r Wyddfa. Bydd yr adroddiad terfynol yn rhoi golwg fwy cynhwysfawr ar y pwnc hwn, gan archwilio nid yn unig ymwybyddiaeth ymwelwyr ond hefyd pa mor effeithiol y mae strategaethau cyfathrebu yn gweithio.

EITEM RHIF 14

CYFARFOD	Cyfarfod Awdurdod
DYDDIAD	13eg o Dachwedd, 2024
TEITL	LOGO'R AWDURDOD
ADRODDIAD GAN	Ioan Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu
PWRPAS	Addasu Logo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

CEFNDIR

Ym mis Tachwedd 2022, gwnaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol benderfyniad strategol i ddefnyddio termau "Eryri" a "Yr Wyddfa" yn ein cyfathrebu. Mae'r penderfyniad yma yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'n treftadaeth ddiwylliannol, un o Rinweddau Arbennig Eryri.

Fel rhan o'r broses yma, rydym yn cynnig diweddarau logo swyddogol yr Awdurdod er mwyn adlewyrchu'r newid defnydd a brandio yma. Mae'r logo presennol yn dal i gynnwys y term "Snowdonia" sy'n anghyson gyda'n cyfathrebu.

Rydym eisoes wedi sicrhau hawlfraint i ddefnyddio "Eryri National Park Authority" yn ein cyfathrebu dydd i ddydd, ar gyfer pob deunydd o waith nad yw'n cael eu hystyried yn faterion cyfreithiol neu'n statudol.

Mae diweddarau'r logo yn gam hanfodol i sicrhau cysondeb ein gwaith yn ogystal a rheoli disgwyliadau'r cyhoedd.

GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

Os caiff logo newydd ei gymeradwyo mi fydd yn cael effaith ar sawl maes gwaith:

Deunyddiau brandio: Mi fydd deunyddiau megis paneli dehongli, llythyrau, arwyddion, cerbydau a lifrau angen eu newid dros amser. Mi fydd hyn yn cael ei gwblhau pan fo'r angen er mwyn lleihau unrhyw newidiadau a chostau sylweddol.

Asedau Digidol: Mi fydd rhaid i'r asedau digidol (gwefan, cyfryngau cymdeithasol ayyb) gael eu diweddarau'n syth er mwyn cynnwys y logo newydd.

Cyfathrebu gyda Partneriaid: Mi fydd yn rhaid i ni hysbysu ein holl rhanddeiliaid a phartneriaid o newid i'r logo gan sicrhau eu bod hwythau hefyd yn defnyddio'r logo mewn unrhyw brosiectau ar y cyd neu gyfathrebu.

Goblygiadau Ariannol: Wrth weithredu'r newidiadau mewn camau, mi allwn liniaru unrhyw oblygiadau ariannol dros amser.

Cysylltiadau Cyhoeddus a Staffio: Mi fydd angen cyfathrebu clir gyda staff er mwyn eu diweddarau o'r newid a bod adnoddau yn cael eu diweddarau yn gyson. Os caiff ei gymeradwyo mi fydd y tim cyfathrebu yn gweithio ar gynllun tymor hir a llyfryn brandio ar gyfer staff yn 2025.

ARGYMHELLIAD

- i) Cymeradwyo addasiad i logo'r Awdurdod i ddefnyddio 'Eryri' yn unig.
- ii) Awdurdodi gweithredu'r newidiadau dros amser pan fo'r angen er mwyn hwyluso pwysau gwaith ar staff ac adnoddau

PAPURAU CEFNDIROL

Logos drafft yn atodol



CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	13 Tachwedd 2024
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL PROSIECTAU ENWAU LLEOEDD
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol
PWRPAS	Diweddaru Aelodau ar gynnydd prosiectau

1. TROSOLWG

- 1.1. Ers 2021, mae swyddogion wedi bod yn gweithredu nifer o o brosiectau sy'n anelu i warchod a gwella ymwybyddiaeth o enwau lleoedd hanesyddol Cymraeg Parc Cenedlaethol Eryri.
- 1.2. Mae'r Awdurdod yn cyflawni prosiectau fel rhan o'r rhaglen waith arferol ac mewn partneriaeth gyda chymunedau a chyrff cenedlaethol megis Comisiynydd y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

2. PROSIECT SAFONI ENWAU TIRWEDDOL

- 2.1. Prosiect ar y cyd rhwng APCE, Comisiynydd y Gymraeg a Phrifysgol Caerdydd yw hwn, i safoni'r enwau sy'n ymddangos ar fapiau Arolwg Ordnans ar gyfer enwau tirweddol Parc Cenedlaethol Eryri.
- 2.2. Mabwysidiwyd y rhestr o enwau safonol ar lynnoedd Eryri gan APCE a Phanel Safoni Comisiynydd y Gymraeg yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Tachwedd 2023
- 2.3. Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i safoni enwau'r llynnoedd gan y cyhoedd a mabwysidiwyd yr enwau hyn gan Arolwg Ordnans yn ogystal ac mae eu data mapio wedi'i ddiweddaru.
- 2.4. Ers hynny, bu gwaith safoni enwau rhaeadrau a bylchau Eryri ar waith. Mae'r rhestr o enwau bellach wedi'u cymeradwyo gan Grwp Craffu Enwau Lleoedd yr Awdurdod a rydym yn disgwyl derbyn y rhestr terfynol o enwau

safonol ar gyfer rhaeadrau a bylchau Eryri gan Gomisiynydd y Gymraeg maes o law.

- 2.5. Mae hwn yn waith hirdymor a bydd y prosiect yn parhau safoni grwpiau o enwau tirweddol.

3. CASGLU ENWAU TIRWEDDOL ERYRI

- 3.1. Nid pob enw tirweddol sy'n cael ei gofnodi ar fapiau Arolwg Ordnans (e.e. enwau caeau) felly er mwyn diogelu enwau tirweddol nad ydynt ar y mapiau AO, mae swyddogion APCE yn cydweithio gyda Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) i gofnodi enwau tirweddol eraill. CBHC yw'r corff sydd gan gyfrifoldeb dros gynnal y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol 2016 a bydd yr enwau a gesglir yn cael eu cofnodi ar y rhestr hwnnw. Os bydd y gweithdai cofnodi cymunedol yn darganfod enwau sy'n cyrraedd meini prawf mapio'r Arolwg Ordnans, cânt eu hychwanegu i'r mapiau drwy'r waith y Prosiect Safoni Enwau Tirweddol uchod.
- 3.2. Nod y prosiect casglu ydi cofnodi cynifer â phosib o enwau tirweddol y Parc Cenedlaethol, o enwau caeau i enwau pyllau afon.
- 3.3. Cynhaliwyd pump gweithdy cofnodi rhwng Mai a Medi 2024, yn Ogwen, Beddgelert, Llanllechid a Brithdir a Llanfachreth a Dolbenmaen a chasglwyd dros 1,800 o enwau hyd yma.
- 3.4. Mae tri gweithdy arall wedi'u trefnu ar gyfer 2024/25, yn Llanuwchllyn, Trawsfynydd, Llanegryn a Phenmachno a bydd y gwaith yn parhau yn 2025.
- 3.5. Rydym yn hynod falch o gynnydd y prosiect llawr gwlad hwn ac yn ddiolchgar i'r cymunedau am eu hymatebion gwresog i'r gwaith.

4. CADARNHAU DULLIAU YMDRIN AG ENWAU LLEOEDD TIRWEDDOL ERYRI

- 4.1. Ym mis Tachwedd 2022, penderfynodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol arddel yr enwau Eryri ac Yr Wyddfa ym mhob iaith. I raddau helaeth, mae'r penderfyniad hwn yn gosod cynsail cadarn ar gyfer defnydd yr Awdurdod o enwau tirweddol, sef mai enwau tirweddol Cymraeg yn unig caiff eu harddel. Cymeradwywyd y dull hwn gan Grwp Craffu Enwau Lleoedd yr Awdurodd yn ei gyfarfod fis Hydref 2024.
- 4.2. Serch hynny, rydym hefyd yn cydnabod bod rhai enwau mewn ieithoedd eraill yn bodoli yn Eryri a weithiau, bydd hanesion neilltuol ddiddorol neu arwyddocaol yn perthyn iddynt, sy'n rhan o ffabrig treftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd. Yn yr achosion rheiny, bydd yr Awdurdod yn ymgynghori gyda chymunedau lleol cyn penderfynu ar ba ffurf fydd yr Awdurdod yn ei arddel.

5. YMGYSYLLTU

- 5.1. Bu swyddogion yn cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gynhyrchu adnodd addysg ar enwau lleoedd Eryri, sy'n cydfynd â gofynion y Cwriclwm i Gymru ac yn addas i ddisgyblion y cyfnod pontio rhwng addysg ysgol gynradd ac uwchradd. Bydd yr adnodd ar gael i ysgolion yn fuan yn 2025.
- 5.2. Mae'r artist Anna Pritchard o Ddyffryn Ogwen wedi'i comisiynu i greu gwaith celf yn dehongli enwau lleoedd Eryri, i'w arddangos mewn lleoliadau ar draws y Parc yn 2025. Bydd Anna yn cynnal gweithdai mewn tair ysgol yn ychwanegol i'r comisiwn ac yn bwydo gwaith disgyblion i mewn i'r prif gomisiwn.
- 5.3. Bydd animeiddiwr yn cael ei gomisiynu er mwyn dod â'r comisiwn celf yn fyw yn ddigidol, er mwyn hyrwyddo gwaith enwau lleoedd APCE ym maes enwau lleoedd.

ARGYMELLIAD:

- 1. I Aelodau dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth, darparu adborth ar gynnydd y gwaith ac unrhyw syniadau ar gyfer prosiectau pellach.**

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	13 Tachwedd 2024
TEITL	DIWEDDARIAD AR Y GYLLIDEB 2024/25
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Cyllid
PWRPAS	I hysbysu'r Aelodau: <ul style="list-style-type: none"> - am drosglwyddiadau sylweddol. - am y gwariant hyd yma yn erbyn y cyllidebau referniw a chyfalaf a chyflwyno unrhyw flaen/ragamcanion ar gyfer y flwyddyn ariannol.

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o gyllideb 2024/25 gan gynnwys crynodeb o'r cyllidebau referniw a chyfalaf diwygiedig yn dilyn chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol h.y., 1 Ebrill 2024 i 30 Medi 2024.
- 1.2 Mae Rhan 4 o'r adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y gyllideb referniw net yn ogystal â chymhariaeth gyda'r sefyllfa o'r un cyfnod yn 2023/24.
- 1.3 Mae cytundeb ar raddfeydd cyflog wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 1^{af}, 2024 bellach wedi'i dderbyn ac mae'r newidiadau hyn wedi'u hychwanegu at y gyllideb.
- 1.4 Mae llithriad a thanwariant o flwyddyn ariannol 2023/24 a glustnodwyd at ddibenion penodol wedi ei gynnwys yn y gyllideb net ddiwygiedig. Mae hyn yn cynnwys arian ar gyfer archebion penodol, thanwariant ar gynlluniau grant a gynigir gan yr Awdurdod a chyfraniad tuag at gyflogau yn ogystal â thanwariant o brosiectau Cyfalaf yr Awdurdod.
- 1.5 Mae'r prosiectau grant Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (TCLIC) 2022/23 – 2024/25 yn parhau. Cyfanswm gwerth y prosiectau hyn yw £2.5 miliwn gyda'r gwariant arfaethedig wedi'i broffilio dros dair blynedd gydag £850,000 ar gyfer 2024/25.

- 1.6 Mae cynllun grant cyfalaf Lleoedd Lleol i Natur 6 yn parhau yn 2024/25 gyda'r gwariant yn cael ei hawlio'n ôl oddi wrth Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Mae cynlluniau Treftadaeth y Loteri fel y Carneddau hefyd yn parhau, yn ogystal â phrosiect Coedwig Law Geltaidd LIFE sef y prosiect grant mwyaf sy'n rhedeg ar hyn o bryd.
- 1.7 Nid oes unrhyw grantiau ychwanegol wedi'u derbyn na'u disgwyl ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol hon.

2. CYLLIDEB REFENIW DIWYGIEDIG 2024/25

- 2.1 Cymeradwywyd y Gyllideb Net Wreiddiol gan yr Awdurdod ar 7 Chwefror 2024.

Gwasanaethau	Cyllideb Sylfaenol	Trosgl. cynt £	Trosglwyddiadau	Cyllideb Net Ddiwygiedig
	£		£	£
Cynllunio a Rheoli Tir	1,655,650	224,492	97,516	1,977,658
Corfforaethol	5,325,509	63,396	148,263	5,537,168
Balansau	379,000	-	208,853	170,147
Cyfanswm Gwasanaethau	7,360,159	287,888	36,926	7,684,973
Llog a ennillwyd ar falansau	- 100,000	-	-	100,000
Refeniw yn ariannu gwariant Cyfalaf	526,262	331,505	25,000	832,767
Addasiad Taliadau Cyfalaf	- 591,050	-	-	591,050
Cyllideb net	7,195,371	619,393	11,926	7,826,690
Arianwyd o	-	-	-	-
Grant Parciau Cenedlaethol	4,119,789	-	-	4,119,789
Ardoll Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262	-	-	1,373,262
	5,493,051	-	-	5,493,051
Trosglwyddiadau o'r cronfeydd wrth gefn	1,061,757	1,259,956	11,926	2,333,639
Cyllideb Net ddiwygiedig	6,554,808	-	-	7,826,690

- 2.2 Mae dadansoddiad manwl yn dangos y gyllideb net ddiwygiedig fesul gwasanaeth ar 30 Medi 2024 i'w weld yn Atodiad 1. Mae'r atodiad hwn hefyd yn manylu ar drosglwyddiadau i/o'r cronfeydd wrth gefn a wnaed yn ystod y flwyddyn.

- 2.3 Mae'r gyllideb wedi'i haddasu o £7,195,371 (fel y'i cymeradwywyd ym mis Chwefror 2024) i £7,826,690. Mae'r trosglwyddiadau ychwanegol i'w nodi ers yr adroddiad diwethaf fel a ganlyn

- £215,780 – cadarnhawyd dyfarniad cyflog 2024/25 tua diwedd mis Hydref gan arwain at gyfanswm cost o £215,780. Mae cyfanswm o £178,853 o'r swm hwn yn effeithio ar gyflogau gwaelodlin yr Awdurdod, tra bod y gweddill i'w ariannu naill ai o'r prosiectau grant parhaus, neu o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn flaenorol at y dibenion hyn. Roedd gennym eisoes ddarpariaeth ar gyfer mwy na'r swm hwn, gan arwain at arbediad o £170,147 i'r Awdurdod.

- £25,000 – mae'r swm hwn wedi ei dynnu o'r gyllideb gyfalaf gan na fydd y gwaith yn mynd yn ei flaen yn 2024/25. Eto mae hwn yn brosiect sydd ag arian wedi ei glustnodi eisoes yn y cronfeydd wrth gefn ac felly nid oes unrhyw effaith ar gyllideb waelodlin yr awdurdod.

2.4 Mae'r diffyg disgwylidiedig o £675,750 fel yr adroddwyd yn flaenorol ym mis Medi bellach mewn sefyllfa ychydig yn well yn dilyn y dyfarniad cyflog diweddar, sydd bellach wedi'i gytuno a'i weithredu. Cytunwyd ar gynnydd o £1290 ar gyfer pob pwynt ar y raddfa gyflog gan arwain at gyfanswm cost o £178,853 i'r Awdurdod. Gan fod darpariaeth o £349k yn y gyllideb eisoes, mae hyn yn arwain at arbediad o £170,147, gan ddod â'r diffyg disgwylidiedig am y flwyddyn i lawr i £505,000. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, bydd y swm hwn yn cael ei ariannu o'r gronfa wrth gefn.

3. CYLLIDEB GYFALAF DDIWYGIEDIG

3.1 Mae crynodeb o'r gyllideb net ddiwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf ar gyfer 2024/25 i'w weld yn y tabl canlynol, gyda manylion ychwanegol yn atodiad 2.

Cyllideb Cyfalaf 2024/25						
Meysydd Gwasanaeth	Cyllideb Gros Wreiddiol (£)	Incwm Grant (£)	Cyllideb Net Wreiddiol (£)	Trosogl. (£)	Trosogl. Newydd (£)	Cyllideb Net Ddiwyg. (£)
Cynllunio a Rheoli Tir	369,320	-	369,320	-	-	369,320
Corfforaethol	156,940	-	156,940	331,507	- 25,000	463,447
Cyfanswm	526,260	-	526,260	331,507	- 25,000	832,767

3.2 Mae'r addasiad o £25,000 oherwydd nad yw prosiect Cyfalaf Penmaen Brith bellach yn mynd rhagddo oherwydd adnoddau cyfyngedig ac mae prosiectau eraill yn cael eu blaenoriaethu megis y Prosiectau Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy.

4. Y SEFYLLFA A RAGWELIR AR GYFER 2024/25

4.1 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cynnydd yn erbyn y gyllideb hyd at 30 Medi, a chymhariaeth gyda'r un cyfnod yn 2023/24.

Gwasanaethau	Cyllideb Net Ddiwygiedig	Gwariant Net hyd yma	Cymhariaeth 2023/24	Gwahaniaeth
	(£)	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheoli Tir	1,977,658	1,412,995	1,391,931	21,064
Corfforaethol	5,328,315	2,701,772	2,562,604	139,168
Balansau, cronfeydd wrth gefn a darpariaethau	379,000	-	-	-
Cyfanswm Gwariant i wasanaethau	7,684,973	4,114,767	3,954,535	160,232
				-
Llog â enillwyd ar gronfeydd dros ben	- 100,000	- 145,011	- 129,762	- 15,249
Cyfraniad Refeniw ar wariant Cyfalaf	832,767	688,769	703,218	- 14,449
Addasiadau Taliadau Cyfalaf	- 591,050		- 344,960	344,960
Cyllideb Refeniw Net	7,826,690	4,658,525	4,183,031	475,494
Arianwyd o:				
Grant Parc Cenedlaethol	4,119,789			
Lefi Awdurdod Cyfansoddol	1,373,262			
Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn	1,061,757			
Cyllideb Net Wreiddiol	6,554,808			
Grant Ychwanegol Llywodraeth Cymru				
Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn	1,271,882			
Cyllideb Net Ddiwygiedig	7,826,690			

4.2 I grynhoi, mae gwasanaethau ar darged i gadw o fewn eu cyllideb am y flwyddyn. Yn ôl y disgwyl, mae gwariant wedi cynyddu ar elfennau yr effeithir arnynt gan chwyddiant, yn benodol ar ynni. Mae'r gyllideb wedi'i haddasu i fynd i'r afael â hi a hyd yn hyn, mae'r gyllideb ar gyfer 2024/25 yn ymddangos yn ddigonol.

Mae cyfraddau llog banc yn parhau'n uchel oherwydd gostyngiad arafach mewn chwyddiant na'r disgwyl, sydd wedi arwain at incwm sylweddol o log banc i'r Awdurdod, gyda £145k wedi'i dderbyn eisoes yn ystod 6 mis cyntaf y flwyddyn ariannol yn erbyn targed cyllideb o £100k.

Bydd trafodaethau pellach rhwng y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli cyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn gweithredu ar unrhyw addasiadau pellach i'r gyllideb neu gwrdd ag unrhyw wariant annisgwyl.

Mae esboniad manwl o rai o'r addasiadau i'r gyllideb wreiddiol a'r amrywiadau blaen/rhagamcanol presennol fel a ganlyn.

4.3 **Corfforaethol** :

Plas Tan y Bwlch – Mae'r gyllideb ar gyfer Plas Tan y Bwlch wedi ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2024/25 oherwydd y posibilrwydd o waredu, ac felly nid yw'r gwariant presennol o fewn y gwasanaeth yn effeithio ar y gyllideb waelodlin. Oherwydd anhawster recriwtio staff, nid yw Plas Tan y Bwlch bellach yn cynnig gwasanaeth Gwely a Brecwast, ac mae wedi gorfod cau ar rai dyddiadau oherwydd prinder staff. Mae hyn yn golygu llai o incwm na'r disgwyl, a all olygu y bydd angen swm uwch o'r cronfeydd wrth gefn.

Meysydd Parcio - Mae incwm o ffioedd meysydd parcio yn parhau i fod yn uchel gyda £711k wedi'i dderbyn hyd at ddiwedd Medi yn erbyn targed y gyllideb o £820k am y flwyddyn. Mae maes parcio Llyn Tegid unwaith eto hefyd wedi bod yn arbennig o brysur gyda £127k wedi ei dderbyn o'i gymharu â'r targed blynyddol o £20k. Mae'n debygol y bydd angen unrhyw incwm dros ben posibl o ffioedd meysydd parcio i fynd i'r afael â'r her ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod ar hyn o bryd.

Canolfannau Croeso – Mae'r canolfannau'n perfformio'n dda eleni gydag incwm yn uwch na'r targed a osodwyd yn wreiddiol. Mae hyn wedi arwain at orwariant ar nwyddau i'w hail werthu sy'n dod o dan yr incwm ychwanegol, a disgwyliwn i'r canolfannau orffen y flwyddyn ymhell o fewn y targed a osodwyd.

Cyfieithu – Rhagwelir tanwariant o £22,000 eleni, bydd hwn yn cael ei ddefnyddio yn 2025/26 gan fod disgwyl i'r llwyth gwaith cyfieithu gynyddu oherwydd adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2025.

Gweinyddol a Gofal Cwsmer - Disgwylir y bydd ychydig o orwariant ar gyflogau oherwydd absenoldebau staff a'r angen i dalu costau goramser fel cyflenwi.

Wardeiniaid - bu peth ail strwythuro o fewn y gwasanaeth Wardeiniaid gan arwain at arbediad yn erbyn y gyllideb o £70k. Bydd £35k yn mynd tuag at gostau contractwyr sy'n debygol o gynyddu oherwydd ail strwythuro, a'r gweddill yn creu arbediad yn erbyn y gwaelodlin. Bydd yr arbediad yma yn cael ei ddefnyddio i gyllido costau ymadael staff o fewn y flwyddyn.

4.4 **Cynllunio a Rheoli Tir** : Yn gyffredinol, mae'r gwariant net cyfredol yn parhau o fewn y gyllideb. Mae yna amrywiadau o fewn y gwasanaethau fel y manylir isod.

Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth - Oherwydd anawsterau parhaus recriwtio ar gyfer rhai swyddi arbenigol o fewn y gwasanaeth, ynghyd ac absenoldebau staff, mae gwariant uwch na'r disgwyl ar ffioedd ymgynghoriaeth allanol. Mae rhywfaint o lwyddiant recriwtio diweddar yn golygu gotyngiad yn y lefel yr ydym yn ymddiried mewn ymgonghorwyr allanol. Disgwylir i'r gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn fod tua £60k.

Cadwraeth, Coed, ac Amaethyddiaeth - Mae nifer o brosiectau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn yn derbyn cyllid grant gan gynnwys Mind the Gap, Prosiectau Ymylon Eryri a Mawndiroedd. Mae'n debygol y bydd y gwariant yn cael ei hawlio'n ôl trwy grantiau o fewn y flwyddyn. Wrth osod y gyllideb wreiddiol nid oedd sicrwydd o'r grantiau hyn a gosodwyd y gyllideb ar gyfer cyflogau rhai o'r cynlluniau hyn yn erbyn y gwaelodlin fel mesur rhagofalus. Nid yw'r blaen/rhagamcanion presennol yn awgrymu sefyllfa lle na fydd y grantiau ar gael ac oni bai bod y senario hwn yn newid yn ystod y flwyddyn disgwylir tanwariant ar gyflogau o fewn y gwasanaeth hwn.

Partneriaethau – Disgwylir y bydd tanwariant o tua £100k ar linell y Gronfa Gomisiynu yng nghyllideb y Partneriaethau. Bydd yr arian hwn yn mynd tuag at swydd newydd y Swyddog Carbon a'r dyletswyddau perthnasol i hynny.

4.5 **Balansau, Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau** - Mae'r balans gwaelodlin gwreiddiol o £30,000 ar gyfer chwyddiant bellach wedi'i ddyrannu i linellau cyllideb yr effeithir arnynt yn arbennig gan bwysau chwyddiant, a chyfanswm o £178,853 o'r ddarpariaeth codiad cyflog o £349,000. Bydd y gweddill yn mynd tuag at bontio'r diffyg yn y gyllideb.

4.6 **Llog** - Cynyddwyd y targed ar gyfer incwm llog o £28,000 i £100,000 ar gyfer cyllideb 2024/25 oherwydd bod cyfraddau llog yn parhau'n uchel a chwyddiant yn gostwng ar gyfradd arafach na'r disgwyl. Yn ystod 6 mis cyntaf y flwyddyn ariannol, mae cyfanswm o £145k o incwm llog eisoes wedi'i dderbyn.

4.7 **Cyfalaf** : Mae'r prif wariant net hyd at ddiwedd mis Medi ar -

Cerbydau Wardeniaid	£67,631
Prosiect Cronfa Treftadaeth Treflun Dolgellau	£130,218
Treftadaeth Ddiwylliannol	£29,694
Llwybr Troed y Carneddau (Grant Llywodraeth Cymru)	£23,600
Ffiniau Traddodiadol (Cydweithredol TCLIC).	£22,681
Cerbydau Amaeth	£30,500
Twristiaeth Gynaliadwy (TCLIC)	£52,026
Betws y Coed (Grant Llywodraeth Cymru)	£31,659
Lleoedd Lleol ar gyfer Natur	£47,848
Atgyweiriadau Cyfalaf Hafod Eryri	£132,758

5. TROSLWYDDIADAU RHWNG Y CYLLIDEBAU GWERTH DROS £30,000 I SYLW'R AWDURDOD .

5.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth rhwng £30,000 a £100,000 rhwng cyllidebau, lle nad ydynt wedi'u cymeradwyo'n flaenorol gan yr Awdurdod. Yn ogystal, mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer unrhyw drosglwyddiad gwerth £100,000 neu fwy.

5.2 Nid oes unrhyw drosglwyddiadau o'r fath wedi'u cymeradwyo yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon.

6. ARGYMHELLIAD

- **Cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol bresennol ar gyfer 2024/25**

7. PAPURAU CEFNDIR

DIM

				Atodiad 1
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri				
Cyllideb Ddiwygiedig 2024/25 ar 30 o Fedi 2024				
	Cyllideb Sylfaenol	Trosglwyddiadau	Trosgl. Newydd	Cyllideb Net Ddiwygiedig
	£	£	£	£
CYNLLUNIO A RHEOLI TIR				
Coedwigwyr (T.C.L.I.C.)				
Cadwraeth, Coed ac Amaeth	533,200	5,372	14,078	552,650
Ymylon Eryri		18,924	1,698	20,622
Awyr Dywyll	58,180	-	1,698	59,878
Mawndir Cymru (grant Ll. Cymru)		-		-
Grid Cenedl. - Maentwrog (Dwyrain)		-		-
LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd	74,800	-	9,521	84,321
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau	25,000	5,308	7,899	38,207
Archeoleg	67,540	23,552	1,698	92,790
Treftadaeth Diwylliannol	80,780	-	1,698	82,478
Prosiect Mawndiroedd		136,206	-	136,206
Ysgwrn	118,820	-	10,117	128,937
Rheolaeth Datblygu	452,960	12,230	40,621	505,811
Polisi a Chynllunio	244,370	22,900	8,488	275,758
Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen	1,655,650	224,492	97,516	1,977,658
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	112,510	-	-	112,510
Cefnogaeth yr Awdurdod	94,380	-	2,221	96,601
Rheolaeth Gorfforaethol	664,176	-	185,462	849,638
Eiddo	247,490	-	4,468	251,958
Cyfreithiol	58,380	-	1,376	59,756
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	223,423	-	22,569	200,854
Cyfieithu	108,530	-	1,698	110,228
Personel a Hyfforddiant	208,160	27,500	11,439	247,099
Pencadlys	261,750	-	918	262,668
Systemau Gwybodaeth	368,010	-	14,488	382,498
Cyllid	230,630	-	7,809	238,439
Plas Tan y Bwlch	486,490	-	14,411	500,901
Ymgysylltu	368,110	11,000	9,948	389,058
Safle Gwe Newydd	-	-		-
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	3,432,039	38,500	231,669	3,702,208

				Atodiad 1 parh.
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri				
Cyllideb Ddiwygiedig 2024/25 ar 30 o Fedi 2024				
	Cyllideb Sylfaenol	Trosglwyddiadau	Trosgl . newydd £	Cyllideb Net Ddiwygiedig £
	£	£	£	£
Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen				
CYNLLUNIO A RHEOLI TIR	1,655,650	224,492	97,516	1,977,658
CORFFORAETHOL	3,432,039	38,500	61,522	3,532,061
Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (Grant L.I.C.)	39,310	-	-	39,310
Llwybrau Llesiant (Grant L.I.C.)	40,000	-	-	40,000
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	468,810	-	12,255	481,065
Wyddfa Di-Blastig	43,420	24,896	1,698	70,014
Canolfannau Gwybodaeth	186,580	-	11,657	198,237
Llyn Tegid	- 20,180	-	-	- 20,180
Meysydd Parcio	- 483,210	-	17,267	- 465,943
Clirio Ysbwriel	19,510	-	-	19,510
Traffig a Chludiant	5,000	-	-	5,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	263,450	-	-	263,450
Mynediad Cyhoeddus	123,550	-	680	122,870
Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddolwy	1,207,230	-	44,544	1,251,774
	5,325,509	63,396	148,263	5,537,168
BALANSAU				
Darpariaeth chwyddiant cyffredinno	30,000	-	- 30,000	-
Darpariaeth chwyddiant cyflogau	349,000	-	- 178,853	170,147
	379,000	-	208,853	170,147
CYFANSWM	7,360,159	287,888	36,926	7,684,973
Llog a Enillwyd	- 100,000	-	-	- 100,000
Refeniw yn Ariannu Gwariant Cyfalaf	526,262	331,505	- 25,000	832,767
Addasiad Taliadau Cyfalaf	- 591,050	-	-	- 591,050
	7,195,371	619,393	11,926	7,826,690
ARIANWYD O				
Grant Parc Cenedlaethol	4,119,789	-	-	4,119,789
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262	-	-	1,373,262
Tros. o'r cronfeydd wrth gefn	1,061,757	1,259,956	11,926	2,333,639
Cyllideb Net	6,554,808	-	-	7,826,690

						Atodiad 2
Cyllideb Cyfalaf 2024/25						
Meysydd Gwasanaeth	Cyllideb Gros Wreiddiol (£)	Incwm Grant (£)	Cyllideb Net Wreiddiol (£)	Trosgl. (£)	Trosgl. Newydd (£)	Cyllideb Net Ddiwyg. (£)
Cynllunio a Rheoli Tir						
Cynlluniau Treftadaeth Ddiwylliannol	149,490	-	149,490	-	-	149,490
Gorseddau	148,220		148,220	-		148,220
Carneddau - Data LiDAR (Grant Ll. C.)	3,000	-	3,000	-	-	3,000
Carneddau - Llwybrau (Grant Ll. C.)	35,000	-	35,000	-	-	35,000
Mobile Observatory	23,600		23,600	-		23,600
Sky Paths	10,010		10,010	-		10,010
Is-gyfanswm	369,320	-	369,320	-	-	369,320
Corfforaethol						
Systemau gwybodaeth - Rhaglen Amnewid.	22,340	-	22,340	-	-	22,340
Cynllun Partneriaeth y Wyddfa (Grant Ll. C.)	15,000	-	15,000	-	-	15,000
Cynllun Dehongli'r Wyddfa (Grant Ll. C.)	23,000	-	23,000	-	-	23,000
Prosiectau Mynediad	10,000	-	10,000	10,660		20,660
Wardeniaid - Cerbydau	14,000	-	14,000	90,847		104,847
Llyn Llywelyn / Drws y Coed, Rf	23,750	-	23,750	-		23,750
Lon Gwyrfai	23,850	-	23,850	-		23,850
Penmaen Brith (Grant Ll. C.)	25,000	-	25,000		- 25,000	-
Wyddfa Di-blastig	-	-	-	10,000	-	10,000
Hafod Eryri	-	-	-	220,000		220,000
Is-gyfanswm	156,940	-	156,940	331,507	- 25,000	463,447
Cyfanswm	526,260	-	526,260	331,507	- 25,000	832,767

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	13 Tachwedd 2024
TEITL	CYLLIDEB REFENIW SYLFAENOL 2025/26
AWDUR	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	I nodi'r Gyllideb Sylfaenol fel yr amcangyfrifir ar gyfer 2025/26 a'r sefyllfa ariannol a ragwelir

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion am gyllideb ddrafft 2025/26 a dangos yr amcan gost o barhau'r gwasanaethau cyfredol, a chyllido costau a gymeradwywyd ar gyfer y dyfodol.
- 1.2 Mae'r cyllidebau a'u cyflwynir yn yr adroddiad hwn ar sail cyllideb 'fflat'. Hynny yw, lefel anochele o wariant i barhau a'r lefel bresennol o wasanaeth yn 2025/26 heb unrhyw ychwanegiadau datblygiadol.

2 CRYNODEB CYLLIDEB 2025/26

- 2.1 Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn cynnwys dadansoddiad o'r symudiadau yn y gyllideb sylfaenol o brisiau terfynol 2024/25 i'r prisiau terfynol disgwylidig yn 2025/26. Gweler crynodeb isod:

CRYNODEB O GYLLIDEB APCE 2025/26				(£)	(£)
Cyllideb Sylfaenol 2024/25					7,195,246
Newidiadau					
	Cynnydd costau staff		1,699		
	Cynnydd gwariant		96,910		
	Cynnydd Incwm		- 110,000		
	Newidiadau i Brosiectau Cyfalaf		- 330,429		
	Cyfanswm newidiadau				- 341,820
					6,853,426
Darpariaeth ar gyfer chwyddiant cyffredinol					
Cyllideb sylfaenol 2025/26					6,853,426
Grant & Lefi 2025/26					- 5,493,051
Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn					- 548,885
Diffyg					811,490
<i>Gweler atodiad 1 am fwy o fanylion</i>					

2.2 'Rwyf wedi cynnwys darpariaeth o 2% ar gyfer chwyddiant cyflogau yn 2025/26, gan ystyried bod disgwyl i chwyddiant aros o amgylch y ffigwr yma dros y misoedd nesaf.

2.3 **Grant Llywodraeth Cymru (amcan £5,493,051):**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi bydd dim cynnydd i'r setliad grant ar gyfer 2025/26, felly mi ydw i wedi gwneud rhagdybiaeth bydd y setliad tebygol yn un "gwastad", a fydd yn golygu toriad mewn gwir dermau. Mi fydd y sefyllfa yn fwy clir unwaith bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu cyllideb drafft ym mis Rhagfyr.

2.4 Ni chynhwysir effaith lawn gwariant ychwanegol a ariennir yn llawn o grantiau yn fan hyn, ond bydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad i'r Awdurdod ym mis Chwefror.

2.5 **Newid mewn costau staff (£1,699) :**

Y prif newidiadau ydy:

- Effaith cynnydd cyflog 2024.25 £178,853
- Cynnydd mewn Yswiriant Cenedlaethol Cyflogwyr i 15% a gostwng trothwy i £5000 £112,388
- Addasiadau strwythr gwasanaeth -£49,556
- Lleihau darpariaeth chwyddiant cyflogau -£239,986

2.6 **Newid Mewn Gwariant (£96,910)** :

Mae'r cynnydd yn ymwneud a chostau yn deillio o gynnydd ailbrisiad trethi annomestig, cynnydd mewn costau rhedeg gwasanaeth bwcio o flaen llaw ym Mhen y Pass, a cynnydd yn lwfansau aelodau. Gweler manylion llawn yn atodiad 1.

Mae'n debygol bydd cynnydd yng nghyfraniad yr Awdurdod i'r Cydbwyllgor Corffredig, tydi amcan o'r gost ychwanegol ddim wrth law eto.

2.7 **Newid Mewn Incwm (£110,000)** : Mae'r cynnydd yma yn perthyn i gynnydd yn nharged incwm maesydd parcio i gwrdd ar gôst ychwanegol o redeg y system bwcio o flaen llaw.

2.8 **Cyfraniad Net o Gronfeydd Wrth Gefn (-£548,885)** : Mae'r cyfraniadau hyn yn berthnasol i wariannau ar gynlluniau penodol lle mae cyllid eisoes wedi ei neilltuo ar eu cyfer unai o danwariannau hanesyddol yr Awdurdod neu grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw. Fel y nodwyd uchod bydd hyn yn cael ei ddiwygio ymhellach ar gyfer yr Awdurdod ym mis Chwefror. Nid oes unrhyw effaith net ar gyllideb sylfaenol yr Awdurdod.

2.9 Mae paragraff 3.3 o'r Rheoliadau Ariannol yn nodi bod angen cymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer unrhyw drosglwyddiadau parhaol sy'n werth mwy na £10,000 yr un yn y gyllideb ddrafft.

Y trosglwyddiadau perthnasol yw

- £110,000 Gwariant ychwanegol ar system bwcio o flaen llaw Pen y Pass
- £24,060 Cynnydd lwfansau aelodau
- £18,060 Cynnydd mewn gwerth ardrethol
- £110,000 Cynnydd targed incwm maesydd parcio

3 CRONFEYDD WRTH GEFN

3.1 Ymhellach i strategaeth gyllidol ddarbodus yr Awdurdod, bydd y gronfa her ariannol ar gael i gwrdd ar diffyg yn 2025/26.

Mae'r Awdurdod yn gwynebu cyfnod heriol o ganlyniad pwysau chwyddiant diweddar, ynghyd a setliad 'fflat' y grant craidd ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Mae defnydd o gronfeydd i gyfarfod a'r diffyg yn ddatrasiad byr dymor, ac mae posiblwydd bydd angen i'r Awdurdod adnabod arbedion cyllidol parhaol yn 2025/26.

Mae'r tabl isod yn dangos yr effaith y bydd y diffyg a ragwelir yn ei chael ar lefelau wrth gefn yr Awdurdod dros y 4 blynedd nesaf. Erbyn 2027/28, mae perygl y bydd cronfa gyffredinol yr Awdurdod yn cael ei disbyddu a bydd angen rhoi mesurau ar waith er mwyn osgoi'r sefyllfa hon a sicrhau cadernid ariannol yr Awdurdod.

	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28
Balansau ar gael				
Cronfa Her Ariannol	2,362	1,722	911	0
Cronfa Gyffredinol	1,100	1,100	1,100	1,076
Diffyg	(640)	(811)	(935)	(1,087)
Balans terfynol	2,822	2,011	1,076	(11)

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Nodi'r gyllideb sylfaenol a gynlluniwyd ar gyfer 2025/26 fel yr amlinellwyd.

			Atodiad 1
		(£)	(£)
1	Cyllideb Sylfaenol 2024/25		7,195,246
2	Newid mewn costau staff		
	Gw erth cytundeb cyflogau 2024.25	178,853.00	
	Effaith cynnydd Ysw iriant gw ladol i 15%	112,388.00	
	Arbedion Addasu Strw ythur Gw asanaethau	- 49,556.00	
			241,685
	Lleihau darpariaeth chw yddiant cyflogau i 2%	- 239,986.00	
			-239,986
			1,699
3	Newid mewn gwariant		
	Costau Cynnal Barrier Pen y Pass	110,000	
	Lw fansau Aelodau	24,060	
	New id mewn Gw erth Ardrethol	18,040	
	Costau Tanysgrifiadau Technoleg Gw ybodaeth	5,000	
	Gw aredu llinell Darparu Llety Canolfannau Gw ybodaeth	610	
	Cyllido Aw yr Dyw yll or Gaw elodlin	-60,800	
			96,910
4	Newid mewn incwm Cynnydd		
	Targed Incwm Maesydd Parcio	-110,000	
			-110,000
			-13,090
5	Newid mewn Prosiectau Cyfalaf a gyllidwyd o refeniw		-330,429
5	Cyllideb Sylfaenol 2025/26		6,853,426
6	Grant Parc Cenedlaethol ac Ardoll 2025/26		-5,493,051
7	Cyfraniad Net o gronfeydd wrth gefn		
	Cyfraniadau Net		-548,885
			-
8	Diffyg		811,490



**GWEITHGOR AELODAU
PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
Dydd Mercher 4^{ydd} o Fedi 2024

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Tim Jones, Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd;

Swyddogion

G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Bethan Hughes, Sian Owen, Dewi Aeron Morgan, Eifion Jones;

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

Yn absenoldeb Cadeirydd y Gweithgor, y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Edgar Wyn Owen.

1. **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Louise Hughes

2. **Datgan Budd**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Gweithgor yr Aelodau a gynhaliwyd ar 26^{ain} o Fehefin 2024 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Lleoliad Pwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd: – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar benderfynu ar lleoliad ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

Adroddwyd: – Adroddodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer fod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wedi cyfarfod yn y Brif Swyddfa ym Mhenrhyndeudraeth yn hytrach na'r lleoliad arferol ym Mhlas Tan y Bwlch ar y 10^{fed} o Orffennaf a'i fod wedi bod yn gyfle da i brofi'r cyfleusterau a'r adnoddau roedd yr ystafell gynadledda'n ei gynnig wedi gwelliannau diweddar.

Nododd fod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud i osod technoleg cyfarfod hybrid parhaol yn yr ystafell, a bod acwsteg yr ystafell wedi gwella'n sylweddol ers gostwng y nenfwd yn ddiweddar.

Yn wyneb hyn, ac oherwydd yr ansicrwydd ynghylch dyfodol Plas Tan y Bwlch a'r sefyllfa staffio fregus sy'n cyd-fynd â hynny, nododd fod yn rhaid penderfynu a ddylid symud pob cyfarfod yn y dyfodol i'r Brif Swyddfa.

Rhestrodd resymau o blaid y Brif Swyddfa:

- Y Brif Swyddfa'n fwy cyfleus i Swyddogion a staff
- Lled band o well ansawdd
- Rhyddhau amser y Technegydd TG
- Gwell argaeledd parcio
- Rhyddhau'r system hybrid symudol i gyfarfodydd eraill
- Cyfle da i Aelodau dod ar draws staff nad ydynt byth yn mynychu cyfarfodydd

Nododd hefyd rhai pwyntiau pellach i'w hystyried:

- Mynediad i'r cyhoedd i arsylwi cyfarfodydd, a'r lle sydd ar gael yn yr ystafell gynadledda
 - Mater achlysurol fyddai hwn
 - Gan fod cyfarfodydd yn cael eu darlledu'n fyw, y teimlad cyffredinol yw na fyddai hwn yn gymaint o broblem
 - Mae'n opsiwn cael gwared ar y bwth cyfieithu os gwelir fod hyn yn broblem
- Dim cinio wedi'i baratoi ar gyfer yr Aelodau
 - Ddim yn opsiwn i ddarparu cinio poeth na bwffe yn y Brif Swyddfa
 - Opsiynau fyddai ar gael:
 - Dod â bocs bwyd
 - Prynu bwyd yn lleol a'i ddwyn i'r swyddfa i'w fwyta
 - Defnyddio'r cyfleusterau a geir yng nghegin y staff
 - Bwyta mewn caffi ym Mhorthmadog

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau canlynol:-

- Nododd un Aelod fod yr ystafell gynadledda lawer yn well na chynt wedi'r gwelliannau diweddar
- Croesawodd Aelod y symud i'r Pencadlys, a bod cael yr Awdurdod a'r Staff yn nes at ei gilydd yn beth da. Nododd hefyd fod y symud yn angenrheidiol oherwydd dyfodol y Plas.
- Pwysleisiodd Aelod ei fod yn bwysig fod y cyhoedd yn cael mynychu, a gofynnodd ynglŷn â'r sefyllfa parcio yn y Pencadlys. Cadarnhaodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer fod y sefyllfa parcio lawer gwell yn y Pencadlys nag yw yn y Plas.
- Sylwodd rhai Aelodau fod yr ystafell gynadledda'n glawstroffobig, bod nifer o aelodau'n absennol yng nghyfarfod y 10^{fed} o Orffennaf, a'i fod yn fyr o le fel ag yr oedd.
- Nododd Aelodau nad oedd diffyg cinio yn ffactor bwysig
- Nododd Aelod y gellid symud y cyfarfod i le mwy addas (gyda rhybudd) petai'n dod yn amlwg y byddai angen rhagor o le na'r arfer.
- Nododd Aelod y dylid cynyddu'r hysbysebu am argaeledd y cyfarfodydd ar y We i'r cyhoedd, a gwneud y linciau i'r cyfarfodydd yn eglurach.
- Nododd Aelod ei fod yn haws cyrraedd y Pencadlys na'r Plas ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Argymhellwyd: – symud holl gyfarfodydd y Pwyllgorau a'r Awdurdod i'r Pencadlys ar ôl yr 2^{il} o Hydref, i dynnu'r Bwth Cyfieithu o'r Ystafell Gynhadledd, ac i ymchwilio i osod uned aerdymheru.

Penderfynwyd: derbyn yr argymhelliad

5. **Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC)**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar fabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 yr adroddiad gan roi'r cefndir i'r Cynllun, nodi gofyniad y Cynllun, blaenoriaethau a nodau'r Awdurdod yn y tymor canolig, yr her ariannol, a blaenoriaethau gwasanaeth ac egwyddorion gweithredu'r Awdurdod.

Argymhellwyd: – Nodi ac ymateb i'r materion oedd wedi eu nodi yn y CATC.

Penderfynwyd: derbyn yr argymhelliad

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau canlynol:-

- Diolchodd Aelod i'r Swyddog am ei adroddiad, a hynny mewn sefyllfa dywyll. Nododd fod Llywodraeth Cymru'n fwy parod i hybu prosiectau rhwng y sector cyhoeddus a phreifat nag y buont, ac y dylai'r Parc edrych i mewn i hynny.
- Nododd Aelod arall y dylai'r Parc geisio dod o hyd i ffynonellau eraill o incwm.
- Tynnodd Aelod sylw at ddwy eitem yn yr adroddiad ac awgrymodd y dylid geirio'r brawddegau mewn ffordd a oedd yn adlewyrchu'r iaith statudol yn gywirach:
 - Eitem 3.1 (tud. 73) – yn lle, “Protect and enhance the natural beauty, wildlife and cultural heritage of the area” y dylid defnyddio, “Protect and *foster*...”
 - Eitem 5.4 (tud. 81) – yn lle, “Ensure that the Authority achieves its statutory implications.” y dylid defnyddio, “Ensure that the Authority achieves its statutory *purposes*.”
- Soniodd Aelod am yr Egwyddor Gweithredu i “defnyddio cyfryngau electronig fel y brif ffordd o ddarparu gwasanaethau a gwybodaeth” ac awgrymodd y dylai'r Awdurdod ystyried defnyddio cyfryngau eraill, di-electronig, am fod llawer o bobl yn ei ffeindio'n anodd defnyddio cyfryngau electronig am nifer o resymau.
- Wrth ddiolch am yr adroddiad, holodd un Aelod am y sefyllfa ym mhen 10 mlynedd. Cwestiynodd hefyd y syniad o gyd-weithio gyda'r sector breifat, gan ofyn a oedd y sector honno yn rhannu'r un diddordebau a blaenoriaethau. Dylai'r Awdurdod yn hytrach ymchwilio i godi lefi twristiaid, aelodaeth, ac adeiladu gwerth cymdeithasol. Atebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol gan esbonio mai adroddiad tymor canolig oedd yr adroddiad yma. Nododd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod yr Awdurdod yn aelod o Grŵp Weithredu Genedlaethol a fydd yn trafod materion megis lefi twristiaeth, ac fe fydd gennym lais cryf yno. Mae'r Parc hefyd yn eistedd ar Grwp Carbon Parciau Cenedlaethol, ac mae gan y grŵp gynlluniau hirdymor uchelgeisiol a phellgyrhaeddol.
- Holodd un Aelod a oedd gwerthiant Plas Tan y Bwlch wedi ei ffactora i'r ffigyrau. Atebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol gan esbonio nad oedd gwerthiant y Plas wedi ei gynnwys am nad oedd y penderfyniad wedi'i wneud.

Argymhellwyd: – Mabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig fel Dogfen Weithiol

Penderfynwyd: derbyn yr argymhelliad

Daeth y cyfarfod i ben am 12:00



**GWEITHGOR AELODAU
PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
Dydd Mercher 16^{eg} Hydref 2024

Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd (Conwy) (Cadeirydd)

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Jo Nuttall, Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd;

Swyddogion

G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Eifion Jones;
Edward Jones, Adam Daniel (eitemau 1-4 yn unig);
Angela Jones, Alec Young, Dr John Parkinson (eitem 5 yn unig);

1. **Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Tim Jones.

2. **Datgan Budd**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Gweithgor yr Aelodau a gynhaliwyd ar 4^{ydd} o Fedi 2024 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Diweddariad ar Blas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd – diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr Dros Dro

Adroddwyd –

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau eu bod, yng nghyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 11^{eg} o Fedi, wedi penderfynu derbyn yr argymhelliad isod:

bod yr Awdurdod yn gohirio'r penderfyniad ar y cynnig hyd nes cyfarfod yr Awdurdod ym mis Tachwedd er mwyn galluogi trafodaethau i barhau gyda'r partiön eraill oedd wedi datgan diddordeb hyd yma a gyda'r cwmni cymunedol, bod yn rhaid diogelu mynediad i Lyn Mair a'r coedlannau o dan ddeddfwriaeth Countryside and Rights of Way Act 2000 (CROW), a bod yr eiddo yn aros ar y farchnad hyd hynny.

Esboniodd fod nifer o ddatblygiadau wedi digwydd ers hynny a oedd yn golygu y byddai'n werth ail-edrych ar y penderfyniad yma.

1. Marchnata

O ran marchnata'r eiddo, adroddodd:

- mai un cynnig ffurfiol a gafwyd hyd yma, er bod unigolion, busnesau a chymdeithasau eraill yn parhau i ddangos diddordeb
- fod yr Awdurdod wedi datgan ei fwriad i sicrhau mynediad cyhoeddus i'r coedlannau a Llyn Mair ayyb, i'r darpar brynwyr. Doedd neb wedi gwrthwynebu, ond roedd yn well ganddynt gadw rheolaeth ar yr holl eiddo.
- fod rheolaeth yr hydro yn parhau'n fater i'w drafod.
- fod angen gwaith sylweddol ar argae Llyn Mair i osod siffon, ond ychydig a fyddai'r gost o gynnal a chadw wedi hynny.
- fod y cyfreithiwr wedi awgrymu mai cyfamodau cyfyngu fyddai'r ffordd ymlaen gyda mater y chalets er mwyn rhwystro unrhyw ddatblygiad pellach ohonynt.

2. Mynediad

O ran hawliau mynediad i'r cyhoedd i dir y Plas wedi gwerthiant, awgrymodd fod gan yr Awdurdod bedwar opsiwn:

- (1) Gwerthu'r holl dir fel safai gyda dynodiad CROW a thir mynediad agored;
- (2) Gwerthu'r holl dir a dynodi rhai o'r llwybrau ar dir yr Awdurdod yn llwybrau cyhoeddus;
- (3) Dynodi llwybrau tir yr Awdurdod a llwybrau rhwydwaith ehangach ar dir cymdogion yn llwybrau cyhoeddus;
- (4) Gwahanu'r goedlan a'r llwybrau oddi wrth y Plas a'r gerddi, gan adael sefyllfa'r llwybrau fel yr oedd. Byddai hefyd angen dynodi hawl mynediad o fynedfa y Plas (ochr yr Oakeley Arms) er mwyn medru cyrraedd y tir i'w gadw, er y byddai cost cynnal a chadw'r ddwy fynedfa yn parhau yn nwylo perchennog y Plas.

Ehangwyd ar yr opsiynau gan y Pennaeth Gwasanaeth Wardeinio. Dywedodd:

- fod y sefyllfa bresennol gyda'r llwybrau yn syml ac yn gymhleth. Yr oedd yn syml am fod yna bartneriaeth o dirfeddianwyr gwahanol gyda rhwydwaith eang o llwybrau trwy ganiatâd. Byddai unrhyw newid yn y sefyllfa yn creu cymhlethdodau.
- opsiwn (1) – byddai hwn yn creu hawl mynediad i'r safle ond ni fyddai gan y tirfeddianwr unrhyw gyfrifoldeb i gadw'r llwybrau i safon; byddai dynodi'r tir yn dir CROW yn cymryd amser am fod y broses yn un hirfaith. Mae un cymydog wedi ei dynodi yn dir mynediad agored, a'u bod yn bwrpasol ac yn rheolaidd yn cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod Priffyrdd i'w atgoffa nad oeddynt yn dymuno newid y llwybrau i fod yn llwybrau cyhoeddus. Roedd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt allu wneud unrhyw waith ar eu tir eu hunain.
- Opsiwn (2) - gellid dynodi rhai llwybrau ond mae yno risg i'r broses gymhlethu gyda apêl gyhoeddus wrth beidio dynodi'r llwybrau i gyd.
- opsiwn (3) – byddai dynodi llwybrau presennol yr Awdurdod yn rhai cyhoeddus ac yna eu cysylltu â'r llwybr cyhoeddus presennol yn ddibynnol ar gydweithrediad cymdogion. Fe allai'r cymdogion wrthod hynny, ac fe fyddai hynny'n gwneud yr opsiwn o wneud y llwybrau'n rhai cyhoeddus lawer yn anoddach.
- opsiwn (4) – byddai'r Awdurdod yn parhau i berchen y goedlan a'r llwybrau caniatool a pharhau i'w cynnal a chadw, a byddai hyn yn cadw'r sefyllfa'n llawer symlach.

3. Treftadaeth
Adroddwyd bod creiriau Tomen y Mur wedi eu dychwelyd i'r perchennog yn dilyn cais ganddo.
4. Diwrnod Ymgysylltu
Adroddodd fod diwrnod ymgysylltu wedi ei gynnal yn Stablau y Plas. Yr oedd wedi bod yn llwyddiannus, a diolchodd i'r Aelodau a'r Swyddogion oedd wedi bod yn rhan o'r diwrnod. Dangosodd y digwyddiad fod yna wir ddiddordeb yn y gymuned ynglŷn â dyfodol y Plas a'r tiroedd.
5. Cwmnïau Cymunedol
Derbyniwyd adroddiad gan un cwmni cymunedol a oedd yn gosod allan amserlen eu cynllun busnes parthed y Plas. Rhagwelai nad oedd yn debygol yr agorai'r Plas fel canolfan ganddynt o fewn saith mlynedd.
Adroddwyd bod sôn bod cwmni cymunedol arall wrthi'n cael ei sefydlu a'u bod wedi gofyn am ragor o amser.
Nodwyd er y byddai "mothballio" y Plas er mwyn rhoi mwy o amser i gwmnïau yn arbed costau i'r Awdurdod, byddai risgiau iddo, gan gynnwys diogelwch a dirywiad yr adeilad.

Yng ngoleuni'r holl ddatblygiadau yma, awgrymodd mai'r ffordd orau ymlaen oedd pe byddai'r Aelodau'n ail-edrych ar y penderfyniad a wnaethpwyd yng nghyfarfod 11^{eg} o Fedi. Nododd fod Rheol Sefydlog 12.14 yr Awdurdod yn gwahardd diddymu "unrhyw benderfyniad gan yr Awdurdod a wnaed o fewn y chwe mis cynt ... ond medrir gwneud cynnig o'r fath mewn cyfarfod o'r Awdurdod os

(a) caiff ei argymhell gan Bwyllgor; neu

(b) os rhoddir rhybudd o'r cyfryw gynnig gan chwe aelod o'r Awdurdod."

Awgrymodd y dylai'r Awdurdod ystyried y datblygiadau diweddar ac yng ngoleuni hynny dylai 6 Aelod roi rhybudd o gynnig fod yr Awdurdod yn ail-edrych ar yr holl fater, a bod yr Awdurdod, yn ei gyfarfod nesaf ym mis Tachwedd, yn argymhell i'r eiddo gael ei dynnu o'r farchnad tan y Gwanwyn, sef cyfarfod yr Awdurdod ar 30 Ebrill 2025, a derbyn adroddiad pellach gan y Swyddogion y pryd hynny.

Cafwyd trafodaeth ar adroddiad y Prif Weithredwr Dros Dro gan yr Aelodau.

Rhodddwyd rhybudd o fwriad i gynnig diddymu'r penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 11^{eg} o Fedi yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod gan 7 Aelod, sef y Cynghorwyr Edgar Owen, Annwen Hughes, Meryl Roberts, Elfed Roberts, June Jones, Louise Hughes ac Einir Wyn Williams.

5. **Casgliad y Prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Swyddog Yr Wyddfa Ddi-blastig a'r Athro John Parkinson, Prifysgol Bangor.

Rhodddodd y Swyddog drosolwg o'r prosiect gan ddisgrifio'r broblem wreiddiol, nodi amcanion y prosiect ac amlinellu amserlen y prosiect.

Yn benodol, soniodd am:

- y gwaith ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor, o dan arweinyddiaeth yr Athro John Parkinson, i geisio deall beth oedd yn gyrru agweddau pobl at adael sbwriel, ac i greu sgript oedd wedi'i gwreiddio mewn theori academaidd i geisio newid agweddau

cerddwyr at adael sbwriel. Adroddodd fod y sgrïpt, mewn gwirionedd, wedi gwneud i lawer o gerddwyr godi sbwriel a adawyd gan eraill.

- y penderfyniad i dynnu biniau o Lyn Cwellyn a Rhyd Ddu; fod hyn wedi gostwng y maint o sbwriel a adawyd, ac nad oedd unrhyw gŵynion wedi eu derbyn ynglŷn â'r penderfyniad; a'i fod yn fwiad tynnu bin mewn lle mwy "risky" yn y dyfodol.
- COPA1, sef cynhadledd ieuencid ar yr Wyddfa; cafwyd 200 o ymgeiswyr i'r gystadleuaeth; a bwriedir cynnal COPA2 yn 2026

Nododd nad oeddent wedi llwyddo i greu parth di-blastig, ond bod y maint o sbwriel wedi lleihau a bod y tueddiad ar i lawr.

Argymhellwyd – bod Aelodau'r Awdurdod yn:

- parhau i ddarparu eiriolaeth a chefnogaeth i brosiectau etifeddiaeth;
- mabwysiadu'r polisi Plastigau Untro gan gadarnhau ei ymrwymiad i leihau caffael, defnyddio a dosbarthu deunyddiau a phecynnu diangen a thafladwy ar draws y sefydliad;
- rhoi adborth a chynghor cyn cyhoeddi Adroddiad Effaith terfynol 2022-24.

Penderfynwyd – derbyn yr argymhelliad

Daeth y cyfarfod i ben am 13:10



PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
DYDD MERCHER 11^{eg} O FEDI 2024
Plas Tan y Bwlch

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cyngorwyr Elfed Powell Roberts (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cyngorwyr Ifor Glyn Lloyd;

Aelod wedi ei benodi gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Tim Jones, Delyth Lloyd;

Swyddogion

G. Iwan Jones, Nia Murray, Dewi Morgan, Eifion Jones.

Yn bresennol

Steffan Jones a Catrin Taylor o Goodson Thomas.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

Croesawodd y Cadeirydd Nia Murray, y Pennaeth Adnoddau Dynol, Steffan Jones a Catrin Taylor (Goodson Thomas) i'r cyfarfod.

1. **Ymddiheuriadau**

Y Cyngorwyr Louise Hughes, June Jones, Dilwyn Owain Roberts, Jo Nuttall; Naomi Luhde-Thompson.

2. **Datgan Diddordeb**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau diddordeb.

3. **Recriwtio Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) APCE – Pecyn Rhestr Fer**

Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Eithrio rhag datgelu dogfennau Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol argymhelliad i eithrio'r adroddiad, "Recriwtio Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) APCE – Pecyn Rhestr Fer" am ei fod yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn:

- berthnasol i unigolyn penodol,
- debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn dan sylw,
- ymwneud â materion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr awdurdod oedd yn dal y wybodaeth honno.

Argymhellwyd – y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn cytuno i eithrio'r adroddiad "Recriwtio Prif Weithredwr APCE – Pecyn Rhestr Fer".

Penderfynwyd derbyn yr argymhelliad

RHAN 2

4. **Recriwtio Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) APCE**

Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y Panel Penodi wedi cyfarfod ar y 4^{ydd} o Fedi dan gadeiryddiaeth Tim Jones, ac wedi penderfynu ar argymhelliad.

Adroddodd Cadeirydd y panel hwnnw ar y penderfyniad, gan ddechrau trwy ddiolch i Steffan Jones a Catrin Taylor o Goodson Thomas am eu gwaith.

Esboniodd fod y panel wedi mynd trwy'r Pecyn Rhestr Fer yn fanwl, eu bod wedi dewis rhai o'r rhestr fer i gael eu cyfweld ar ôl iddynt sefyll profion seicometrig. Wedi trafodaeth daeth y panel i benderfyniad unfrydol ynghylch pwy ddylid cael eu cyfweld.

Rhodddwyd 10 enw ymlaen gerbron yn y pecyn rhestr fer, ac awgrymodd y pecyn bump o'r deg fel rhai y dylid eu cyfweld.

O'r pump, dewiswyd tri ymgeisydd gan y Panel i'w cyfweld.

Nododd fod y Panel o blaid cyfweld y cyntaf oherwydd ei phrofiad a'i chefnidir, ei bod wedi gweithio ar lefel uchel, ac yn gyfarwydd â'r ardal a'r Parc. Nododd fod y panel o blaid cyfweld yr ail oherwydd ei fod eisoes wedi gweithio ar lefel prif weithredwr, yn adnabod yr ardal, ond bod ychydig o bryder ynglŷn â'i brofiad o'r Parc. Nododd hefyd fod y trydydd yn adnabyddus gan bawb yn y cyfarfod.

Nododd yn ogystal fod gan un o'r ymgeiswyr eraill gefndir yn y maes, ond nid o lefel uchel fel oedd gan y lleill; a bod gan y pumed ymgeisydd hefyd gefndir da, ond nid yn y maes ac nid i gorff o'r maint yma.

Cynigiodd felly bod y tri cyntaf yn cael eu cyfweld.

Eiliodd Aelod y cynnig a diolchodd hefyd i Goodson Thomas am eu gwaith.

Diolchodd Steffan Jones am y cyfle i weithio gyda'r Parc a dywedodd eu bod wedi mwynhau'r gwaith.

Gofynnodd Aelod beth oedd y cam nesaf yn y broses a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r Awdurdod llawn yn cyfweld y tri ymgeisydd ar yr ail o Hydref.

Argymhellwyd: – gwahodd y tri ymgeisydd a argymhellwyd gan y Panel Penodi i'w cyfweld, wedi iddynt sefyll profion seicometrig.

Penderfynwyd: derbyn yr argymhelliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.40

CYFARFOD	AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDDIAD	13 Tachwedd, 2024
TEITL	Eithrio Adroddiad: PLAS TAN Y BWLCH – DIWEDDARIAD AC OPSIYNAU
ADRODDIAD GAN	Prif Weithredwr Dros Dro
PWRPAS	Gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo eithrio'r adroddiad uchod

1. CEFNDIR

- 1.1 Rwyf wedi rhoi ystyriaeth i'r rhesymau dros eithrio'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad y cyfeirir ato uchod, a rwy'n gwneud yr argymhellion a ganlyn i'r Awdurdod:
- 1.2 Eithriadau sy'n berthnasol i'r adroddiad:
- 1.2.1 i. Gwybodaeth sy'n berthnasol i unigolyn penodol.
ii. Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolyn dan sylw
iii. Gwybodaeth sy'n ymwenedd â materion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno).
- 1.3 Ffactorau o blaid datgelu: Dim
- 1.4 Rhagfarn a fyddai'n digwydd petai'r wybodaeth yn cael ei datgelu:
- i. Waeth sut y caiff yr adroddiad ei geirio, mae'n bosib canfod pwy yw'r unigolyn neu'r unigolion dan sylw.
ii. Waeth sut y caiff yr adroddiad ei geirio, bydd materion ariannol y person, personau neu'r Awdurdod sy'n destun yr adroddiad yn cael ei ddatgelu.
- 1.5 Mae fy marn i ar y prawf budd cyhoeddus fel a ganlyn:
- i. Gwasanaethir y budd cyhoeddus orau pe bai'r Awdurdod yn cadw'r wybodaeth er mwyn sicrhau y diogelir pwy yw'r unigolyn dan sylw ynghyd â'r wybodaeth ariannol.

2. ARGYMHELLIAD

Bod yr Awdurdod yn cytuno i eithrio'r adroddiad "Plas Tan y Bwlch – Diweddariad ac Opsiynau".

CYFARFOD	AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDDIAD	13 Tachwedd, 2024
TEITL	Eithrio Adroddiad: STRWYTHUR ARFAETHEDIG Y TIM RHEOLI
ADRODDIAD GAN	Darpar Brif Weithredwr
PWRPAS	Gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo eithrio'r adroddiad uchod

1. CEFNDIR

- 1.1 Rwyf wedi rhoi ystyriaeth i'r rhesymau dros eithrio'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad y cyfeirir ato uchod, a rwy'n gwneud yr argymhellion a ganlyn i'r Awdurdod:
- 1.2 Eithriadau sy'n berthnasol i'r adroddiad:
- 1.2.1
- i. Gwybodaeth sy'n berthnasol i unigolyn penodol.
 - ii. Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolun dan sylw
 - iii. Gwybodaeth sy'n ymwenedd â materion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno).
- 1.3 Ffactorau o blaid datgelu: Dim
- 1.4 Rhagfarn a fyddai'n digwydd petai'r wybodaeth yn cael ei datgelu:
- i. Waeth sut y caiff yr adroddiad ei geirio, mae'n bosib canfod pwy yw'r unigolyn neu'r unigolion dan sylw.
 - ii. Waeth sut y caiff yr adroddiad ei geirio, bydd materion ariannol y person, personau neu'r Awdurdod sy'n destun yr adroddiad yn cael ei ddatgelu.
- 1.5 Mae fy marn i ar y prawf budd cyhoeddus fel a ganlyn:
- i. Gwasanaethir y budd cyhoeddus orau pe bai'r Awdurdod yn cadw'r wybodaeth er mwyn sicrhau y diogelir pwy yw'r unigolyn dan sylw ynghyd â'r wybodaeth ariannol.

2. ARGYMHELLIAD

Bod yr Awdurdod yn cytuno i eithrio'r adroddiad "Strwythur Arfaethedig y Tîm Rheoli".